

*Adroddiad Blynyddol  
Cyllid a  
Llywodraethu  
2022/2023*

*A Hughes, BA(Hons), MA, DipCG, ACA*

**Cyfarwyddwr Strategol – Cyllid ac Adnoddau**

# CYNNWYS

	<b>Tudalen</b>
<b>CYFLWYNIAD</b>	5
<b>ADRODDIAD NARATIF</b>	6 - 12
<b>DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R DATGANIAD CYFRIFON</b>	
▪ Cyfrifoldebau'r Awdurdod	13
▪ Cyfrifoldebau'r Swyddog Adran 151	14
<b>ADRODDIAD YR ARCHWILIWR</b>	15 - 18
<b><u>DATGANIAD CYFRIFON 2022/23:</u></b>	
<b>DATGANIAD O EGWYDDORION A PHOLISIŌU CADW CYFRIFON</b>	19 - 37
<b>DATGANIADAU CRAIDD</b>	
▪ Dadansoddiad o'r Gwariant a'r Cyllid	38 - 39
▪ Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	40
▪ Symudiadau yn Natganiad y Cronfeydd wrth Gefn	41 - 42
▪ Y Fantolen	43
▪ Datganiad ynglŷn â Llif Arian	44
<b>NODIADAU I'R CYFRIFON:</b>	
<b>Nodyn 1</b>	45
<b>Nodyn 2</b>	45 - 46
<b>Nodyn 3</b>	47 - 48
<b>Nodyn 4</b>	48
<b>Nodyn 5</b>	49 - 50
<b>Nodyn 6</b>	50
<b>Nodyn 7</b>	51
<b>Nodyn 8</b>	51
<b>Nodyn 9</b>	51
<b>Nodyn 10</b>	52 - 55
<b>Nodyn 11</b>	56 - 59
<b>Nodyn 12</b>	60 - 63
<b>Nodyn 13</b>	64
<b>Nodyn 14</b>	65 - 67
<b>Nodyn 15</b>	68
<b>Nodyn 16</b>	68
<b>Nodyn 17</b>	68
<b>Nodyn 18</b>	69 - 74
<b>Nodyn 19</b>	75
<b>Nodyn 20</b>	76
<b>Nodyn 21</b>	76
<b>Nodyn 22</b>	76
<b>Nodyn 23</b>	77 - 78
<b>Nodyn 24</b>	78

		<b>Tudalen</b>
<b>Nodyn 25</b>	▪ Lwfansau Aelodau	79
<b>Nodyn 26</b>	▪ Tâl Swyddogion	79 - 81
<b>Nodyn 27</b>	▪ Costau Archwilio Allanol	81
<b>Nodyn 28</b>	▪ Incwm Grantiau	82 - 83
<b>Nodyn 29</b>	▪ Partion Cysylltiedig	84 - 85
<b>Nodyn 30</b>	▪ Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf	86
<b>Nodyn 31</b>	▪ Prydlesau	87 - 90
<b>Nodyn 32</b>	▪ Mentrau Cyllid Preifat a Chytundebau Tebyg	90 - 92
<b>Nodyn 33</b>	▪ Cynlluniau Pensiwn y Cyfrifir Amdanynt fel Cynlluniau Diffiniedig	92
<b>Nodyn 34</b>	▪ Cynlluniau Pensiwn Buddiannau Diffiniedig	92 - 97
<b>Nodyn 35</b>	▪ Trefniadau a Phwyllgorau ar y Cyd	97
<b>Nodyn 36</b>	▪ Natur a Maint y Risgiau a Ddaw o Offerynnau Ariannol	98 - 101
<b>Nodyn 37</b>	▪ Cronfeydd Ymddiriedolaeth	102
<b>Nodyn 38</b>	▪ Treth y Cyngor	103
<b>Nodyn 39</b>	▪ Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)	104
<b>GEIRFA</b>		105 - 113
<b>DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL (ATODIAD)</b>		1 - 16

## **CYFLWYNIAD**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn awdurdod unedol sy'n darparu holl brif wasanaethau llywodraeth leol megis Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Amgylcheddol, Hamdden, Cynllunio a Phrifyrdd.

Mae gan Fwrdeistref Sirol Conwy boblogaeth o oddeutu 114,850. Mae dros 80% o'r boblogaeth yn byw ar hyd y llain arfordirol sy'n cynnwys trefi Abergele, Bae Colwyn a Llandudno. Mae gweddill y boblogaeth wedi'i gwasgaru ar draws yr ardal gan ymestyn i Ddolwyddelan yn y de-orllewin a Llangwm a Dinmael yn y de-ddwyrain. Mae oddeutu traean o breswylwyr Conwy yn siarad Cymraeg ac fe aned oddeutu hanner poblogaeth y Fwrdeistref Sirol yng Nghymru.

### **Llywodraethu Gwleidyddol**

Mae gan Conwy 55 o gynghorwyr sir a etholwyd i gynrychioli 30 o ranbarthau etholiadol. Cynhaliwyd etholiadau lleol ym mis Mai 2022, ac mae gwneuthuriad gwleidyddol y Cyngor ar 25 Gorffennaf 2023 fel a ganlyn:-

- 20 Grŵp Annibynnol Conwy yn Gyntaf
- 10 Llafur
- 10 Ceidwadol
- 8 Plaid Cymru a'r Blaid Werdd
- 4 Democrat Rhyddfrydol
- 2 Aelodau Annibynnol Cynghreiriol
- 1 Annibynnol

### **Y Cyngor**

Y Cyngor (55 cynghorydd) sy'n pennu'r gyllideb a'r polisiau cyffredinol. Mae'n cyfarfod o leiaf pedair gwaith y flwyddyn, ac mae'n trafod y gwahanol ddewisiadau ar gyfer materion pwysig sy'n wynebu'r Fwrdeistref Sirol. Mae'r Cyngor yn penodi Arweinydd y Cyngor sy'n dewis yr Aelodau'r Cabinet, ac yn clustnodi cyfrifoldebau (portffolios) i aelodau Cabinet. Y Cyngor hefyd yw canolbwynt unrhyw drafodaeth am berfformiad y Cabinet.

### **Y Cabinet**

Mae'r Cabinet yn cynnwys 10 o Gynghorwyr, yn cynnwys Arweinydd y Cyngor sy'n cadeirio cyfarfodydd y Cabinet. Mae gan bob un o Aelodau'r Cabinet bortffolio penodol, a chyfrifoldeb dros feysydd o wasanaethau'r Cyngor.

Mae rhagor o wybodaeth am y Cyngor ar gael ar y ddolen ganlynol:

<http://www.conwy.gov.uk/cy/Council/Council.aspx>

## ADRODDIAD NARATIF

1. Diben Datganiad Cyfrifon y Cyngor yw darparu gwybodaeth glir am effaith ariannol gweithgareddau'r Cyngor yn ystod y cyfnod dan sylw, mewn arddull sy'n hawdd ei deall.
2. Mae'r Cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â Chod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol 2022/23 (y Cod 2022/23), sy'n nodi egwyddorion ac arferion cyfrifo sy'n ofynnol i ddarparu 'safbwynt gwirioneddol a theg' o sefyllfa ariannol a thrafodion yr awdurdod lleol. Mae Cod 2022/23 yn nodi 'arferion cyfrifo priodol' o dan delerau adran 21 (2) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae Cod 2022/23 yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).
3. Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys y datganiadau ariannol canlynol yn unol â'r Cod:-

### a) **Datganiad Cyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon**

Mae hyn yn nodi cyfrifoldebau perthnasol y Cyngor a'i swyddogion ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

### b) **Datganiad o egwyddorion a pholisïau Cyfrifon**

Diben y datganiad hwn yw egluro sail y ffigyrau yn y Cyfrifon. Mae'n amlinellu'r polisiau cyfrifo sydd wedi'u mabwysiadu.

### c) **Datganiadau Ariannol 'Craidd'**

#### 1. Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Mae'r datganiad yn dangos y gost gyfrifeg yn ystod y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â'r arferion cyfrifeg a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae Awdurdodau yn codi trethi i dalu am wariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifeg. Mae'r sefyllfa trethiant wedi ei nodi yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r datganiad yn dangos bod diffyg yn y flwyddyn o £23.936m (arian dros ben 2021/22 o £4.830).

#### 2. Datganiad ynglŷn â'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn yng ngwahanol gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod, wedi'u dadansoddi yn 'gronfeydd y gellir eu defnyddio' (h.y. y rhai sy'n cael eu defnyddio i ariannu gwariant neu leihau trethi lleol) a chronfeydd eraill. Mae'r Arian Dros Ben (neu'r Diffyg) ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Awdurdod, ac mae'r manylion wedi'u dangos yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sy'n berthnasol i Falans Cronfa'r Cyngor (y swm cyffredinol o arian at raid heb ei ddyrannu) ar gyfer sefydlu treth y cyngor. Mae'r Cynnydd/Lleihad Net cyn Trosglwyddo (i/o) gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn dangos Balans Cronfa'r Cyngor statudol cyn unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd gan y Cyngor.

Swm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio oedd £49.278m ar ddiwedd y flwyddyn 31 Mawrth 2023 (31 Mawrth 2022 £48.138m) gan gynnwys balans Cronfa'r Cyngor o £4.168m (31 Mawrth 2022 £3.509m).

### 3. Y Fantolen

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r dyledion sy'n cael eu cydnabod gan yr Awdurdod. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai dyledion) yn cael eu cydweddu â'r cronfeydd wrth gefn y mae'r Awdurdod yn eu dal. Adroddir ynglŷn â chronfeydd wrth gefn mewn dau categori. Mae'r categori cyntaf o gronfeydd wrth gefn yn gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio, h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny y gall yr awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o gronfeydd wrth gefn ac ar unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (er enghraifft y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn na ellir ei defnyddio ond i gyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled). Mae'r ail categori o gronfeydd wrth gefn yn rhai na all yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n dal enillion a cholledion sydd heb eu gwireddu (er enghraifft y Gronfa Adbriso Wrth Gefn), ble y deuai symiau ar gael i ddarparu gwasanaeth dim ond os gwerthir yr asedau; a chronfeydd wrth gefn sy'n dal gwahaniaethau amseru a gaiff eu dangos yn y llinell 'Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail gyllido o dan reoliadau' yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Gwerth net yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2023 oedd £444.016m, cynnydd o £245.024m o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2022, yn bennaf oherwydd newidiadau yng ngwerth ymrwymadau pensiwn ac asedau tymor hir (gweler y Fantolen ar dudalen 43).

### 4. Datganiad Llif Arian

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newid mewn arian parod a chyfwerth arian parod yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r awdurdod yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a chyfwerth arian, drwy ddsbarthu llifoedd arian fel gweithgareddau gweithredol, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llifoedd arian net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu'n ddangosydd allweddol o'r graddau y mae gweithrediadau'r Awdurdod yn cael eu hariannu drwy drethiant ac incwm grant, neu gan bobl sy'n derbyn gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod. Mae gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli'r graddau y mae all-lifoedd arian parod wedi'u gwneud ar gyfer adnoddau sydd wedi'u bwriadu i gyfrannu at ddarpariaeth gwasanaeth yr Awdurdod yn y dyfodol.

#### **d) Dadansoddiad Gwariant a Chyllid**

Mae hwn yn ddadansoddiad i ddangos y gwariant net sy'n daladwy i'w drethu ac yn ei gysoni i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid yn dangos sut mae gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cael ei ddefnyddio a'i noddi (grantiau llywodraeth, Treth y Cyngor a Chyfraddau Busnes) gan awdurdodau lleol o'i gymharu gyda'r adnoddau hynny a ddefnyddir neu eu henillir gan awdurdodau lleol yn unol ag arferion cyfrifeg sy'n gyffredinol yn cael eu derbyn.

#### 4. Ariannu Gwasanaethau'r Cyngor

Mae gan y Cyngor ddau fath o wariant – gwariant refeniw a gwariant cyfalaf

Mae **Gwariant Refeniw** yn cynnwys gwario ar gostau dyddiol gwasanaethau megis cyflogau staff, cynnal a chadw adeiladau, cyflenwadau ac offer cyffredinol. Telir am y gwariant drwy'r incwm a dderbynnir gan Dalwyr Treth y Cyngor, talwyr trethi busnes, ffioedd a thaliadau a wneir ar gyfer gwasanaethau penodol, a grantiau a dderbynnir gan y llywodraeth.

Mae **Gwariant Cyfalaf** yn cynnwys gwario ar asedau megis ffyrdd, ailddatblygu a gwaith adnewyddu adeiladau. Bydd yr asedau hyn yn darparu buddion i'r gymuned am flynyddoedd lawer ac fe ariennir y gwariant yn bennaf drwy fenthyca a grantiau cyfalaf.

##### 4.1 Adolygu'r Flwyddyn – Gwariant Refeniw

Cymeradwywyd cyllideb Gwariant net Gwasanaethau'r Cyngor o £256.914m ar gyfer 2022/2023 ym mis Mawrth 2022 (£237.658m yn 2021/2022), ac roedd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer pwysau hysbys ar wasanaethau, cynnydd mewn prisiau a risgiau eraill.

Pennwyd cyllideb gytbwys yn dilyn Setliad ariannol hael o gymorth grant gan Lywodraeth Cymru (LIC), gyda Conwy yn derbyn cynnydd o 9.5%, sef y pumed Setliad uchaf yng Nghymru. Er y croesawyd y Setliad, roedd angen i'r Cyngor wneud penderfyniadau anodd a heriol o hyd, gan gynnwys cynnydd o 3.95% yn Nhreth y Cyngor, er mwyn pennu cyllideb gytbwys o fewn yr adnoddau ariannol cyffredinol oedd ar gael.

Ar ddechrau blwyddyn ariannol newydd, arweiniodd digwyddiadau byd-eang a sbardunau economaidd eraill at gynnydd sylweddol mewn chwyddiant, a daeth yn amlwg bod y ddarpariaeth a roddwyd o'r neilltu i dalu dyfarniadau cyflog 2022/23 yn annigonol, gyda phwysau chwyddiant eraill hefyd yn cynyddu costau yn yr hyn y cyfeiriwyd ato wedyn fel 'argyfwng costau byw'.

Parhaodd y Cyngor i weld galw digynsail am nifer o wasanaethau yn codi o ganlyniad i effaith pandemig y Coronafeirws ar fywydau, lles a bywoliaeth pobl a'r economi - yn enwedig Plant sy'n Derbynn Gofal a Digartrefedd.

Gweithredodd Conwy unwaith eto fel asiant ar ran LIC drwy dalu grantiau cysylltiedig â'r pandemig a chostau byw i drigolion a busnesau lleol mewn perthynas ag amrywiol fentrau cymorth grant a gyhoeddwyd gan LIC (gweler Nodyn 23).

Cafodd y gyllideb ar gyfer 2022/2023 ei monitro a'i rheoli yn ystod y flwyddyn drwy gyfrwng adroddiadau a chyflwyniadau a oedd yn tynnu sylw'r Aelodau at asesiad lefel uchel cyffredinol o'r sefyllfa ariannol a oedd yn datblygu. Adlewyrchwyd lefel yr ansicrwydd yn y sefyllfa ariannol yr adroddwyd arni'n rheolaidd. Cynyddodd y diffyg cyllidebol a ragwelwyd yn sylweddol drwy gydol y flwyddyn yn sgil cynnydd mewn costau a'r galw am wasanaethau, a bu i'r Swyddog Adran 151 gymryd mesurau i ddatrys y sefyllfa a arweiniodd at orwariant diwedd blwyddyn llawer llai o £3.046m.

Dangosir crynodeb o'r sefyllfa ariannol derfynol yn Nhabl 1 isod.

**Tabl 1**

Col 1	Col 2	Col 3	Col 4	Col 5
CRYNODEB	AMCANGYFRIF GWREIDDOL 2022/23 £'000	AMCANGYFRIF AILDDATGANEDIG 2022/23 £'000	ALLDRO TERFYNNOL 2022/23 £'000	AMRYWIANT (Col 4 - Col 3) 2022/23 £'000
<b>Sylfaen Adnoddau (incwm)</b>				
Grant Cynnal Refeniw	140,005	140,005	140,005	0
Ardrethi Annomestig wedi'u Haillddosbarthu	43,306	43,306	43,306	0
Treth y Cyngor	73,376	73,376	73,783	407
Colledion Llai ar yr hyn a Gesglir (Treth y Cyngor)	227	227	227	0
Grant Diffyg Treth y Cyngor				0
<b>Cyfanswm</b>	<b>256,914</b>	<b>256,914</b>	<b>257,321</b>	<b>407</b>
<b>Gwariant Net</b>				
Gwasanaethau Addysg	88,102	89,699	88,534	(1,165)
Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol	5,595	5,636	6,409	773
Gwasanaethau Cymdeithasol	74,418	76,108	79,414	3,306
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	19,665	20,195	20,182	(13)
Economi a Diwylliant	6,803	7,433	6,849	(584)
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai	7,791	6,863	8,362	1,499
Gwasanaethau Ariannol Corfforaethol	1,354	1,756	1,802	46
Archwilio a Chaffael	659	680	608	(72)
Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau	1,404	1,555	1,550	(5)
Y Gyfraith a Llywodraethu	2,238	2,338	2,186	(152)
Technoleg Gwybodaeth	2,312	2,447	2,447	0
Gwasanaethau'r Prif Weithredwr	567	576	543	(33)
Pobl a Pherfformiad	1,644	1,739	1,509	(230)
Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor	11,635	11,635	10,988	(647)
Rheoli'r Trysorlys a Darpariaeth Isafswm Refeniw	11,827	11,827	9,983	(1,844)
Costau ac Incwm Corfforaethol	14,415	8,681	11,082	2,401
Ardollau	7,180	7,180	7,308	128
<b>Is-gyfanswm Gwariant Net y Gwasanaethau</b>	<b>257,609</b>	<b>256,348</b>	<b>259,756</b>	<b>3,408</b>
Cyfraniad o'r Cronfeydd Wrth Gefn (achosion busnes anghylch)	(709)	(709)	(664)	45
Cyfraniad i'r Balansau Cyffredinol	14	14	14	0
Cyfraniad i'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pwysau Cyflogau		1,261	1,261	0
<b>Gorwariant</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>3,046</b>	<b>3,046</b>
<b>cyfraniad i ariannu cyflogau</b>			<b>(3,365)</b>	<b>(3,365)</b>
<b>cyfraniad gan gofal cymdeithasol</b>			<b>(325)</b>	<b>(325)</b>
<b>cyfraniad i'r gronfa gyffredinol</b>			<b>644</b>	<b>644</b>
<b>Is-gyfanswm Arall</b>	<b>(695)</b>	<b>566</b>	<b>(2,435)</b>	<b>(3,001)</b>
<b>Cyllideb Refeniw Net</b>	<b>256,914</b>	<b>256,914</b>	<b>257,321</b>	<b>407</b>

Mae Tabl 1 yn wahanol i golofn agoriadol y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid (tudalen 38) oherwydd rhai mân wahaniaethau cyflwyniadol rhwng y modd yr adroddir ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn a sut yr adroddir ar y deilliant ar ôl cwblhau'r drefn o gau'r cyfrifon.

Mae balans Cronfa Gyffredinol y Cyngor yn fesur o'r gronfa wrth gefn gydag arian heb ei neilltuo sy'n cael ei ddefnyddio gan y Cyngor i gwrdd â gofynion llif arian a phan fo digwyddiadau annisgwyl. Mae balans Cronfa Gyffredinol y Cyngor yn £4.168m sy'n isel iawn o gymharu â gweddill Cymru ac mae'n rhaid adolygu hyn yn barhaus.

Mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy eraill wedi eu nodi yn Nodyn 11 y cyfrifon.

Mae Mantolen yr Awdurdod yn cynnwys nifer o symudiadau o ran cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Yn ystod 2022/2023 sefydlwyd a chynyddwyd nifer o



gronfeydd wrth gefn, a defnyddiwyd nifer o gronfeydd wrth gefn. Mae cronfeydd refeniw wrth gefn yn deillio o ddigwyddiadau sydd wedi caniatáu i arian gael ei roi i'r naill ochr am amrywiol resymau e.e. arbedion ychwanegol, neu amgylchiadau sy'n achosi i wariant gael ei atal neu ei ohirio. Mae'r symudiad yn y cronfeydd wrth gefn yn ystod 2022/2023 yn adlewyrchu Penderfyniadau'r Cyngor, cofnodion cyfrifo darbodus, risgiau, datblygiadau gwasanaethau, arian a neilltuwyd ar gyfer ymrwymadau, ac adnoddau i gynorthwyo gwasanaethau i gyflawni arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol.

## 4.2 Gwariant Cyfalaf

Yn ogystal â gwario arian i ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, mae'r Cyngor hefyd yn gwario arian ar ddarparu cyfleusterau newydd neu wedi'u hadnewyddu megis ysgolion, seilwaith arfordirol a phriffyrdd. Cyfanswm y gwariant cyfalaf yn 2022/23 oedd £49.719m. Mae'r canlynol yn grynodedb o'r meysydd gwasanaeth a welodd fuddsoddiad cyfalaf yn 2022/23 a sut y cafodd ei ariannu. Y gyllideb gyfalaf oedd £58.582 miliwn, felly yr oedd tanwariant o £8.863 miliwn.

Gwariant Cyfalaf	2022/23 Gwirioneddol £'000
<b>Gwariant Cyfalaf yn ol Gwasanaeth:</b>	
Addysg	5,358
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	35,193
Economi a Diwylliant	1,262
Gwasanaethau Cymdeithasol	3,704
Gwasanaethau Hamdden	893
Technoleg Gwybodaeth	582
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai	1,160
Y Prif Weithredwr a Gwasanaethau Corfforaethol	1,503
Gwasanaethau Ariannol	64
<b>Cyfanswm Ariannu Cyfalaf</b>	<b>49,719</b>

Ariannu Cyfalaf	2022/23 Gwirioneddol £'000
<b>Drwy:</b>	
Benthyca a Chymorth	16,844
Benthyca Darbodus	10,759
Derbyniadau Cyfalaf	126
Grantiau Cyfalaf	21,456
Arian Cyfalaf Wrth Gefn	534
<b>Cyfanswm Ariannu Cyfalaf</b>	<b>49,719</b>

Ar gyfer gwariant cyfalaf a ariennir drwy fenthyca â chymorth, ariennir y costau drwy Grant Cynnal Refeniw, ac ar gyfer Benthyca Darbodus ariennir y costau gan y Gwasanaethau.

Dyma rai o'r prosiectau mawr a gynhaliwyd yn ystod 2022/23:-

- Gwelliannau yn y Ddarpariaeth Gofal Plant Cyfrwng Cymraeg a 30 Awr
- Datblygiadau Twristiaeth
- Buddsoddi mewn Isadeiledd Canolfannau Hamdden
- Gosod Polion Golau Stryd Newydd
- Buddsoddi mewn Isadeiledd Addysg
- Datblygu Ceginau Ysgol er mwyn Darparu Prydau Ysgol am Ddim
- Gosod Arwyneb Newydd a Gwella Rhwydwaith Ffyrdd y Sir
- Llwybrau Diogel yn y Gymuned a Rheoli Rhwydweithiau Traffig
- Cyllid Cyfalaf Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
- Cynnal a Chadw a Chryfhau Pontydd
- Darparu Addasiadau i Dai Sector Preifat
- Datblygu Canolfan Seibiant i Bobl Anabl Bron y Nant
- Gwelliannau i Dargedau Ailgylchu
- Gwaith Cyfalaf Amddiffyn Rhag Llifogydd a Lleihau'r Risg o Llifogydd
- Prosiectau Adeiladu Amddiffynfeydd Arfordirol
- Gwella a Chynnal a Chadw Mannau Chwarae
- Gwella Toiledau Cyhoeddus

Dyled y Cyngor sy'n weddill ar 31 Mawrth 2023 oedd £211.428m (£181.986m ar 31 Mawrth 2022), gan olygu cynnydd o £29.442m drwy fenthyca. Mae hyn yn sgil cynnydd i fenthyca byrdymor o £9.598m a cynnydd mewn benthyca hirdymor o £19.844m.

Roedd y Terfynau ar gyfer Gweithgarwch Benthyca yn 2022/23, a osodwyd yn unol â'r Fframwaith Darbodus ar gyfer Buddsoddiad Cyfalaf Awdurdod Lleol a gyflwynwyd drwy Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (y Cod Darbodus) fel a ganlyn:

	£'000
<b>Terfyn Awdurdodedig ar gyfer dyled allanol:</b>	
Benthyca	264,093
Dyledion Hirdymor eraill	44,316
	308,409
<b>Terfyn Gweithredol ar gyfer dyled allanol:</b>	
Benthyca	254,093
Dyledion Hirdymor Eraill	44,316
	298,409

## 5. Dyledion Pensiwn - Safon Cyfrifo Rhyngwladol 19 (IAS19)

Mae'r Cyfrifon a gyflwynwyd yn cydymffurfio â gofynion y safon uchod gan eu bod yn adlewyrchu cost darpariaeth pensiwn i weithwyr yn y flwyddyn bresennol yn y cyfrifon refeniw, fel y cynghorwyd gan actwari'r Cyngor. Mae'r Datganiadau hefyd yn cynnwys, o fewn y Fantolen, asesiad yr actwari o gyfran yr Awdurdod o ddyled y Gronfa Bensiwn ar 31 Mawrth 2023, a'r gronfa wrth gefn sydd ei hangen i dalu am y ddyled honno. Efallai bydd y pandemig a'r marchnadoedd byd-eang yn effeithio ar rwymedigaethau pensiwn tu hwnt i 31 Mawrth, 2023.

Yr ased Cronfa Bensiwn a ddatgelir ar y Fantolen o £55.589m (dyled Cronfa Bensiwn o £164.383m yn 2021/22) yw cyfanswm y gwaged/diffyg amcanol sy'n bodoli dros gyfnod oes y gronfa. Bydd y gwaged/diffyg hwn yn newid o flwyddyn i

flwyddyn yn dibynnu ar berfformiad buddsoddiadau a'r rhagdybiaethau actiwaraidd a wneir o ran pensiynwyr presennol, pensiynwyr gohiriedig a gweithwyr presennol.

Mae'r gronfa yn destun prisiad bob tair blynedd sy'n asesu cyflwr y gronfa pensiwn ar y pryd, ac yn gwneud argymhellion i'r cyrff derbyniedig amrywiol o ran y gyfradd briodol o gyfraniadau'r cyflogwr sydd eu hangen er mwyn adfer y gronfa i sefyllfa gytbwys dros gyfnod o amser.

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun statudol ac, o'r herwydd, dim ond trwy ddeddfwriaeth y gellir newid y buddion sy'n cronni o dan y cynllun.

# DATGANIAD O GyFRIFOLDEBAU Y DATGANIAD CYFRIFON

## CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD


Y mae'n ofynnol bod y Cyngor yn:

- Trefnu bod ei faterion ariannol yn cael eu gweinyddu'n gywir, a sicrhau bod gan un o'i swyddogion gyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yng Nghyngor Bwrdeistref Siroel Conwy, y swyddog hwnnw yw'r Cyfarwyddwr Strategol – Cyllid ac Adnoddau a **Swyddog Adran 151**.
- Rheoli ei fusnes mewn modd sy'n sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau.
- Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon. Mae'r Cyngor yn dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn i'r Pwyllgor Archwilio.

### TYSTYSGRIF YR AWDURDOD

Rwy'n cymeradwyo Datganiad Cyfrifon Cyngor Bwrdeistref Siroel Conwy ar 31 Mawrth 2023.

LLOFNOD:



Ian Whyte – Aelod Lleyg  
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

DYDDIEDIG: 20 Mai 2024

## **CYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG ADRAN 151**

Fel y Prif Swyddog Cyllid, mae'r Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor yn unol ag arferion priodol sydd, yn ôl gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gadw Cyfrifon Llywodraeth Leol ym Mhrydain ("Y Cod 2022/23"), yn gorfod cyflwyno barn gywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor ar y dyddiad cyfrifyddu, ac o incwm a gwariant y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon hwn, mae'r Cyfarwyddwr Strategol – Arian ac Adnoddau a Swyddog Adran 151 wedi:

- dewis polisiau addas ar gyfer cadw cyfrifon ac wedi'u defnyddio mewn modd cyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhai rhesymol a gofalus;
- cydymffurfio â'r Cod;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir sydd yn gyfoes;
- cymryd camau rhesymol i rwystro a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

### **TYSTYSGRIF SWYDDOG ADRAN 151**

Tystiaf fod y Datganiad Cyfrifon yn rhoi barn cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 31 Mawrth 2023, a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

LLOFNODWYD:



A Hughes  
Cyfarwyddwr Strategol – Cyllid ac Adnoddau  
Swyddog Adran 151

DYDDIEDIG: 20 Mai 2024

# **ADRODDIAD YR ARCHWILIWR**

## **Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

### ***Barn ar ddatganiadau ariannol***

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnwys y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Datganiad Symud mewn Wrth Gefn, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifo sylweddol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso wrth baratoi yn gyfraith berthnasol ac mae'r DU wedi mabwysiadu safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglir a'u haddasu gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023.

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol, y datganiadau ariannol:

- rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 31 Mawrth 2023 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifeg rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglir a'u haddasu gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023.

### ***Sail barn***

Cynhaliâs fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio adran datganiadau ariannol fy adroddiad.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y Cyngor a'r grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'm barn.

### ***Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol***

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail gyfredol o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyngor i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

### ***Gwybodaeth arall***

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu fel arall mae'n ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau materol o'r fath neu gamddatganiadau materol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf i, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd am y ffaith honno. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

### ***Barn ar faterion eraill***

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'n unol â'r canllawiau.

### ***Materion yr wyf yn adrodd amdanynt drwy eithriad***

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y Cyngor a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, yr wyf yn eu hadrodd i chi, os, yn fy marn i:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid yw cofnodion cyfrifeg digonol wedi'u cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelwyd â hwy gan fy nhim; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

### ***Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol***

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad Cyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am:

- paratoi'r datganiad cyfrifon sy'n rhoi barn wir a theg ac yn cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- Mae rheolaethau mewnol fel y mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn penderfynu arnynt yn angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiadau cyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad; a
- asesu gallu'r Cyngor i barhau fel mater o drefn, datgelu fel y bo'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail barhaus cyfrifyddu oni bai bod y

swyddog ariannol cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

### **Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn. Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor sy'n ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth neu honedig; a
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll wrth bostio cyfnodolion anarferol.
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod y Cyngor yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Cyngor.
- Cael dealltwriaeth o berthnasaoedd parti cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datganiadau ariannol a phroffion i ddogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi cynghorwyr rheoli a chyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a posibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthdroi rheolaeth rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau a nodwyd yn berthnasol a risgiau posibl i dwyll i bob aelod o'r tîm archwilio a pharhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.



Mae'r graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn cael ei effeithio gan yr anhawster cynhenid wrth ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau'r Cyngor, a natur, amseriad a maint y gweithdrefnau archwilio a gyflawnir. Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

### ***Cyfrifoldebau archwilydd eraill***

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol ymhlith materion eraill, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

### ***Tystysgrif cwblhau'r archwiliad***

Rwy'n ardystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon enw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton  
Archwilydd Cyffredinol Cymru  
21 Mai 2024

1 Cwr y Ddinas  
Stryd Tyndall  
Caerdydd, CF10 4BZ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg yw'r fersiwn hwn. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

## **DATGANIAD CYFRIFON 2022/23**

### **DATGANIAD O EGWYDDORION A PHOLISI'AU CYFRIFO**

#### **1. EGWYDDORION CYFFREDINOL**

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 a'i sefyllfa diwedd blwyddyn o 31 Mawrth 2023. Mae gofyn i'r Awdurdod baratoi Datganiad Cyfrifon Blynyddol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018, y mae'r Rheoliadau hynny'n gofyn iddynt gael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifo priodol. Mae'r arferion hyn yn cynnwys Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23 (y Cod) yn bennaf, a gefnogir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Y confensiwn cyfrifo pennaf a fabwysiadwyd yn y Datganiad Cyfrifon yw cost hanesyddol, wedi ei diwygio trwy ailbriso rhai categorïau penodol o asedau nad ydynt yn gyfredol, ac offerynnau cyllidol. Mae'r Datganiad Cyfrifon wedi cael ei baratoi ar sail 'busnes gweithredol'.

#### **2. CRYNHOI INCWM A GWARIANT**

Rhoddir cyfrif am weithgaredd yn y flwyddyn pryd y digwyddodd, nid yn unig pryd y gwneir neu pryd y derbynnir taliadau arian parod. Yn arbennig:-

- Caiff refeniw o gontractau gyda rheini sy'n derbyn gwasanaeth, boed am wasanaethau neu ddarparu nwyddau, ei gydnabod pan neu wrth i'r nwyddau neu wasanaethau gael eu trosglwyddo i'r rheini sy'n derbyn gwasanaeth yn unol â rhwymedigaethau perfformiad yn y contract.
- Mae cyflenwadau'n cael eu cofnodi fel gwariant pan gânt eu defnyddio – pan fo bwlch rhwng dyddiad derbyn cyflenwadau a'u defnyddio, cânt eu cludo fel rhestrau eiddo ar y Fantolen.
- Mae treuliau yng nghyswllt gwasanaethau a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaethau a ddarparwyd gan weithwyr) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fo'r gwasanaethau'n cael eu derbyn yn hytrach na phan fo taliadau'n cael eu gwneud.
- Mae'r llog a dderbynnir ar fuddsoddiadau ac sy'n cael ei dalu ar fenthyciadau'n cael ei gyfrifo fel incwm a gwariant yn seiliedig ar gyfradd y llog mewn grym i'r offeryn cyllidol perthnasol yn hytrach nag fel llif arian parod sy'n cael ei bennu neu ei sefydlu dan y contract.
- Pan fo incwm a gwariant wedi'i gydnabod ond dim arian parod wedi'i dalu na'i dderbyn, mae dyled neu gredyd i'r swm perthnasol yn cael ei gofnodi ar y Fantolen. Pan fo dyledion heb eu setlo mae balans y ddyled yn cael ei nodi a chodir ar refeniw am yr incwm na chaiff, o bosib, ei gasglu.

- O bryd i'w gilydd, pan fo taliadau yn destun anghydfod a/neu phan nad yw'r symiau dan sylw yn hysbys, caiff y taliad ei wneud yn y cyfrifon yn y flwyddyn y caiff yr anghydfod ei setlo ac nid o reidrwydd y flwyddyn sy'n berthnasol i'r taliad.
- Hefyd, o bryd i'w gilydd, caiff anfoneb ei thrin ar sail arian parod yn y cyfrifon i sicrhau bod y nifer cywir o daliadau yn ymddangos yn y cyfrifon mewn blwyddyn ariannol.
- Mae de minimis o £1,000 ar gael ar gyfer trafodion refeniw a £5,000 ar gyfer trafodion cyfalaf.

### 3. **ARIAN PAROD A CHYFWERTH ARIAN**

Mae arian parod yn golygu arian mewn llaw ac adneuon gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb ar rybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae cywerthydd arian yn fuddsoddiadau sy'n aeddfedu mewn tri mis neu lai o ddyddiad eu caffael ac y gellir eu trosglwyddo'n rhwydd i symiau gwybyddus o arian heb risg sylweddol o newid mewn gwerth.

Yn y Datganiad Llif Arian, dangosir arian parod a chyfwerth arian yn net o orddrafftiau banc sy'n daladwy ar ofyniad ac sy'n ffurfio rhan integrol o reolaeth arian yr Awdurdod.

### 4. **EITEMAU MATEROL**

Pan fo eitemau incwm a gwariant yn faterol, datgelir eu natur a'u maint ar wahân, un ai ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y Nodiadau i'r Cyfrifon, gan ddibynnu ar ba mor arwyddocaol yw'r eitemau i bwrpas deall perfformiad ariannol yr Awdurdod.

### 5. **ADDASIADAU CYN CYFNOD, NEWIDIADAU MEWN POLISIÂU CYFRIFO AC AMCANGYFRIFON A CHAMGYMERIADAU**

Gall addasiadau cyn cyfnod ddeillio o newid mewn polisiâu cyfrifo neu i gywiro camgymeriad perthnasol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifo yn rhagolygol, hy eleni ac ym mlynnyddoedd y dyfodol y ceir effaith arnynt gan y newid ac nid ydynt yn achosi addasiad cyfnod blaenorol.

Dim ond pan fo'n ofynnol gan arferion cyfrifo cywir y gwneir newidiadau mewn polisiâu cyfrifo neu pan fo'r newid yn rhoi gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol ynghylch effeithiau trafodion, digwyddiadau eraill a'r amodau ar sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol yr Awdurdod. Pan wneir newid, caiff ei ddefnyddio'n ôl-weithredol (oni bai y nodir fel arall) trwy addasu'r balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel petai'r polisi newydd wedi ei ddefnyddio erioed.

Mae camgymeriadau a ganfyddir mewn ffigyrau cyn cyfnod yn cael eu cywiro'n ôl weithredol trwy addasu'r balansau agor a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

## 6. TALIADAU I REFENIW AM ASED AU NAD YDYNT YN GYFREDOL

Rhoddir debyd yn erbyn gwasanaethau, gwasanaethau cefnogol a chyfrifon masnachu yn ôl y symiau a ganlyn i bwrpas cofnodi cost dal asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn:-

- Dibrisiant a briodolir i'r asedau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth perthnasol.
- Colledion ailbriso ac amhariad ar asedau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth lle nad oes enillion cronrus yn y Cyfrif Ailbriso Wrth Gefn y mae modd dileu'r colledion yn ei erbyn.
- Amorteiddio asedau sefydlog anniriaethol a briodolir i'r gwasanaeth.

Nid oes raid i'r Awdurdod godi'r dreth gyngor i bwrpas cyllido colledion dibrisiant, ailbriso neu amhariad na rhai amorteiddio. Fodd bynnag rhaid iddo wneud cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at y gostyngiad yn ei anghenion benthyca cyffredinol – cyfraniad sy'n cyfateb i swm a gyfrifir ar sail ddarbodus ac a bennir gan yr awdurdod yn unol â chyfarwyddiadau statudol. Felly yn lle colledion dibrisiant, ailbriso ac amhariad ac yn lle amorteiddiadau ceir cyfraniad i Falans Cronfa'r Cyngor – Isafswm Darpariaeth Refeniw (IDR) - trwy drafodyn diwygio i'r Cyfrif Diwygio Cyfalaf yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn ac yn cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng y ddau.

## 7. BUDDIANNAU'R GWEITHWYR

### Buddiannau Sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth

Y buddiannau tymor byr i'r gweithwyr yw'r rheiny sy'n cael eu talu cyn pen 12 mis i ddiwedd y flwyddyn - buddiannau megis cyflogau wythnosol a misol, gwyliau blynyddol gyda thâl, absenoldeb gwaeledd gyda thâl, taliadau bonws a buddiannau heblaw arian i'r gweithwyr presennol a'r rheiny'n cael eu cydnabod fel treuliau i'r gwasanaethau yn ystod y flwyddyn pryd y rhydd y gweithwyr wasanaeth i'r Awdurdod. Darperir ffigwr cronrus ar gyfer costau hawliadau gwyliau (neu unrhyw fath o absenoldeb, e.e. amser hyblyg) a enillwyd gan weithwyr a'r rheiny heb eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn a hawl ganddynt i'w trosglwyddo i'r flwyddyn ariannol ddilynol. Mae'r ffigwr gronrus yn seiliedig ar y cyfraddau perthnasol i gyflogau wythnosol a misol yn y flwyddyn gyfrifo ddilynol, sef pryd y bydd y cyflogai yn cymryd y budd. Codir y ffigwr gronrus yn erbyn yr Arian dros Ben neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond wedyn caiff ei wyrdroi trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn fel bod buddiannau gwyliau yn cael eu codi yn erbyn refeniw yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau'n digwydd ynddi.

### Buddiannau Terfynu

Buddiannau terfynu yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i ddod â chyflogaeth swyddog i ben cyn y dyddiad ymddeol cyffredin neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddo gwirfoddol a chodir y rhain ar sail groniadau pan fo'r Awdurdod yn amlwg wedi ymrwymo i derfynu cyflogaeth swyddog neu grŵp o swyddogion neu i wneud cynnig i annog diswyddo gwirfoddol.

Pan fo buddiannau terfynu'n golygu ategu pensiynau mae darpariaethau statudol yn mynnu ar godi o falans Cronfa'r Cyngor y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu i'r pensiynwr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifwyd yn ôl y

safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn, mae angen clustnodiadau i mewn ac allan o'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn i gael gwared â'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddiannau terfynu wrth ategu pensiynau ac yn eu lle ddarparu debydau am yr arian parod a dalwyd i'r gronfa pensiwn ac i'r pensiynwyr a'r cyfryw symiau'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

## **Buddiannau Ôl Gyflogaeth**

Mae gweithwyr yr Awdurdod yn aelodau o ddau gynllun pensiwn sydd ar wahân i'w gilydd:

- Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Bensiynau Athrawon Capita ar ran yr Adran Addysg (DfE)
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gyngor Gwynedd.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gyngor Sir y Fflint.

Mae'r cynlluniau'n darparu buddiannau diffiniedig i aelodau (lwmp swm ymddeol a pensiwn), a enillwyd tra oedd gweithwyr yn gweithio i'r Awdurdod.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau i gynllun yr athrawon yn golygu na all yr rhwymedigaethau i'r buddiannau hyn gael eu dynodi fel arfer yn benodol i'r Awdurdod. Felly cyfrifir am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniad diffiniedig ac ni chydabyddir unrhyw rwymedigaeth ar gyfer talu buddiannau i'r dyfodol yn y Fantolen. Codir am gyfraniadau y cyflogwr i Bensiynau Athrawon yn y flwyddyn i'r llinell Addysg yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

## **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Cedwir cyfrifon i'r Cynllun Llywodraeth Leol fel cynllun buddiannau diffiniedig:

- Mae'r rhwymedigaethau i Gynlluniau Pensiwn Gwynedd a Sir y Fflint a briodolir i'r Awdurdod yn cael eu cynnwys yn y Fantolen yn ôl dull actiwariol gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanedig - h.y. asesiad o'r taliadau a wneir yn y dyfodol yng nghyswllt buddiannau ymddeoliad a enillwyd hyd yma gan y gweithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau yng nghyswllt cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant y gweithwyr ayyb. a hefyd ar ragamcanion yng nghyswllt enillion y gweithwyr presennol.
- Rhoddir disgownt yn erbyn y rhwymedigaethau i lawr i'w gwerth yn ôl prisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 4.75% (2.0% 2021/22) (yn seiliedig ar raddfa dychweliad awgrymiadol ar fondiau corfforaethol o safon uchel (iBoxx)).
- Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd a briodolir i'r Cyngor wedi'u cynnwys yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg:-
  - Stociau a ddyfynnir - pris bid presennol
  - Stociau heb eu dyfynnu - amcangyfrif proffesiynol
  - Stociau uned - cyfartaledd cyfraddau'r bidiau a'r cynigion
  - Eiddo - gwerth ar y farchnad
- Mae'r newid yn y rhwymedigaethau pensiwn net yn cael ei ddadansoddi fesul saith rhan:-

- Costau gwasanaeth cyfredol - cynnydd yn y rhwymedigaethau oherwydd nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - wedi ei glustnodi i Ddatganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y gwasanaethau y mae'r gweithwyr yn gweithio iddynt.
- Costau gwasanaeth y gorffennol - y cynnydd yn y rhwymedigaethau oherwydd penderfyniadau a wnaed eleni ac effaith y rheiny yn ymwneud â nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd blaenorol - debyd i Arian Dros Ben neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r Costau ac Incwm Corfforaethol.
- Costau llog - y cynnydd disgwylidig yng ngwerth presennol y rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn wrth i'r rheiny symud blwyddyn yn nes i gael eu talu - debyd i'r llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddi a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Llog ar asedau Pensiwn – dyma'r llog ar asedau sy'n cael eu dal ar ddechrau'r flwyddyn a'r llif arian sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn, a gyfrifir gan ddefnyddio'r gyfradd ostyngol ar ddechrau'r flwyddyn.
- Enillion neu golledion ar setliadau a chwtogiadau - o ganlyniad i gamau a gymerir i ryddhau'r Awdurdod o rwymedigaethau neu ddigwyddiadau sy'n gostwng gwasanaeth disgwylidig y dyfodol neu'r buddiannau cronus i weithwyr – debyd neu gredyd i'r Arian dros Ben neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r Costau ac Incwm Corfforaethol.
- Ail-fesuriadau (asedau) – dyma'r adenillion ar asedau cynlluniau net o dreuliau gweinyddol ac incwm llog. Mae'n disodli elw a cholled actiwaraid ar asedau. Hefyd yn gynwysedig, mae costau o ganlyniad i adolygu clustnodi asedau ar brisiad i bob aelod staff.
- Ail-fesuriadau (rhwymedigaethau) – mae hyn yn gyfuniad o newidiadau mewn demograffig a thybiaethau ariannol a phrofi elw a cholled ar rwymedigaethau.
- Cyfraniadau a dalwyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd a Sir y Fflint - arian parod a dalwyd i mewn fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa pensiwn fel setliad o rwymedigaethau; heb ei gyfrif fel traul.

Yng nghyswllt buddiannau ymddeoliad, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i godi'r swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa pensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn ar falans Cronfa'r Cyngor, ac nid y swm a gyfrifwyd yn unol â'r safonau cyfrifeg cysylltiedig. Yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn, golyga hyn fod cyllid yn mynd i'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn ac o'r Gronfa, er mwyn dileu'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddiannau ymddeoliad a chael yn eu lle ddebydau ar gyfer yr arian parod a dalwyd i'r gronfa pensiwn neu bensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath a oedd yn daladwy ond na thalwyd cyn diwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sy'n codi o'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn felly'n mesur yr effaith fuddiol i Gronfa'r Cyngor o'r angen i roi cyfrif am fuddiannau ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na buddiannau a enillwyd gan weithwyr.

### **Buddiannau Dewisol**

Yn ogystal mae gan yr Awdurdod rai pwerau i dalu buddiannau ymddeoliad dewisol pan fo gweithwyr yn ymddeol yn gynnar. Mae unrhyw rwymedigaethau y tybir eu bod am godi yn sgil rhoi dyfarniad i unrhyw aelod o'r staff (gan gynnwys

athrawon) yn cronni yn ystod blwyddyn y penderfyniad a gwneir cyfrif amdanynt gan ddefnyddio'r un polisiau â'r rheiny a ddefnyddir yng nghyswllt Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## 8. DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, rhai ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan fo'r Datganiad Cyfrifon wedi ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Gellir dynodi dau fath o ddigwyddiad:

- Y rheiny sy'n rhoi tystiolaeth o'r amodau oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau.
- Y rheiny sy'n arwydd o amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau, ond pan fo categori o ddigwyddiadau yn cael effaith berthnasol, gwneir datgeliad yn y nodiadau ar natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol ddisgwyliedig.

Nid adlewyrchir digwyddiadau sy'n cymryd lle ar ôl dyddiad awdurdodi (2022/23) i gyhoeddi yn y Datganiad Cyfrifon.

## 9. OFFERYNNAU ARIANNOL

### Rhwymedigaethau Ariannol

Mae rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cydnabod ar y Fantolen pan mae'r Cyngor yn dod yn barti i'r darpariaethau offeryn ariannol dan gontract, ac maent yn cael eu mesur i gychwyn ar werth teg ac yn cael eu cario ar eu cost amorteiddio. Mae ffioedd blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y CI&ES ar gyfer llog taladwy sy'n seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi gan y gyfradd llog gwirioneddol ar gyfer yr offeryn. Y cyfradd llog gwirioneddol yw'r gyfradd sy'n rhoi gostyngiad union i daliadau arian parod yn y dyfodol dros oes yr offeryn, i'r swm y cafodd ei nodi'n wreiddiol.

Ar gyfer y rhan fwyaf o fenthyciadau sydd gan y Cyngor, mae hyn yn golygu mai'r swm a roddir yn y Fantolen yw'r prifswm ad-daladwy sydd heb ei gaslgu (a'r llog a gasglwyd); a llog a godir ar y CI&ES yw'r swm sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn honno, fel y pennir gan y cytundeb benthyciad.

Pan godir premïymau neu ostyngiadau ar y CI&ES mae rheoliadau yn caniatáu i'r effaith ar Gronfa'r Cyngor gael ei ledaenu dros y blynyddoedd i ddod. Mae gan y Cyngor bolisi o ledaenu'r enillion neu'r golled dros y tymor a oedd yn weddill ar y benthyciad yn erbyn y premiwm a oedd yn daladwy neu'r disgownt yn dderbyniadwy pan gafodd ei ad-dalu. Mae cysoni'r symiau a godwyd ar y CI&ES i'r ffi net sydd ei angen yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor yn cael ei reoli gan drosglwyddiad i neu o'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

## **Asedau Ariannol**

Mae asedau ariannol yn cael eu dosbarthu ar sail dosbarthiad a dull o fesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer cynnal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Mae tri prif ddsbarthiad o asedau ariannol, sy'n cael eu mesur ar:

- gostau amorteiddio
- gwerth teg drwy enillion neu golled (FVPL), neu
- gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall (FOVCI)

Mae model busnes y Cyngor yn dal buddsoddiadau i gasglu llif arian dan contract. Mae asedau ariannol felly'n cael eu dosbarthu fel costau amorteiddio, ac eithrio ar gyfer y sawl nid yw eu taliadau dan contract yn daliad o brifswm a llog (h.y. pan nad yw llif arian yn offeryn dyled sylfaenol).

## **Asedau Ariannol sy'n cael eu Mesur ar Gost Amorteiddio**

Mae rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cydnabod ar y Fantolen pan mae'r Cyngor yn dod yn barti i'r darpariaethau offeryn ariannol dan contract, ac maent yn cael eu mesur i gychwyn ar werth teg. Wedi hynny, maent yn cael eu mesur ar eu cost amorteiddio. Mae ffioedd blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y CI&ES ar gyfer llog taladwy sy'n seiliedig ar swm cario'r ased, wedi'i luosi gan y gyfradd llog gwirioneddol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer y rhan fwyaf o asedau ariannol sydd gan y Cyngor, mae hyn yn golygu mai'r swm a roddir yn y Fantolen yw'r prif swm derbyniadwy sy'n weddill (a'r llog a gasglwyd); a llog a roddir i'r CI&ES yw'r swm derbyniadwy ar gyfer y flwyddyn honno yn y cytundeb benthyciad.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi gwneud benthyciadau i gyrff a mudiadau gwirfoddol ar gyfraddau llai na'r farchnad (benthyciadau meddal). Pan gwneir benthyciadau meddal, mae colled yn cael ei gofnodi yn y CI&ES (nodi dyled i'r gwasanaeth perthnasol) ar gyfer gwerth presennol y llog a fydd yn rhagweladwy dros oes yr offeryn, gan arwain at gost amorteiddio is na'r prifswm heb ei gasglu. Mae llog yn cael ei roi ar linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y CI&ES a gyfradd llog gwirioneddol ychydig yn uwch na'r gyfradd derbyniadwy o'r cyrff a mudiadau gwirfoddol, gyda'r gwahaniaeth yn gwasanaethau cynnydd i gost amorteiddio'r benthyciad yn y Fantolen. Mae darpariaethau statudol yn gofyn mai effaith benthyciadau meddal ar Falans Cronfa'r Cyngor yw'r llog a dderbynnir ar gyfer y flwyddyn ariannol – mae cysoni'r symiau a dynnwyd o, a roddwyd i'r CI&ES i'r enillion net sy'n ofynnol yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor yn cael ei reoli gan drosglwyddiad o'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Bydd unrhyw enillion a cholled sy'n codi o ased yn colli cydnabyddiaeth yn cael ei roi neu ei dynnu o'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y CI&ES.

## **Model Colled Credyd Disgwyliedig**

Mae'r Cyngor yn cydnabod colledion credyd disgwyliedig ar ei asedau ariannol sy'n cael eu dal ar gost amorteiddio, bob deuddeg mis neu ar sail gydol oes. Mae'r model colled credyd disgwyliedig hefyd yn gymwys i dderbynion prydles ac asedau dan contract. Colledion gydol oes yn unig sy'n cael eu cydnabod am dderbyniadwyon masnachu (dyledwyr) gan y Cyngor. Mae colledion amhariad yn cael eu cyfrifo i adlewyrchu ar y disgwyliad efallai na fydd llif arian y dyfodol yn digwydd oherwydd gall y benthyciwr diffyg dalu ar ei rwymedigaethau. Mae risg



credyd yn chwarae rôl hanfodol wrth asesu colledion. Pan mae risg wedi cynyddu'n sylweddol ers cydnabod offeryn yn wreiddiol, mae colledion yn cael eu hasesu ar sail oes gyfan. Pan nad yw risg wedi cynyddu'n sylweddol neu mae'n parhau i fod yn isel, mae colledion yn cael eu hasesu ar sail disgwyliad o golledion deuddeg mis.

### **Asedau Ariannol ar Werth Teg drwy Enillion a Cholledion (FVPL)**

Mae asedau ariannol sy'n cael eu mesur ar FVPL yn cael eu cydnabod ar y Fantolen pan mae'r Cyngor yn dod yn barti i'r darpariaethau offeryn ariannol dan gontract, ac maent yn cael eu mesur i gychwyn ar werth teg. Mae enillion a cholledion gwerth teg yn cael eu cydnabod wrth iddynt gyrraedd yn yr Arian Dros Ben neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau.

Mae'r gwerth teg mesuriadau asedau ariannol yn seiliedig ar y technegau canlynol:

offerynnau gyda dyfynbris o brisiau'r farchnad - pris y farchnad  
offerynnau eraill gyda thaliadau penodol a therfynadwy - dadansoddiad o ostyngiad i lif arian

Mae mewnbynnau'r technegau mesur yn cael eu categorio yn unol â'r tair lefel ganlynol:

Mewnbynnau Lefel 1 – dyfynbrisiau (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau sy'n union yr un fath y gall y Cyngor gael mynediad atynt ar y dyddiad mesur.

Mewnbynnau Lefel 2 – mewnbynnau heblaw am y dyfynbrisiau a gynhwysir yn Lefel 1 sy'n weladwy ar gyfer yr ased, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Mewnbynnau Lefel 3 – mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased.

Bydd unrhyw enillion a cholled sy'n codi o ased yn colli cydnabyddiaeth yn cael ei roi neu ei dynnu o'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y CI&ES.

## **10. TROSI ARIAN TRAMOR**

Pan fo'r Awdurdod wedi gwneud trafodion mewn arian tramor, mae'r trafodyn yn cael ei drosi i sterling ar y raddfa gyfnewid sy'n berthnasol ar i ddiwrnod y gwnaethpwyd y trafodyn. Pan fo symiau mewn arian tramor dros ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, maent yn cael eu trosi i sterling.

## **11. GRANTIAU LLYWODRAETH A CHYFRANIADAU ERAILL**

P'un a ydynt yn cael eu talu i'r cyfrif, trwy randaliadau neu fel ôl-ddyledion, cydnabyddir grantiau llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti fel rhai sy'n ddyledus i'r Awdurdod pan fo sicrwydd rhesymol:

- Y bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm â'r taliadau, ac
- Y derbynnir y grantiau neu chyfraniadau.

Nid yw'r symiau a nodwyd fel rhai sy'n ddyledus i'r Cyngor yn cael eu rhoi mewn credyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd nes bydd yr amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu'r cyfraniad wedi eu bodloni. Mae'r amodau'n nodi bod rhaid i'r buddiannau economaidd yn y dyfodol neu i'r gwasanaeth posib sydd wedi'i ymgorffori yn yr ased a brynwyd gyda'r arian grant neu gyda'r chyfraniadau

gael eu defnyddio gan y derbynnydd fel y nodwyd, neu bydd raid dychwelyd i'r trosglwyddydd y buddiannau economaidd yn y dyfodol neu'r gwasanaeth posib.

Mae'r arian a roddwyd fel grantiau a chyfraniadau lle na chafodd yr amodau eu bodloni yn cael eu cludo ymlaen yn y Fantolen fel credydwyd. Pan fo'r amodau'n cael eu bodloni mae'r grant neu'r cyfraniad yn cael ei roddi mewn credyd yn y llinell gwasanaeth priodol (grantiau referiw a chyfraniadau a briodolwyd) neu Dreth ac Incwm Grant Amhenodol (grantiau referiw heb eu hamgáu a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo'r grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, maent yn cael eu gwyrddroi allan o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth gefn. Pan fo grant heb ei ddefnyddio eto i gyllido gwariant cyfalaf, mae'n cael ei bostio i'r Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn – y rhai na chafodd eu defnyddio. Pan fo wedi'i ddefnyddio mae'n cael ei bostio i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf. Mae'r symiau yn y Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn na chawsant eu defnyddio yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf unwaith y cânt eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf.

## 12. **ASEDAU ANNIRIAETHOL**

Mae gwariannau ar asedau nad ydynt yn rhai ariannol ac sydd heb ffurf ffisegol ond sy'n cael eu rheoli gan yr Awdurdod oherwydd digwyddiadau yn y gorffennol (e.e. trwyddedau meddalwedd) yn cael eu cyfalafu pan dybir y bydd buddiannau economaidd yn y dyfodol neu wasanaeth posib yn llifo o'r ased anniriaethol i'r Awdurdod.

Mae asedau a gynhyrchir yn fewnol yn cael eu cyfalafu pan fo modd dangos bod y prosiect yn dechnegol-ymarferol ac y bwriedir ei gwblhau (gydag adnoddau digonol ar gael) ac y bydd yr Awdurdod yn medru cynhyrchu buddiannau economaidd yn y dyfodol neu'n medru darparu gwasanaeth posib trwy werthu'r ased nei ei ddefnyddio. Mae gwariant yn cael ei gyfalafu pan fo modd ei fesur gyda sicrwydd fel un a briodolir i'r ased a phan fo'n cael ei gyfyngu i'r gwariant hwnnw a ddigwyddo yn ystod y cyfnod datblygu (nid oes modd cyfalafu gwariant ymchwil).

Nid yw gwariant ar ddatblygu gwefannau'n cael ei gyfalafu pan fo'r wefan yn cael ei defnyddio'n llwyr neu'n bennaf i hyrwyddo neu i hysbysebu nwyddau'r Awdurdod neu ei wasanaethau.

Ar y cychwyn cyntaf mesurir asedau anniriaethol yn ôl y gost. Nid yw'r symiau'n cael eu hailbrisiu hyd oni fydd modd pennu gwerth yr asedion y mae'r Awdurdod yn eu dal trwy droi at y farchnad weithredol. Yn ymarferol, nid oes yr un o'r asedau anniriaethol y mae'r Awdurdod yn eu dal yn bodloni'r maen prawf hwn ac felly cânt eu cludo yn ôl y gost amorteiddiedig. Mae swm dibrisiannol ased anniriaethol yn cael ei amorteiddio dros ei oes ddefnyddiol i linell(-au) y gwasanaeth perthnasol y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Rhoddir prawf amhariad ar ased pryd bynnag y ceir arwydd bod amhariad ar yr ased – mae unrhyw golledion a ganfyddir yn cael eu nodi yn erbyn y llinell(-au) i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Bydd unrhyw enillion neu golledion wrth gael gwared ag ased anniriaethol neu wrth roi'r gorau iddo yn cael ei drosglwyddo i'r Llinell Gwariant Gweithredol arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo gwariant ar asedau anniriaethol yn gymwys i'w ystyried fel gwariant cyfalaf i ddibenion statudol, amorteiddio, colledion amhariad neu wrth gael gwared â'r asedion ni chaniateir i enillion a cholledion gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Felly mae'r enillion a'r colledion yn cael eu gwyrddroi allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn a'u symud i'r Cyfrif Diwygio

Cyfalaf ac (yn achos arian gwerthiant uwch na £12,000) i'r Gronfa Wrth Gefn Derbynion Cyfalaf.

### 13. **RHESTRAU STOC A CHONTRACTAU TYMOR HIR**

Rhestrau eiddo yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar y gost isaf a'r gwerth net gwiredadwy yn seiliedig ar sail cost gyfartalog wedi'i bwysoli. Rhoddir cyfrif am gontractau tymor hir trwy godi ar yr Arian dros Ben neu ar y Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn seiliedig ar werth y gwaith neu'r gwasanaeth a dderbynnir dan y contract yn ystod y flwyddyn ariannol.

### 14. **EIDDO BUDDSODDIAD**

Eiddo buddsoddiad yw eiddo a ddefnyddir yn unswydd i ennill rhent a/neu ar gyfer cynnydd cyfalaf. Nid yw'r diffiniad yn cael ei fodloni os yw'r eiddo'n cael ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd i hwyluso darparu gwasanaethau neu i gynhyrchu nwyddau neu pan fo'n cael ei ddal i'w werthu.

Mae eiddo buddsoddiad yn cael ei fesur yn ôl cost yn y lle cyntaf ac wedyn yn ôl gwerth teg, gan ddibynnu am faint y gellid cyfnewid yr ased rhwng partïon gwybodus hyd braich. Nid yw eiddo'n cael ei ddibrisio, yn hytrach caiff ei ailbrisió'n flynyddol yn ôl amgylchiadau'r farchnad ar ddyddiad y Fantolen (diwedd y flwyddyn). Mae enillion a cholledion adeg ailbrisió'n cael eu symud i'r llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yr un driniaeth yn union a roddir i enillion a cholledion wrth gael gwared ohonynt.

Mae rhent a dderbynnir am eiddo buddsoddiad yn cael ei roi mewn credyd yn y llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad ac yn peri cynnydd ym Malans Cronfa'r Cyngor. Fodd bynnag, ni chaniateir i enillion a cholledion ailbrisió a gwerthu, dan drefniadau statudol, gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Felly mae'r enillion a'r colledion yn cael eu gwyrddroi allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn a'u symud i'r Cyfrif Diwygio Cyfalaf ac (yn achos arian gwerthiant uwch na £12,000) i'r Gronfa Wrth Gefn Derbynion Cyfalaf.

### 15. **GWEITHREDIADAU A REOLIR AR Y CYD AC ASED AU A REOLIR AR Y CYD**

Y gweithrediadau a reolir ar y cyd yw'r gwaith hwnnw a wna'r Awdurdod ynghyd â mentrau eraill pan fo defnydd yn cael ei wneud o asedion ac o adnoddau'r mentrwy'r yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Awdurdod yn cydnabod ar ei Fantolen yr asedau y mae'n eu rheoli a'r rhwymedigaethau a wyneba ac mae'n rhoi fel credyd neu ddebyd, yn ei Ddatganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y gwariant hwnnw'r â iddo a'r gyfran o incwm a enilla yn sgil y gwaith.

Asedau a reolir ar y cyd yw eitemau eiddo, offer a chyfarpar sydd yn cael eu cydreoli gan yr Awdurdod a mentrwy'r eraill a phan fo'r asedau'n cael eu defnyddio i sicrhau buddiannau i'r mentrwy'r. Nid yw'r gydfenter yn galw am sefydlu endid ar wahân. Mae'r Awdurdod yn cadw cyfrif am ei gyfran ei hun yn unig o'r asedau a reolir ar y cyd, am y rhwymedigaethau a'r treuliau'r â iddynt ar ei ran ei hun neu ar y cyd ag eraill yng nghyswllt ei fuddiannau yn y gydfenter a'r incwm a ddaw iddo o'r fenter.

## 16. **PRYDLESAU**

Mae prydlesau'n cael eu categoraiddio fel prydlesau ariannol pan fo telerau'r brydles yn trosglwyddo, i bob pwrpas, o'r prydleswr i'r prydlesai yr holl risgiau a'r holl fendithion sydd ynghlwm wrth fod yn berchennog yr eiddo, yr offer a'r cyfarpar. Categorioiddir yr holl brydlesau eraill fel Prydlesau Gweithredol.

Pan fo prydles yn cynnwys tir ac adeiladau, mae'r tir a'r adeiladau'n cael eu hystyried ar wahân i bwrpas categoraiddio.

Pan fo trefniadau heb statws cyfreithiol prydles, ond er hynny'n trosglwyddo hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am daliad, yna mae cyfrif amdanynt dan y polisi hwn pan fo cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio asedau penodol.

### **Yr Awdurdod fel Daliwr Prydles**

#### **Prydlesau Ariannol**

Mae eiddo, offer a chyfarpar sy'n cael eu dal dan brydlesau ariannol yn cael eu cydnabod ar y Fantolen ar gychwyn y brydles yn ôl gwerth teg a fesurir adeg sefydlu'r brydles (neu yn ôl gwerth presennol y taliadau prydles lleiaf bosib, pa un bynnag o'r ddau sydd isaf). Gyda'r ased a gydnabyddir mae cyfrifoldeb cyfatebol i dalu i'r prydlesydd a all fod yn uwch na'r gwerth ased a gydnabyddir. Mae costau uniongyrchol cychwynol yr Awdurdod yn cael eu hychwanegu at y swm y mae'r ased yn ei gludo. Defnyddir y taliadau a wneir adeg gwneud prydles i nodi'r rhwymedigaeth sydd ynghlwm wrth y brydles. Codir am rent dilynol fel treuliau yn y cyfnodau hynny pryd y digwyddant.

Rhennir y taliadau prydles rhwng:-

- Tâl am brynu budd yn yr eiddo, offer a chyfarpar - defnyddir hwn i nodi i lawr beth yw rhwymedigaeth y brydles, a
- Tâl ariannol (mewn debyd yn y llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Cedwir cyfrif am Eiddo, Offer a Chyfarpar a gydnabyddir dan brydlesau ariannol trwy ddefnyddio'r polisiâu hynny a ddefnyddir yn gyffredin yng nghyswllt asedau o'r fath, yn amodol ar godi am ddibrisiant dros gyfnod y brydles os ydyw'r cyfnod hwnnw'n fyrrach na'r amcangyfrif i oes ddefnyddiol yr ased (pan fo perchnogaeth yr ased ddim yn trosglwyddo i'r Awdurdod ar ddiwedd cyfnod y brydles).

Nid yw'n ofynnol ar i'r Awdurdod godi Treth Gyngor i gynnwys dibrisiant neu ailbrisiant a cholledion amhariad sy'n deillio o asedau a brydleswyd. Yn hytrach, gwneir cyfraniad blynyddol gochelgar o gronfeydd refeniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig yn unol â gofynion statudol. Felly mae cyfraniad refeniw ym Malans Cronfa'r Cyngor yn cymryd lle dibrisiant ac ailbriso a cholledion, trwy addasu trafodyn gyda'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

## **Prydlesau Gweithredol**

Mae rhenti a delir dan brydlesau gweithredol yn cael eu codi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel traul i'r gwasanaethau sy'n cael y budd o eiddo, offer a chyfarpar prydles. Codir y taliadau ar sail llinell-syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â'r patrwm taliadau (e.e. mae cyfnod di-rent ar gychwyn y brydles).

## **Yr Awdurdod fel Prydleswr**

### **Prydlesau Ariannol**

Pan fo'r Awdurdod yn rhoi prydles ariannol dros eiddo neu eitem o offer neu gyfarpar, dilëir yr ased perthnasol o'r Fantolen fel gwarediad. Ar gychwyn y brydles, mae swm cludadwy'r ased yn y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Offer a Chyfarpar neu Ased sy'n Cael ei Dal i'w Gwerthu) yn cael ei ddileu i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enilliad neu golled ar warediad. Mae enilliad, sy'n cynrychioli buddsoddiad net yr Awdurdod yn y brydles, yn cael ei gredydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enilliad neu golled ar warediad (h.y. ei ddebydu yn erbyn gwerth cludadwy'r ased adeg ei waredu), yn cydweddu gydag ased prydles (dyledwr tymor hir) yn y Fantolen.

Dyrennir prydlesau rhent rhwng:

- Taliad am gaffael y budd yn yr eiddo – defnyddir i ysgrifennu i lawr y dyledwr prydles (ynghyd ag unrhyw breimiwm a dderbyniwyd), ac
- Incwm ariannol (credydir i'r llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Ni chaniateir yn ôl statud i'r enilliad a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar warediad gynyddu Balans Cronfa'r Cyngor ac mae'n ofynnol iddo gael ei drin fel derbyniad cyfalaf. Pan fo premiwm wedi ei dderbyn, mae hwn yn cael ei bostio allan o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Gronfa Derbyniadwyon Cyfalaf Wrth Gefn yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn. Pan fo'r swm sy'n ddyledus yng nghyswllt yr ased prydles i'w setlo trwy dalu rhenti ym mlynnyddoedd ariannol y dyfodol, mae hwn yn cael ei bostio allan o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Gronfa Derbyniadwyon Cyfalaf Wrth Gefn Gohiriedig yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn. Pan dderbynnir rhenti yn y dyfodol, defnyddir yr elfen derbyniad cyfalaf ar gyfer gwaredu'r ased i ysgrifennu i lawr y dyledwr prydles. Ar y pwynt hwn, mae'r derbyniadwyon cyfalaf gohiriedig yn cael eu trosglwyddo i'r Gronfa Derbyniadwyon Cyfalaf Wrth Gefn.

Nid yw gwerth a ddilëir o warediadau'n cael ei godi ar y dreth gyngor, gan y darperir yn llawn ar gyfer cost asedau sefydlog dan drefniadau ar wahân ar gyfer cyllido cyfalaf. Felly mae'r symiau hyn yn cael eu priodoli i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn.

### **Prydlesau Gweithredol**

Pan fo'r Awdurdod yn rhoi prydles weithredol dros eiddo neu eitem o eiddo neu gyfarpar, cedwir yr ased yn y Fantolen. Mae Incwm Rhent yn cael ei gredydu i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Gwneir credydau ar sail llinell-syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â'r patrwm taliadau (e.e. telir premiwm ar gychwyn y brydles). Mae

costau uniongyrchol cychwynnol yr eir iddynt wrth negodi a threfnu prydles yn cael eu hychwanegu at swm cludadwy'r ased perthnasol a'u codi fel traul dros oes y bydles ar yr un sail ag incwm rhent.

## 17. **EIDDO, OFFER A CHYFARPAR**

Dosberthir asedau sydd â sylwedd ffisegol ac sy'n cael eu dal i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu i bwrpasau gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol fel Eiddo, Offer a Chyfarpar. Nid oes de minimis ar wariant cyfalaf.

### **Cydnabyddiaeth**

Mae gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cael ei gyfalafu ar sail gronnus, cyn belled â'i fod yn bosib y bydd y buddiannau economaidd y dyfodol neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â nhw'n llifo i'r Awdurdod ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Mae gwariant sy'n cynnal ond nad yw'n ychwanegu at botensial ased i gyflenwi buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol (h.y. trwsio a chynnal a chadw) yn cael ei godi fel traul fel y mae'n digwydd

### **Mesur**

Caiff asedau eu mesur yn y lle cyntaf ar gost, yn cynnwys:-

- Y pris prynu
- Unrhyw gostau a briodolir i ddod ag ased i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol i bwrpas ei weithredu yn y dull a fwriadwyd gan reolwyr
- Amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle y mae'r eitem arno.

Nid yw'r Awdurdod yn cyfalafu costau benthyca a geir tra bo asedau'n cael eu hadeiladu.

Tybir bod cost asedau a gaffaelir heblaw drwy bryniant yn gost gwerth teg, ac eithrio pan nad oes sylwedd masnachol i'r caffaeliad (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian yr Awdurdod). Yn yr achos olaf, pan y caffaelir ased drwy gyfnewid, cost y caffaeliad yw swm cario'r ased a roddir i fyny gan yr Awdurdod.

Yna caiff asedau eu cario yn y fantolen gan ddefnyddio'r sail mesuriadau canlynol:

- Isadeiledd ac asedau cymunedol – cost dibrisiant hanesyddol
- Asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol
- Pob ased gweithredol arall - gwerth teg, a bennir fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol - EUV).
- Eiddo buddsoddiad – gwerth y farchnad a heb ei ddibrisio.
- Asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu – gwerth isaf cyn cael eu dosbarthu fel rhai'n cael eu dal i'w gwerthu a gwerth y farchnad, a heb eu dibrisio.

- Asedau Treftadaeth – gwerth y farchnad a heb eu dibrisio.

Pan nad oes tystiolaeth seiliedig ar y farchnad o werth teg oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir cost amnewidiol dibrisiedig (DRC) fel amcangyfrif o werth teg.

Pan fo gan asedau nad ydynt yn eiddo oes ddefnyddiol fer neu werth isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol dibrisiedig fel procsi ar gyfer gwerth teg.

Mae'r asedau a gynhwysir yn y Fantolen ar werth teg yn cael eu hailbriso yn ddigon aml i sicrhau nad yw eu swm cario'n sylweddol wahanol i'w gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn, ond o leiaf bob pum mlynedd. Mae cynnydd mewn ailbriso'n cydweddu â chredydau i'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i gydnabod enillion heb eu gwireddu. Yn eithriadol, gellir credydu enillion i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fônt yn codi o wyrddroad colled a godwyd yn flaenorol i wasanaeth.

Pan ddynodir lleihad mewn gwerth, cyfrifir amdano fel a ganlyn:

- Pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion cronnus)
- Pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn neu falans annigonol, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbrisiant a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, dyddiad eu gweithredu'n ffurfiol. Mae'r enillion a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi eu hymgorffori yn y Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

### **Amhariad**

Mae gwerth asedau'n cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn am arwydd o amhariad ar werth. Pan fo arwyddion, ac amcangyfrifir bod gwahaniaethau posib yn berthnasol, yna amcangyfrifir swm adferadwy'r ased a, ble bo hwn yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled amhariad ar gyfer y diffyg.

Pan ddynodir colledion amhariad, cyfrifir amdanynt fel a ganlyn:

- Pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion cronnus).
- Pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn neu falans annigonol, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo colled amhariad yn cael ei gwyrddroi'n dilyn hyn, credydir y gwyrddroad i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, i fyny at swm y golled wreiddiol, wedi ei addasu ar gyfer dibrisiant y byddid wedi ei godi pe na fyddai'r golled wedi ei chydnabod.

### **Dibrisiant**

Darperir ar gyfer dibrisiant yr holl asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar trwy ddyraniad systematig o'u symiau dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau heb oes ddefnyddiol benodadwy gyfyngedig (h.y. tir rhydd-ddaliad a rhai Asedau Cymunedol penodol) ac asedau nad ydynt eto ar gael i'w defnyddio (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu).

Cyfrifir dibrisiant ar y seiliau canlynol o gyfnod oes defnyddiol sy'n weddill:-

- Anheddau ac adeiladau eraill – dyraniad llinell syth dros oes ddefnyddiol yr eiddo fel yr amcangyfrifir gan y prisiwr: rhwng 1-98 blwyddyn
- Cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar: dros oes ddefnyddiol rhwng 1 i 22 mlynedd
- Asedau Cymunedol: 1-22 blwyddyn
- Isadeiledd: dyraniad llinell syth rhwng 1-57 mlynedd.

Pan fo gan eitem o ased Eiddo, Offer a Chyfarpar gydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn cysylltiad â chost gyfan yr eitem, ac mae ei oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yn sylweddol wahanol i oes ddefnyddiol y brif ased, dibrisir y cydrannau ar wahân.

Mae lefel perthnasedd dibrisio o £2.5 miliwn o werth yr ased wedi cael ei nodi, ac ni fydd eitemau eiddo, offer na chyfarpar yn cael eu hystyried ar gyfer cydrannu; bydd cydrannau sylweddol yn cael eu hystyried fel rhai y mae eu gwerth presennol yn 20% neu fwy o gyfanswm gwerth presennol yr ased, a'i gategoreiddio yn seiliedig ar arwyddocâd, oes defnyddiol a dull dibrisio.

Mae tir yn cael ei nodi fel cydran ar wahân yn ei rhinwedd ei hun.

Mae enillion ailbrisant hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng gwerth presennol dibrisiant a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi ei godi ar eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisant Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

### **Gwarediadau ac Asedau nad ydynt yn Gyfredol yn Cael eu Dal ar Gyfer Gwerthu**

Pan ddaw'n bosib y bydd swm cario ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na pharhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu fel Ased sy'n Cael eu Dal i'w Werthu. Mae'r ased yn cael ei hailbriso yn union cyn ei hailddosbarthu ac yna ei chario ar yr isaf o'r swm hwn a gwerth teg llai costau gwerthu. Pan fo gostyngiad dilynol i werth teg llai costau gwerthu, mae'r golled yn cael ei phostio i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dim ond hyd at swm unrhyw golledion a gydnabuwyd yn flaenorol yn yr Arian dros Ben neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau y cydnabyddir enillion mewn gwerth teg. Ni chodir dibrisiant ar Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Werthu.

Os nad yw asedau bellach yn cwrdd â'r meini prawf i'w dosbarthu fel Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Werthu, yna cânt eu hailddosbarthu'n ôl i asedau nad ydynt yn gyfredol a'u prisio ar yr isaf o'u swm cario cyn iddynt gael eu dosbarthu fel rhai'n cael eu dal i'w gwerthu (addasu ar gyfer dibrisiant, amorteiddiad neu ailbrisiadau a fyddai wedi cael eu cydnabod petaent ddim wedi cael eu dosbarthu fel rhai sy'n Cael eu Dal i'w Werthu) a'u swm adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio gwerthu.

Nid yw asedau sydd wedi eu gadael neu eu sgrapio yn cael eu hailddosbarthu fel Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Werthu.

Pan ceir gwared ag ased neu pan gaiff ei datgomisiynu, dilëir swm cario'r ased yn y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Offer a Chyfarpar neu Asedau sy'n Cael eu Dal i'w



Gwerthu) i linell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enilliad neu golled ar waredu. Mae symiau a dderbynnir o warediadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enilliad neu golled ar waredu (h.y. wedi ei netio i ffwrdd yn erbyn gwerth cario'r ased adeg cael gwared arno). Mae unrhyw enillion ailbrisiant a gronnwyd i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Mae symiau uwch na £12,000 a dderbynnir ar gyfer eitem a waredwyd yn cael eu categoreiddio fel Derbyniadwyon Cyfalaf. Mae'n ofynnol ar i'r derbyniadwyon cyfalaf gael eu credydu i'r Gronfa Derbyniadwyon Cyfalaf Wrth Gefn, ac yna dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd y cânt eu defnyddio neu eu gosod o'r neilltu i leihau angen gwaelodol yr Awdurdod i fenthyca (y gofyniad cyllido cyfalaf). Mae derbyniadwyon yn cael eu meddiannu i'r Gronfa Wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Nid yw gwerth a ddilëir o warediadau'n cael ei godi yn erbyn y Dreth Gyngor, oherwydd darperir yn llawn ar gyfer asedau sefydlog dan drefniadau gwahanol ar gyfer ariannu cyfalaf. Mae symiau'n cael eu meddiannu i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Caiff asedau cyfarpar sydd wedi dibrisio'n llawn eu dileu dwy flynedd yn ddiweddarach.

## 18. **MENTRAU CYLLID PREIFAT (PFI) A CHONTRACTAU TEBYG**

Cytundeb yw contract PFI i dderbyn gwasanaeth, lle mae'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod yr Eiddo, Offer a Chyfarpar ar gael sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth yn trosglwyddo i'r contractwr PFI. Gan mai'r dybiaeth yw bod y Cyngor yn rheoli'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu dan ei gynllun PFI ac y bydd perchenogaeth yr Eiddo, Offer a Chyfarpar yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd y contract, heb ddim cost ychwanegol, mae'r Cyngor yn dal yr asedau sefydlog a ddefnyddiwyd dan y contract ar y Fantolen.

Yn cydbwysu cydnabyddiaeth wreiddiol yr Eiddo, Offer a Chyfarpar hyn, mae cydnabyddiaeth ynghylch rhwymedigaeth am symiau dyledus i weithredwr y cynllun i dalu am yr asedau. I'r Cynllun PFI Tair Ysgol, ysgrifennwyd yr rhwymedigaeth i lawr gan daliad cychwynnol ymlaen llaw o dal unedol o £9m.

Caiff Eiddo, Offer a Chyfarpar sy'n cael eu cydnabod ar y Fantolen eu hadbriso a'u dibrisio yn yr un modd ag Eiddo, Offer a Chyfarpar ym meddiant y Cyngor.

Caiff y symiau taladwy i'r gweithredwr PFI bob blwyddyn eu dadansoddi i bum elfen:-

- Gwerth teg y gwasanaethau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn – wedi'i debydu i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Costau cyllid - codi llog ar y rhwymedigaeth Mantolen sydd dros ben, wedi ei ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Rhent dibynnol – cynnydd yn y swm i'w dalu am yr eiddo sy'n codi yn ystod y contract, wedi'i ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

- Taliad tuag at y rhwymedigaeth – wedi'i gymhwyso i ddibrisio dyled y Fantolen tuag i'r gweithredwr PFI.
- Costau adnewyddu cylchred oes – yn cael eu cydnabod fel Eiddo, Offer a Chyfarpar ar y Fantolen.

## 19. **DARPARIAETHAU, RHWYMEDIGAETHAU DIBYNNOL AC ASED AU DIBYNNOL**

### **Darpariaethau**

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i'r Awdurdod, sydd mae'n debyg angen setliad trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth, a phan fo modd darparu amcangyfrif dibynadwy o faint y rhwymedigaeth.

Codir darpariaethau fel traul ar y llinell gwasanaeth briodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r awdurdod yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a cânt eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y Fantolen o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth, gan gymryd i ystyriaeth y risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Pan fo taliadau'n cael eu cyflwyno yn y diwedd, rhoddir nhw yn erbyn y ddarpariaeth a gludir yn y Fantolen. Mae setliadau amcangyfrifedig yn cael eu hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol – pryd y bydd hi'n llai na thebygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd (neu wneud setliad llai na'r disgwyl), gwyrddo'r y ddarpariaeth a'i rhoddi mewn credyd yn ôl yn y gwasanaeth perthnasol.

Pan fo disgwyl hawlio cyfran neu'r cyfan o'r taliad i setlo'r ddarpariaeth oddi ar barti arall (ee oddi ar hawliad yswiriant), caiff ei gydnabod fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol os oes sicrwydd go bendant yn unig y bydd ad-daliad ar gael os yw'r awdurdod yn setlo'r rhwymedigaeth.

### **Rhwymedigaethau Dibynnol**

Mae rhwymedigaeth dibynnol yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth bosib i'r Awdurdod, ond ni cheir cadarnhad iddi hyd oni fydd y digwyddiad nad oes modd ei ragweld wedi digwydd yn y dyfodol a hwynnw heb fod yn gyfan gwbl dan reolaeth yr awdurdod. Mae rhwymedigaethau dibynnol hefyd yn codi mewn amgylchiadau ble byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nid yw'n debygol a bydd angen all-lif o adnoddau neu ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Ni chydabyddir rhwymedigaethau dibynnol yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

### **Asedau Dibynnol**

Mae ased dibynnol yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi ased bosib i'r Awdurdod, ond ni fydd modd cael cadarnhad iddo hyd oni fydd y digwyddiad nad oes modd ei ragweld wedi digwydd yn y dyfodol a hwynnw heb fod yn gyfan gwbl dan reolaeth yr awdurdod.

Ni chydabyddir asedau dibynnol yn y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon ble mae'n debygol y bydd mewnlif o fuddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth.

## 20. **CRONFEYDD WRTH GEFN**

Mae'r Awdurdod yn gosod o'r neilltu symiau penodol fel cronfeydd wrth gefn i ddi-benion polisi i'r dyfodol neu i ymdrin â risgiau a materion wrth gefn. Crëir cronfeydd wrth gefn trwy dynnu symiau o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn. Pan ceir traul sydd i'w gyllido o gronfa wrth gefn, caiff ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno yn erbyn yr Arian dros Ben neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yna trosglwyddir y gronfa wrth gefn yn ôl i Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn fel nad oes effaith arian parod net ar gyllido'r gyllideb refeniw.

Cedwir rhai cronfeydd wrth gefn penodol er mwyn rheoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau nad ydynt yn gyfredol, offerynnau ariannol, buddiannau ymddeoliad a buddiannau gweithwyr ac nid ydynt yn cynrychioli adnoddau y gellir eu defnyddio i'r Awdurdod – eglurir y cronfeydd wrth gefn hyn yn y nodiadau perthnasol.

## 21. **GWARIANT REFENIW A GYLLIDIR GYDA CHYFALAF DAN STATUD**

Mae gwariant yr aethpwyd iddo yn ystod y flwyddyn y gellir ei gyfalafu dan ddarpariaethau statudol ond yn wariant nad yw'n creu ased anghyfredol wedi ei godi fel gwariant i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Pan fo'r Awdurdod wedi penderfynu cwrdd â chost y gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu trwy fenthycu, mae trosglwyddiad yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yna'n gwyrddroi'r symiau a godwyd fel nad oes effaith ar lefel y Dreth Gyngor. Ymysg enghreifftiau o wariant REFCUS mae grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl, grantiau i fusnesau a chynlluniau gwella eiddo preifat.

## 22. **TAW**

Mae'r TAW sy'n daladwy yn cael ei gynnwys fel traul ond i'r graddau nad oes modd ei hawlio oddi ar Gyllid a Thollau EM yn unig. Mae'r TAW derbyniadwy yn cael ei eithrio o incwm.

## 23. **FFIGYRAU CYMHAROL**

Ble bo'n briodol, dangosir y ffigyrau cymharol mewn datganiadau ariannol, yn unol â'r Cod.

## 24. **DATGANIAD LLIF ARIAN**

Mae'r Datganiad Llif Arian a nodiadau ategol wedi'u paratoi gan ddefnyddio'r dull anuniongyrchol.

## 25. **ASEDAU TREFTADAETH**

Mae ased treftadaeth ddiriaethol yn ased diriaethol sydd â nodweddion hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol, sy'n cael ei dal a'i chynnal yn bennaf er mwyn ei chyfraniad at wybodaeth a diwylliant.

Mae ased treftadaeth anniriaethol yn ased anniriaethol sydd ag arwyddocâd diwylliannol, amgylcheddol neu hanesyddol. Mae enghreifftiau o asedau treftadaeth anniriaethol yn cynnwys recordiad o ddiwyddiadau hanesyddol o bwys.

Fel arfer bydd asedau treftadaeth (heblaw am asedau treftadaeth gweithredol) yn cael eu mesur adeg eu prisiad. Gellir prasio yn ôl unrhyw ddull sy'n briodol a pherthnasol. Nid oes gofynion i brisio gael ei gynnal na'i wirio gan briswyr allanol, na chwaith isafswm cyfnod rhwng prisiadau. Fodd bynnag, pan fo asedau treftadaeth yn cael eu mesur ar eu prisiad, bydd y swm sy'n cario'n cael ei adolygu yn ddigon aml i sicrhau fod y prisiad yn parhau'n gyfredol.

Ble nad yw'n ymarferol cael prisiad ar gost sy'n gymesur â'r buddiannau i ddefnyddwyr datganiadau ariannol, bydd yr asedau treftadaeth yn cael eu mesur ar gost hanesyddol (llai unrhyw golledion dibrisiant, amorteiddiad ac amhariad cronus).

## 26. **ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW (IDR)**

Mae'r polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer 2022/23 fel a ganlyn:

Asedau Hawl i Ddefnyddio – mae'r taliad am IDR yr un fath â'r elfen o'r taliad rhent sy'n mynd i nodi'r atebolrwydd ar y Fantolen, ac eithrio ar gyfer asedau hawl i ddefnyddio hir oes.

Defnyddir Dull Oes Asedau fel sail i gyfrifo IDR ar gyfer pob ased arall (yn cynnwys Asedau Cynllun Ariannu Preifat ac Asedau Hawl i Ddefnyddio Hir Oes).

## Dadansoddiad o'r Gwariant a'r Cyllid

Nod y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid yw dangos i dalwyr treth y Cyngor sut y defnyddiwyd y cyllid a oedd ar gael i'r Cyngor (h.y. grantiau llywodraeth a threth y Cyngor) eleni i ddarparu gwasanaethau o gymharu â'r adnoddau a ddefnyddiwyd neu a enillwyd yn unol ag arferion cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'r Dadansoddiad Cyllid a Gwariant hefyd yn dangos sut y dyrennir y gwariant at ddibenion gwneud penderfyniadau rhwng gwasanaethau'r Cyngor. Mae incwm a gwariant a gyfrifir o dan arferion cyfrifo cyffredinol yn cael eu cyflwyno'n llawn yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

2022/23	Fel yr adroddwyd ar gyfer rheoli adnoddau £'000	Addasiadau i'w gwneud ar gyfer symudiadau i/o Gronfeydd wrth Gefn £'000	Gwariant net sy'n daladwy i falans Cronfa'r Cyngor £'000	Addasiadau rhwng y sail chyfrifeg a'r sail ariannu (Gweler Nodyn 5) £'000	Gwariant net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £'000
Addysg	94,944	(18)	94,926	11,840	106,766
Gwasanaethau Cymdeithasol	79,089	417	79,506	6,545	86,051
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	20,402	(301)	20,101	13,289	33,390
Economi a Diwylliant	6,850	192	7,042	8,102	15,144
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai	9,623	(2,148)	7,475	1,440	8,915
Gwasanaethau Ariannol Corfforaethol	1,802	(54)	1,748	443	2,191
Archwilio a Chaffael	608	(56)	552	117	669
Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau	12,537	485	13,022	(10,484)	2,538
Y Gyfraith a Llywodraethu	2,186	71	2,257	545	2,802
Technoleg Gwybodaeth	2,447	(44)	2,403	1,022	3,425
Adran y Prif Weithredwr	543	0	543	107	650
Pobl a Pherfformiad	1,509	0	1,509	387	1,896
Costau ac Incwm Corfforaethol	6,679	3,371	10,050	(903)	9,147
<b>Cost Net Gwasanaeth</b>	<b>239,219</b>	<b>1,915</b>	<b>241,134</b>	<b>32,450</b>	<b>273,584</b>
Incwm a Gwariant Arall	(239,876)	(3,249)	(243,125)	(6,523)	(249,648)
<b>(Arian dros Ben) neu Ddiffyg</b>	<b>(657)</b>	<b>(1,334)</b>	<b>(1,991)</b>	<b>25,927</b>	<b>23,936</b>
Balans agoriadol y Gronfa Gyffredinol ar 31 Mawrth 2022			(48,138)		
Llai (Arian dros Ben)/Diffyg ar Falans y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn			(1,991)		
Llai o Symudiadau Eraill, heb eu cynnwys uchod, yn ymwneud â Chronfeydd Cyfalaf wrth Gefn, Cronfeydd Derbyniadau Cyfalaf wrth Gefn a Grantiau Cyfalaf heb eu Defnyddio (gweler Nodyn 7 am ddadansoddiad).			851		
<b>Balans terfynol y Gronfa Gyffredinol ar 31 Mawrth 2023</b>			<b>(49,278)</b>		

2021/22	Fel yr adroddwyd ar gyfer rheoli adnoddau	Addasiadau i'w gwneud ar gyfer symudiadau i/o Gronfeydd wrth Gefn	Gwariant net sy'n daladwy i falans Cronfa'r Cyngor	Addasiadau rhwng y sail chyfrifeg a'r sail ariannu (Gweler Nodyn 5)	Gwariant net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Addysg	89,142	(5,252)	83,890	12,168	96,058
Gwasanaethau Cymdeithasol	69,467	(3,457)	66,010	6,981	72,991
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	19,157	(164)	18,993	12,656	31,649
Economi a Diwylliant	6,279	(1,178)	5,101	6,488	11,589
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai	6,155	(226)	5,929	1,574	7,503
Gwasanaethau Ariannol Corfforaethol	1,303	(110)	1,193	497	1,690
Archwilio a Chaffael	556	(6)	550	140	690
Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau	12,204	(1,160)	11,044	(10,368)	676
Y Gyfraith a Llywodraethu	1,929	(36)	1,893	628	2,521
Technoleg Gwybodaeth	2,284	313	2,597	807	3,404
Adran y Prif Weithredwr*	553	(14)	539	135	674
Pobl a Pherfformiad*	1,591	(49)	1,542	451	1,993
Costau ac Incwm Corfforaethol	12,003	(2,563)	9,440	(981)	8,459
<b>Cost Net Gwasanaeth</b>	<b>222,623</b>	<b>(13,902)</b>	<b>208,721</b>	<b>31,176</b>	<b>239,897</b>
Incwm a Gwariant Arall	(223,223)	(717)	(223,940)	(20,787)	(244,727)
<b>(Arian dros Ben) neu Ddiffyg</b>	<b>(600)</b>	<b>(14,619)</b>	<b>(15,219)</b>	<b>10,389</b>	<b>(4,830)</b>

Balans agoriadol y Gronfa Gyffredinol ar 31 Mawrth 2021	(30,450)
Llai (Arian dros Ben)/Diffyg ar Falans y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn	(15,219)
Llai o Symudiadau Eraill, heb eu cynnwys uchod, yn ymwneud â Chronfeydd Cyfalaf wrth Gefn, Cronfeydd Derbyniadau Cyfalaf wrth Gefn a Grantiau Cyfalaf heb eu Defnyddio (gweler Nodyn 7 am ddadansoddiad).	(2,469)
<b>Balans terfynol y Gronfa Gyffredinol ar 31 Mawrth 2022</b>	<b>(48,138)</b>

\*Yn ystod 2022/23, crëwyd gwasanaeth newydd, Pobl a Pherfformiad, drwy gyfuno Adnoddau Dynol Corfforaethol a Gwella a Datblygu Corfforaethol (a arferai fod yn Adran y Prif Weithredwr). Mae'r ffigyrau cymharol ar gyfer 2021/22 felly wedi'u haildatgan.

## Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

2021/22				2022/23			
Gwariant Gros	Incwm	Gwariant Net		Nodyn	Gwariant Gros	Incwm	Gwariant Net
£'000	£'000	£'000			£'000	£'000	£'000
132,638	(36,580)	96,058	Addysg		143,762	(36,996)	106,766
109,068	(36,077)	72,991	Gwasanaethau Cymdeithasol		116,430	(30,379)	86,051
48,854	(17,205)	31,649	Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau		50,014	(16,624)	33,390
23,060	(11,471)	11,589	Economi a Diwylliant		28,656	(13,512)	15,144
20,713	(13,210)	7,503	Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai		21,719	(12,804)	8,915
2,282	(592)	1,690	Gwasanaethau Ariannol Corfforaethol		2,381	(190)	2,191
707	(17)	690	Archwilio a Chaffael		688	(19)	669
30,296	(29,620)	676	Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau		29,941	(27,403)	2,538
3,683	(1,162)	2,521	Y Gyfraith a Llywodraethu		3,964	(1,162)	2,802
3,476	(72)	3,404	Technoleg Gwybodaeth		3,477	(52)	3,425
678	(4)	674	Adran y Prif Weithredwr*		653	(3)	650
2,094	(101)	1,993	Pobl a Pherfformiad*		2,029	(133)	1,896
11,117	(2,658)	8,459	Costau ac Incwm Corfforaethol		10,829	(1,682)	9,147
<b>388,666</b>	<b>(148,769)</b>	<b>239,897</b>	<b>Cost Gwasanaethau</b>		<b>414,543</b>	<b>(140,959)</b>	<b>273,584</b>
23,962		23,962	Gwariant Gweithredol Arall	<b>7</b>	24,419		24,419
27,345	(15,446)	11,899	Incwm a Gwariant Buddsoddi ac Ariannu	<b>8</b>	33,571	(22,210)	11,361
	(280,588)	(280,588)	Trethiant Lleol ac Incwm Grant Amhenodol	<b>9</b>		(285,428)	(285,428)
		<b>(4,830)</b>	<b>(Arian dros Ben) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau</b>				<b>23,936</b>
		(7,525)	(Arian dros ben) neu ddiffyg ar ailbrizio eiddo, peiriannau ac offer	<b>18</b>			(23,752)
		(295)	(Arian dros ben) neu ddiffyg ar ailbrizio asedau ariannol ar gael i'w gwerthu				60
		<b>(7,820)</b>					<b>(23,692)</b>
		(117,196)	Ail-fesur rhwymedigaeth budd-dal net a ddiffiniwyd	<b>18</b>			(245,269)
		<b>(125,016)</b>	<b>Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall</b>				<b>(268,961)</b>
		<b>(129,846)</b>	<b>Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>				<b>(245,025)</b>

\*Yn ystod 2022/23, crëwyd gwasanaeth newydd, Pobl a Pherfformiad, drwy gyfuno Adnoddau Dynol Corfforaethol a Gwella a Datblygu Corfforaethol (a arferai fod yn Adran y Prif Weithredwr). Mae'r ffigyrau cymharol ar gyfer 2021/22 felly wedi'u haildatgan.

**Datganiad Symudiadau Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023**

	Nodiadau	Balans Cronfa'r Cyngor £'000	Cronfa wrth Gefn wedi'i chlustnodi £'000	Cronfa Wrth Gefn Cyfalaf wedi'i chlustnodi £'000	Cronfa Wrth Gefn Derbynebion Cyfalaf £'000	Grantiau Cyfalaf Nas Defnyddiwyd £'000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir ei Ddefnyddio £'000	Cronfa Wrth Gefn na Ellir ei Ddefnyddio £'000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £'000
<b>Balans ar 31 Mawrth 2022</b>	<b>11,18</b>	<b>3,509</b>	<b>34,835</b>	<b>2,880</b>	<b>2,499</b>	<b>4,415</b>	<b>48,138</b>	<b>150,853</b>	<b>198,991</b>
<b>Symudiad yn y datganiad y Cronfeydd wrth gefn yn ystod 2022/23</b>									
(Arian dros ben) neu ddiffyg arian wrth Ddarparu Gwasanaethau		(23,936)	-	-	-	-	(23,936)	-	(23,936)
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall		-	-	-	-	-	-	268,961	268,961
<b>Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>		<b>(23,936)</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>(23,936)</b>	<b>268,961</b>	<b>245,025</b>
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan reoliadau	10	25,928	-	(534)	1,996	(2,313)	25,077	(25,077)	-
<b>Cynydd/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddo i'r/o'r Cronfa wrth Gefn Penodol</b>		<b>1,992</b>	<b>-</b>	<b>(534)</b>	<b>1,996</b>	<b>(2,313)</b>	<b>1,141</b>	<b>243,884</b>	<b>245,025</b>
Trosglwyddo i'r/o'r cronfa wrth gefn penodol	11	(1,333)	(3,328)	4,661	-	-	-	-	-
<b>Cynydd/Gostyngiad yn 2022/23</b>	<b>11</b>	<b>659</b>	<b>(3,328)</b>	<b>4,127</b>	<b>1,996</b>	<b>(2,313)</b>	<b>1,141</b>	<b>243,884</b>	<b>245,025</b>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2023</b>	<b>11,18</b>	<b>4,168</b>	<b>31,507</b>	<b>7,007</b>	<b>4,495</b>	<b>2,102</b>	<b>49,279</b>	<b>394,737</b>	<b>444,016</b>



**Datganiad Symudiadau Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022**

	Nodiadau	Balans Cronfa'r Cyngor £'000	Cronfa wrth Gefn wedi'i chlustnodi £'000	Cronfa Wrth Gefn Cyfalaf wedi'i chlustnodi £'000	Cronfa Wrth Gefn Derbynebion Cyfalaf £'000	Grantiau Cyfalaf Nas Defnyddiwyd £'000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir ei Ddefnyddio £'000	Cronfa Wrth Gefn na Eillir ei Ddefnyddio £'000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £'000
<b>Balans ar 31 Mawrth 2021</b>	<b>11,18</b>	<b>2,910</b>	<b>22,074</b>	<b>1,217</b>	<b>1,132</b>	<b>3,117</b>	<b>30,450</b>	<b>38,694</b>	<b>69,144</b>
<b>Symudiad yn y datganiad y Cronfeydd wrth gefn yn ystod 2021/22</b>									
(Arian dros ben) neu ddiffyg arian wrth Ddarparu Gwasanaethau		4,830	-	-	-	-	4,830	-	4,830
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall		-	-	-	-	-	-	125,017	125,017
<b>Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>		<b>4,830</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>4,830</b>	<b>125,017</b>	<b>129,847</b>
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan reoliadau	10	10,388	-	(195)	1,367	1,298	12,858	(12,858)	-
<b>Cynydd/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddo i'r/o'r Cronfa wrth Gefn Penodol</b>		<b>15,218</b>	<b>-</b>	<b>(195)</b>	<b>1,367</b>	<b>1,298</b>	<b>17,688</b>	<b>112,159</b>	<b>129,847</b>
Trosglwyddo i'r/o'r cronfa wrth gefn penodol	11	(14,619)	12,761	1,858	-	-	-	-	-
<b>Cynydd/Gostyngiad yn 2021/22</b>	<b>11</b>	<b>599</b>	<b>12,761</b>	<b>1,663</b>	<b>1,367</b>	<b>1,298</b>	<b>17,688</b>	<b>112,159</b>	<b>129,847</b>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2022</b>	<b>11,18</b>	<b>3,509</b>	<b>34,835</b>	<b>2,880</b>	<b>2,499</b>	<b>4,415</b>	<b>48,138</b>	<b>150,853</b>	<b>198,991</b>

## Y Fantolen

		<b>31 Mawrth 2023</b>	<b>31 Mawrth 2022</b>
	<b>Nodiadau</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Eiddo, Offer a Chyfarpar	12	568,846	523,440
Asedau Treftadaeth		194	194
Eiddo Buddsoddiad	13	17,000	16,359
Asedau anniriaethol		224	342
Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu	14	2,167	2,227
Ased Pensiwn	34	55,589	-
Dyledwyr Tymor Hir	14	5,668	5,400
<b>Asedau Tymor Hir</b>		<b>649,688</b>	<b>547,962</b>
Buddsoddiadau Tymor Byr	14	222	8,193
Rhestrau Stoc		973	995
Dyledwyr Tymor Byr	15	63,998	61,550
Arian a chyfwerth arian	16	36,847	23,365
Asedau a ddelir i'w gwerthu		1,727	1,012
<b>Asedau Cyfredol</b>		<b>103,767</b>	<b>95,115</b>
Benthyca Tymor Byr	14	75,162	65,564
Credydwyr Tymor Byr	17	49,515	46,719
Darpariaethau		1,620	1,765
<b>Rhwymedigaethau Cyfredol</b>		<b>126,297</b>	<b>114,048</b>
Rhwymedigaethau Pensiwn	34	-	164,383
Benthyca Tymor Hir	14	136,266	116,422
Benthyca Tymor Hir Eraill	14	43,991	46,688
Derbynebion Grantiau Cyfalaf ymlaen llaw		2,885	2,544
<b>Rhwymedigaethau Tymor Hir</b>		<b>183,142</b>	<b>330,037</b>
<b>Asedau Net</b>		<b>444,016</b>	<b>198,992</b>
Cronfeydd wrth Gefn y gellir ei ddefnyddio		49,278	48,138
Cronfeydd Wrth Gefn na ellir ei ddefnyddio	18	394,738	150,854
<b>Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn</b>		<b>444,016</b>	<b>198,992</b>

**Datganiad ynglŷn â Llif arian**

<b>2021/22</b>		<b>Nodiadau</b>	<b>2022/23</b>
<b>£'000</b>			<b>£'000</b>
(4,830)	(Arian dros ben)/diffyg arian wrth Ddarparu Gwasanaethau		23,936
(59,785)	Addasiadau i (arian dros ben) neu ddiffyg arian net wrth Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer Symudiadau di-ariannol	19	(44,822)
33,554	Addasiadau ar gyfer eitemau sy'n cael eu cynnwys yn yr (arian dros ben) neu ddiffyg arian net wrth Ddarparu Gwasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi ac Ariannu	20	19,407
(31,061)	Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredol		(1,479)
11,084	Gweithgareddau Buddsoddi	21	13,440
5,205	Gweithgareddau Ariannu	22	(25,443)
(14,772)	(Cynnydd) neu Ostyngiad mewn Arian a chyfwerth arian		(13,482)
<b>8,594</b>	<b>Arian a chyfwerth arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd</b>	<b>16</b>	<b>23,366</b>
<b>23,366</b>	<b>Arian a chyfwerth arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd</b>	<b>16</b>	<b>36,848</b>

## **Nodiadau i'r Cyfrifon**

### **1. Safonau Cyfrifo a Gyhoeddwyd ond Nad Ydynt Eto Wedi'u Mabwysiadu**

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig yn ei gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag effaith ddisgwyliedig newid mewn cadw cyfrifon a fydd yn ofynnol gan safon newydd sydd wedi'i chyflwyno ond heb ei mabwysiadu eto gan god 2022/23.

Ar ddyddiad y fantolen, mae'r safonau newydd a'r diwygiadau a ganlyn i safonau presennol wedi cael eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gan God Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig:

- Prydlesau SAARh 16 (ond dim ond y rhai ar gyfer yr awdurdodau lleol sydd wedi penderfynu mabwysiadu SAARh 16 ym mlwyddyn 2023/24).
- Diffiniad Amcangyfrifon Cadw Cyfrifon (Diwygiadau i SCRh 8) a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2021.
- Datgan Polisiâu Cadw Cyfrifon (Diwygiadau i SCRh 1 a Datganiad Ymarfer SAARh 2) a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2021.
- Treth Ohiriedig mewn perthynas ag Asedau a Rhwymedigaethau sy'n codi o un taliad (Diwygiadau i SCRh 12) a gyflwynwyd ym mis Mai 2021.
- Diweddarau Cyfeiriad at y Fframwaith Cysyniadol (Diwygiadau i SAARh 3) a gyflwynwyd ym mis Mai 2020.

Nid oes disgwyl i'r newidiadau hyn gael effaith sylweddol ar y Cyngor.
Mae'r Gronfa Bensiynau Wrth Gefn yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer cyfrifo i fuddiannau ôl gyflogaeth a chyllido buddiannau yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Awdurdod yn rhoi cyfrif am fuddiannau ôl gyflogaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel bo'r buddiannau'n cael eu hennill gan weithwyr sy'n cronni blynyddoedd o wasanaeth, diweddarau'r rhwymedigaethau a gydnabyddir i adlewyrchu chwyddiant, newid rhagdybiaethau a dychweliadau buddsoddi ar unrhyw adnoddau a osodir o'r neilltu i gwrdd â chostau. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i fuddiannau a enillir gael eu cyllido fel y bo'r Awdurdod yn gwneud cyfraniadau cyflogwr i'r cronfeydd pensiwn neu yn y diwedd yn talu unrhyw bensiynau y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Felly mae'r balans dyled ar y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn yn dangos diffyg sylweddol yn y buddiannau a enillwyd gan weithwyr y gorffennol a'r presennol a'r adnoddau mae'r Awdurdod wedi eu rhoi o'r neilltu i gwrdd â nhw. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd ariannu wedi ei roi o'r neilltu erbyn yr amser y daw'r buddiannau'n ddyledus i'w talu.

2021/22 £'000	Cronfa Bensiynau Wrth Gefn	2022/23 £'000
<b>(253,546)</b>	<b>Balans ar 1 Ebrill</b>	<b>(164,383)</b>
117,196	Enillion neu (golledion) actiwaraidd ar asedau a rhwymedigaethau pensiynau	279,751
(43,779)	Gwyrddroad eitemau yn ymwneud â buddiannau ymddeoliad wedi'u debydu neu gredydu i'r Arian dros Ben neu Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(42,154)
15,746	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr sy'n daladwy yn y flwyddyn	16,857
0	Addasiad Nenfwd Asedau	(34,482)
<b>(164,383)</b>	<b>Balans ar 31 Mawrth</b>	<b>55,589</b>

Mae'r ffigyrau uchod ar gyfer 2022/23 yn cynnwys ffigwr yn ymwneud â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, tra bod Nodyn 34 yn adlewyrchu Cynlluniau Pensiwn Gwynedd a Chlwyd yn unig.

## Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig

Mae'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig yn dal yr enillion cydnabyddedig sy'n deillio o werthu asedau anghyfredol, nad oes taliad ariannol wedi ei wneud amdanynt eto. Yn unol â threfniadau statudol, nid yw'r Awdurdod yn trin yr enillion hyn fel rhai y gellir eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf newydd hyd nes y derbynnir yr arian amdanynt. Unwaith mae'r setliad ariannol yn digwydd, mae'r symiau yn cael eu trosglwyddo i'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf.



<b>2021/22 £'000</b>	<b>Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig</b>	<b>2022/23 £'000</b>
<b>1,594</b>	<b>Balans ar 1 Ebrill</b>	<b>1,483</b>
(61)	Trosglwyddo enillion gwerthiant gohiriedig a gredydir fel rhan o'r enilliad/colled ar waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(35) (60)
(50)	Trosglwyddo i'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf ar dderbyn arian parod	(53)
<b>1,483</b>	<b>Balans ar 31 Mawrth</b>	<b>1,335</b>

Mae ffigur 1,483 ar gyfer 2021/22 uchod wedi'i ddiwygio oherwydd ei fod wedi'i nodi'n anghywir fel (1,483) yn natganiad cyfrifon 2021/22.

**19. Datganiad Llif Arian – Addasiadau i'r gweddill neu'r diffyg net ar ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer symudiadau anariannol**

<b>2021/22 £'000</b>		<b>2022/23 £'000</b>
(20,990)	Dibrisiad Asedau Anghyfredol	(22,762)
(142)	Amorteiddiad Asedau Sefydlog Anniriaethol	(132)
(28,033)	Addasiadau i'r Gronfa Bensiwn	(25,297)
(467)	Cynnydd/ gostyngiad yn yr amhariad ar gyfer darpariaeth dyledion	(63)
(976)	Cyfraniadau tuag ar Ddarpariaethau	145
(720)	Swm cario Eiddo, Offer a Chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anghyfyrdadwy a werthwyd	(976)
(518)	Amhariad ac ailbrisiadau	(1,159)
(6,213)	Symudiad anariannol arall	2,412
(37)	Cynnydd/ (Gostyngiad) mewn Rhestrau Eiddo	(22)
7,785	Cynnydd/ (Gostyngiad) mewn Dyledwyr	8,031
(9,474)	(Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyr	(4,999)
<b>(59,785)</b>	<b>Symudiadau anariannol net</b>	<b>(44,822)</b>

Mae'r llif arian ar gyfer Gweithgareddau Gweithredol yn cynnwys yr eitemau canlynol:

<b>2021/22 £'000</b>		<b>2022/23 £'000</b>
(112)	Llog a dderbyniwyd	(489)
7,791	Llog a dalwyd	7,867

**20. Datganiad Llif Arian - Addasiadau ar gyfer eitemau sydd wedi eu cynnwys yn y swm net (arian dros ben) neu'r diffyg ar ddarparu gwasanaethau sy'n buddsoddi ac yn ariannu gweithgareddau**

<b>2021/22 £'000</b>		<b>2022/23 £'000</b>
1,346	Elw o werthu asedau anghyfredol	2,122
32,159	Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gredydwyd i incwm a gwariant	17,456
49	Gwariant Refeniw a Ariennir o Gyfalaf Trwy Statud	(171)
-	Rhwymedigaeth prydles ariannol	-
<b>33,554</b>	<b>Llif arian net o weithgareddau buddsoddi</b>	<b>19,407</b>

**21. Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Buddsoddi**

<b>2021/22 £'000</b>		<b>2022/23 £'000</b>
40,574	Prynu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddiad ac asedau anniriaethol	50,912
363,818	Pryniant buddsoddiadau tymor byr a thymor hir	517,557
(1,346)	Derbyniadau o werthiant Eiddo, Offer a Chyfarpar, eiddo buddsoddiad ac asedau anniriaethol	(2,122)
(363,812)	Derbyniadau o fuddsoddiadau tymor byr a thymor hir	(525,528)
(363,812)	Derbyniadau eraill o weithgareddau buddsoddi	(27,379)
<b>(11,084)</b>	<b>Llif arian net o weithgareddau buddsoddi</b>	<b>13,440</b>

**22. Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Ariannu**

<b>2021/22 £'000</b>		<b>2022/23 £'000</b>
(104,886)	Derbyniadau arian o fenthyca tymor-byr a thymor-hir	(39,500)
-	Derbyniadau eraill o weithgareddau buddsoddi	-
2,443	Taliadau arian ar gyfer lleihau'r rhwymedigaethau dros ben sy'n ymwneud â phrydlesau cyllid a chontractau PFI ar y fantolen	2,632
104,420	Ad-dalu benthyciadau tymor-byr a thymor-hir	10,712
3,228	Taliadau eraill am weithgareddau buddsoddi	713
<b>5,205</b>	<b>Llif arian net o weithgareddau buddsoddi</b>	<b>(25,443)</b>

## 23. Gwasanaethau Asiantaeth

Mae'r Cyngor wedi llunio cytundeb lle bydd yn cyflawni tasgau ar ran sefydliadau eraill ac yn adennill y costau'n llawn. Mae un cytundeb yn ymwneud â Gwaith Cynnal a Gwella Cefnffyrdd ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae'r chwe chyngor yng Ngogledd Cymru yn gweithredu fel asiantwyr Llywodraeth Cymru gan ddarparu benthyciadau ailgylchadwy dan y Cynllun Troi Tai yn Gartrefi.

Bu'r gwariant ar y gweithgareddau hyn fel a ganlyn:

	2022/23 £'000	2021/22 £'000
Cefnffyrdd	5,075	5,891
Benthyciadau Gwella Cartref	-	-
Troi Tai'n Gartrefi (Haen 1)	-	174
Troi Tai'n Gartrefi (Haen 2)	50	35
<b>Cyfanswm</b>	<b>5,125</b>	<b>6,100</b>

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi pecyn o fesurau i gynorthwyo pobl gyda'r argyfwng costau byw. Mae'r pecyn yn cynnwys £5.646m i ddarparu £150 o daliadau costau byw i gartrefi cymwys (y prif gynllun) a £1.154m i ddarparu taliadau cymorth dewisol ar gyfer pwrpasau eraill sy'n ymwneud â chostau byw. Bwriad y cynlluniau yw i roi cymorth uniongyrchol tra mae Cymru yn adfer o'r pandemig ac i gynorthwyo cartrefi i ymdrin ag effaith cynnydd mewn costau egni a chostau eraill.

Oherwydd effaith pandemig COVID-19 ar yr angen am wasanaethau a chefnogaeth ychwanegol ar gyfer unigolion a busnesau, sicrhodd Llywodraeth Cymru fod nifer fawr o grantiau newydd a chefnogaeth ariannol ar gael. Mae'r Cyngor wedi gweinyddu nifer o'r grantiau a ganlyn yn ystod y flwyddyn ar ran Llywodraeth Cymru:

	Grantiau Busnes £'000	Cymorth Tanwydd Gaeaf £'000	Cynlluniau Gweithwyr Gofal Cymdeithasol £'000	Taliadau Hunanynysu £'000	Taliad Chwyddo Tâl Salwch Statudol £'000	Cynllun Costau Byw £'000	Taliadau Nawdd Wcraïn £'000	Taliadau Croeso Wcraïn £'000
Gweddill dyledus (gan)/i Llywodraeth Cymru ar 1 Ebrill	-	3,050	515	122	217	37	-	-
Taliadau a wnaed gan y Cyngor	12	2,653	4,250	353	193	5,646	144	58
Grantiau a (dderbyniwyd)/dychwelyd (gan)/i Llywodraeth Cymru	3,038	2,754	-	627	230	5,646	87	51
Gweddill dyledus (gan)/i Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth	-	414	4,128	57	-	-	57	7

Grantiau Busnes – Grantiau i fusnesau yn ystod y cyfnod clo cyntaf, y cyfnod clo lleol (cyfnod atal byr) a gwahanol gyfyngiadau.

Cynlluniau i Weithwyr Gofal Cymdeithasol – Taliad bonws ar gyfer gweithwyr gofal unigol

Adenillwyd y canlynol gan LIC trwy grant Cronfa Galedi Covid:

Cymorth Tanwydd Gaeaf - Taliadau i aelwydydd ym Mandiau A i D.

Ychwanegiad Tâl Salwch Statudol - ychwanegiad hyd at gyflog llawn pan nad yw gweithwyr ond yn derbyn tâl salwch statudol pan maent yn sâl o'r gwaith oherwydd Covid neu'n gorfod hunan-ynysu fel mesur i reoli haint.

Taliadau Hunan-ynysu – £500 i unigolion cymwys sy'n gorfod hunan-ynysu.

Taliadau Nawdd Wcráin - gwnaethpwyd taliadau i unigolion a oedd yn lletya teuluoedd o Wcráin dan y Cynllun Cartrefi i Ffoaduriaid o Wcráin.

Taliadau Croeso Wcráin - gwnaethpwyd taliadau i unigolion o Wcráin dan y Cynllun Cartrefi i Ffoaduriaid o Wcráin.

## 24. Cyllideb Gyfun

### Cyllidebau Cyfun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

O dan reoliad 19(1) o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, cytunwyd ar drefniant cyllideb gyfun rhwng awdurdodau lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o ran darparu llety mewn cartref gofal i bobl hŷn. Daeth y trefniant i rym ar 1<sup>af</sup> Ebrill 2019. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gweithredu fel awdurdod cynnal yn ystod tymor cyntaf y cytundeb. Mae'r taliadau ar gyfer CBS Conwy yn unig wedi eu cynnwys yn llinell Gwasanaethau Cymdeithasol y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r incwm a'r gwariant ar gyfer trefniadau'r gyllideb gyfun yn y flwyddyn yn diweddu 31<sup>ain</sup> Mawrth 2023 fel a ganlyn; mae cyfraniadau Ch4 wedi eu cynnwys er gwybodaeth yn unig ac nid ydynt wedi dod o gyfrifon pob partner. Yn ôl y Trefniadau Partneriaeth, bydd y taliadau hyn yn ddyledus yn ystod 2023/24:

	<b>2021/22 £000's</b>
	Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn
<b>Gwariant</b>	
Costau Cartrefi Gofal	111,032
<b>Cyfanswm Gwariant</b>	<b>111,032</b>
<b>Cyllid</b>	
Cyngor Sir Ddinbych	(10,236)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(15,864)
Cyngor Sir y Fflint	(10,556)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(14,434)
Cyngor Gwynedd	(11,214)
Cyngor Sir Ynys Môn	(5,708)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	(43,020)
<b>Cyfanswm Cyllid</b>	<b>(111,032)</b>
<b>(Gwarged) / Diffyg wedi ei drosglwyddo i Gronfa wrth gefn</b>	<b>0</b>

## 25. Lwfansau aelodau

Talodd yr Awdurdod y symiau canlynol i aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn:

	2022/23 £000	2021/22 £000
Cyflog Sylfaenol	910	842
Cyflog Uwch	254	270
Treuliau	6	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,170</b>	<b>1,112</b>

## 26. Tâl Swyddogion

Mae'r tâl a roddwyd i uwch weithwyr yr Awdurdod sydd â dylanwad ar redeg yr Awdurdod yn gyffredinol fel a ganlyn:

	Teitl y Swydd	Cyflog	Cyfanswm tâl ac eithrio Taliadau Pensiwn	Cyfraniadau Pensiwn Gweithiwr	Cyfanswm Tâl
		£	£	£	£
2021/22	Cyn Brif Weithredwr	129,195	129,195	25,581	154,776
2022/23	Cyn Brif Weithredwr	109,264	109,264	21,634	130,898
2022/23	Prif Weithredwr	45,528	45,528	9,014	54,542
2021/22	Cyfarwyddwr Strategol (Economi a Safle)	105,186	105,186	19,248	124,434
2022/23	Cyfarwyddwr Strategol (Economi a Safle)	87,244	87,244	15,271	102,515
2021/22	Cyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol ac Addysg	105,921	105,921	20,972	126,893
2022/23	Cyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol ac Addysg	107,111	107,111	21,208	128,319
2021/22	Cyfarwyddwr Strategol (Arian ac Effeithlonrwydd)	35,062	35,062	6,942	42,004
2021/22	Cyfarwyddwr Strategol (Arian ac Effeithlonrwydd)	77,941	77,941	15,432	93,373
2022/23	Cyfarwyddwr Strategol (Arian ac Adnoddau)	103,411	103,411	20,475	123,886
2021/22	Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu	66,724	66,724	13,211	79,935
2022/23	Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu	46,046	46,046	9,117	55,163
2021/22	Pennaeth Statudol y Gwasanaethau Addysg	88,206	88,206	17,465	105,671
2022/23	Pennaeth Statudol y Gwasanaethau Addysg	90,131	90,131	17,846	107,977
2021/22	Pennaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	88,206	88,206	17,465	105,671
2022/23	Head of Environment, Roads and Facilities	90,131	90,131	17,846	107,977
2021/22	Pennaeth Rheoleiddio	76,367	76,367	15,121	91,488
2022/23	Pennaeth Rheoleiddio	79,618	79,618	15,764	95,382
2021/22	Pennaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol	63,639	63,639	12,601	76,240
2022/23	Pennaeth Pobl a Pherfformiad	23,319	23,319	6,397	29,716

Nid oedd gan y Cyngor unrhyw weithwyr a oedd â chyflog o fwy na £150,000.

Mae'r tâl yn cynnwys yr holl symiau a dalwyd neu a oedd yn dderbyniadwy gan weithiwr (yn cynnwys enillion cyffredin), lwfansau treuliau a gwerth ariannol buddiannau, ond mae'n eithrio taliadau sy'n gysylltiedig â Swyddi'r Swyddog Canlyniadau a'r Dirprwy Swyddog Canlyniadau mewn etholiadau. Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr sy'n daladwy i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ond heb eu talu yn uniongyrchol i'r gweithiwr.

Mae'r ffigyrau ar gyfer Cyfarwyddwr Strategol (Cyllid ac Effeithlonrwydd) a chyn-Bennaeth y Gyfraith a Llywodraethu yn adlewyrchu trefniadau ymddeoliad hyblyg ar gyfer rhan o 2020/21.

Ymddeolodd y cyn Brif Weithredwr ar 25/01/23 a dechreuodd y Prif Weithredwr newydd ar 26/11/22 gan adael ei swydd flaenorol fel Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu.

Gadawodd y Cyfarwyddwr Strategol - Economi a Lle ar 24/01/23.

Ymddeolodd y Cyfarwyddwr Strategol (Cyllid ac Effeithlonrwydd) ar 31/07/21 a dechreuodd y Cyfarwyddwr Strategol (Cyllid ac Adnoddau) ar 18/6/21.

Gadawodd y Pennaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol ar 31/01/22.

Dechreuodd y Pennaeth Pobl a Pherfformiad ar 14/10/22.

Mae'r tabl uchod yn seiliedig ar dâl trethadwy, ond mae'r tabl isod yn net o brynu gwyliau blynyddol ychwanegol, benthyciadau ceir, a chynlluniau aberthu cyflog.

Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill yr Awdurdod dderbyniodd mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn (ag eithrio cyfraniadau pensiwn y cyflogwr):-

Band	2022/23 Nifer yn		2021/22 Nifer yn	
	Heblaw Ysgolion	Ysgolion	Heblaw Ysgolion	Ysgolion
£60,000 - £64,999	7	35	6	24
£65,000 - £69,999	12	12	3	8
£70,000 - £74,999	3	4	1	5
£75,000 - £79,999	5	1	3	1
£80,000 - £84,999	1	2	0	2
£85,000 - £89,999	0	2	3	0
£90,000 - £94,999	0	0	0	0
£95,000 - £99,999	1	0	0	1
£100,000 - £104,999	1	1	0	1
£105,000 - £109,999	0	0	0	0
£110,000 - £114,999	0	1	0	0
£115,000 - £119,999	0	0	0	0
£120,000 - £124,999	0	1	0	0

Mae'r tabl canlynol yn rhoi'r gymhareb rhwng pwynt graddfa'r Prif Weithredwr a phwynt graddfa canolrif staff y Cyngor:

	2022/23	2021/22
	Pwynt ar y Raddfa	Pwynt ar y Raddfa
Prif Weithredwr	£131,120	£129,195
Canolrif	£24,054	£21,633
Cymhareb	5.45	5.97

## Buddiannau Terfynu

Nodwyd nifer y pecynnau ymadael a'r gost fesul band a chyfanswm y diswyddiadau gorfodol a diswyddiadau eraill yn y tabl isod:

Band Cost y Pecyn Ymadael (gan gynnwys Taliadau Arbennig)	Nifer y Diswyddiadau Gorfodol		Nifer yr Ymadawiadau eraill y Cytunwyd amynt		Cyfanswm y Pecynnau Ymadael fesul Band Cost		Cyfanswm Cost y Pecynnau Ymadael ym mhob Band	
	2022/23	2021/22	2022/23	2021/22	2022/23	2021/22	2022/23	2021/22
							£	£
£0 - £19,999	11	4	13	9	24	13	224,627	50,653
£20,000 - £39,999	4	-	5	2	9	2	243,689	69,587
£40,000 - £59,999	1	1	1		2	1	91,445	57,370
£60,000 - £79,999	-	-	1	-	1	-	78,317	-
£80,000 - £99,999	-	-	-	1	-	1	-	90,753
£100,000 - £149,999	-	-	-		-	-	-	-
<b>Total</b>	<b>16</b>	<b>5</b>	<b>20</b>	<b>12</b>	<b>36</b>	<b>17</b>	<b>638,078</b>	<b>268,363</b>

## 27. Costau Archwilio Allanol

Aeth yr Awdurdod i'r costau canlynol yng nghyswllt archwilio'r Datganiad Cyfrifon, ardystio hawliadau grant ac archwiliadau statudol, ac am wasanaethau nad oeddynt yn rhai archwilio a ddarparwyd gan archwilyr allanol yr Awdurdod:

### Datgelu Ffioedd yn Daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru

	2022/23	2021/22
	£'000	£'000
Ffioedd yn daladwy i Archwilio Cymru mewn perthynas ag archwilio datganiadau ariannol.	232	202
Ffioedd yn daladwy i Archwilio Cymru mewn perthynas â gwaith archwilio Perfformiad.	107	103
Ffioedd yn daladwy ar gyfer ardystio hawliadau a ffurflenni grant am y flwyddyn.	45	50
<b>Cyfanswm</b>	<b>384</b>	<b>355</b>



## 28. Incwm Grantiau

Mae'r Awdurdod wedi rhoi'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol mewn credyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn 2022/23:

	2022/23	2021/22
	£'000	£'000
<b>Credydwyd i Dreth ac Incwm Grant Amhenodol</b>		
Grant Cefnogi Refeniw	140,005	129,350
<b>Is-Gyfanswm</b>	<b>140,005</b>	<b>129,350</b>
<b>Grantiau Cyfalaf:</b>		
Grant Cyfalaf Cyffredinol	2,361	5,799
Menter Adfywio Dargedig	-	442
Yr ymateb i Covid	-	623
Ffyniant Bro	13	-
Grant Ysgolion yr 21 Ganrif	-	593
Grantiau Addysg	2,640	3,146
Cynlluniau Lleddfu Llifogydd	1,555	1,622
Amddiffyniad Arfordirol Glan y Môr Bae Colwyn	5,516	920
Gratiaau Amddiffyn yr Arfordir	1,393	937
Grantiau Cludiant / Rhwydweithiau	304	13,988
Grant Ewropeaidd	67	-
Grant Gofal Integredig	1,482	1,638
Grantiau Eraill Llywodraeth Cymru	1,041	2,380
Grantiau Amrywiol Eraill	1,084	71
<b>Is-Gyfanswm</b>	<b>17,456</b>	<b>32,159</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>157,461</b>	<b>161,509</b>

<b>Credydwyd i Wasanaethau:</b>		
Amrywiol grantiau cyfalaf (REFCUS)	1,625	2,390
Grant Cymorth Tai	8,740	8,645
Darpariaeth Ôl-16 mewn Ysgolion	6,198	5,954
Grantiau Addysgol Amrywiol	317	724
Grant Amddifadedd Disgyblion	3,789	3,060
Grant Gwella Addysg	3,561	3,985
TRAC (Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd)	476	877
Grant Addysg Awdurdod Lleol	6,337	6,242
Grant Refeniw Ieuenctid	385	417
Cymunedau am Waith	719	599
Cartrefi i Wcráin	1,868	-
AGP – Grant Budd-dal Tai	25,199	26,399
Grant Gweinyddu Treth y Cyngor	332	327
Treth y Cyngor – Costau Byw	-	959
Costau Byw - Grantiau Gweinyddu	259	-
Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai	452	249
COVID 19 - Gwariant Ychwanegol	3,978	11,235
COVID 19 – Colled Incwm	90	4,517
Grant Gweinyddu Covid	200	142
Diffyg Treth y Cyngor	-	676
Cyllid Y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol (CRMP)	2,614	-
Chwaraeon Cymru - CPALI	-	127
Prosiectau'r Loteri Fawr	-	196
Cynllun Atgyfeirio i Wneud Ymarfer Corff Cenedlaethol	161	147
Grantiau Gwledig Llywodraeth Cymru	327	98
Teuluoedd yn Gyntaf	98	80
Grantiau Amrywiol	949	522
Cronfa Gweithredu yn erbyn Camddefnyddio Sylweddau	117	298
Grant Cefnogi Gwasanaethau Bws	1,152	639
Prisiau Teithio Consesiynol	2,284	2,779
Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol	343	299
Digartrefedd yr Ifanc	240	240
Trawsnewid	50	1,407
Cronfa Adfer	-	1,395
Pwysau Gofal Cymdeithasol	-	1,940
Hyrwyddo Annibyniaeth	-	388
Dileu Elw o Ofal	244	-
Gwasanaeth Cyfiawnder yr Ifanc	368	384
Ariannu Hyblyg/Teuluoedd yn Gyntaf	1,491	1,326
Cronfa Gofal Integredig	3,563	2,890
Grant Refeniw Dechrau'n Deg	2,513	2,168
Gweithgareddau Lles	285	788
Hyrwyddo Ymgysylltiad Cadarnhaol	280	251
Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol	1,744	1,940
Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy	613	790
Grant PTGGGC Parc Adfer	1,118	1,118
Diogelu'r Arfordir	154	200
Grantiau Eraill	2,895	2,576
<b>Cyfanswm</b>	<b>88,128</b>	<b>102,383</b>

## 29. Partïon Cysylltiedig

Yn unol ag IAS 24, mae gan y Cyngor ddyletswydd i ddatgelu unrhyw drafodion sylweddol gyda 'phartïon cysylltiedig'. Mae hyn er mwyn sicrhau fod datganiadau ariannol yn cynnwys y datgeliadau angenrheidiol sy'n tynnu sylw at y posibilrwydd y gallai'r sefyllfa a'r canlyniadau ariannol a adroddir fod yn cael eu heffeithio gan bresenoldeb partïon cysylltiedig â thrafodion sylweddol gyda hwy.

### Llywodraeth Ganolog

Datgelir gwybodaeth fanwl ar Grantiau Refeniw, Grantiau Cyfalaf, Grantiau Cefnogi Refeniw a thrafodion Trethi Annomestig Cenedlaethol yn ystod y flwyddyn mewn man arall yn y datganiad hwn.

### Praeseptau ac Ardollau

Mae manylion o braeseptau a gasglwyd ar ran sefydliadau eraill yn y Cyfrif Incwm a Gwariant. Mae'r Cyngor yn penodi Aelodau i gyrrff penodol sy'n trethu cyllideb y Cyngor. Mae manylion o'r ardollau hyn yn Nodyn 7, ac yn y tabl canlynol:

	2022/23 £'000	2021/22 £'000
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	6,631	6,231
Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	16,163	15,576
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	314	314

### Elusennau a Sefydliadau Gwirfoddol

Mae'r Cyngor yn penodi Aelodau, Cyfa rwyddwyr Strategol, Penaethiaid Gwasanaeth a Swyddogion eraill i gyrrff elusennol a gwirfoddol penodol. Nid yw Swyddogion eraill yn cael eu cynnwys yn y datgeliad o drafodion gyda phartïon cysylltiedig, gan nad ystyrir bod y Swyddogion hyn mewn safle i roi yr un lefel o ddylanwad o fewn y Cyngor ag Aelodau, Cyfarwyddwyr Strategol a Phenaeithiaid Gwasanaeth. Yn ystod 2022/23 talwyd cyfanswm o £489,675 (gan gynnwys credydwr diwedd y flwyddyn o £186) (2021/22: £295,211 gan gynnwys credydwr diwedd y flwyddyn o £12,656) i'r cyrrff hyn drwy grantiau a phrynu gwasanaethau. Yn 2022/23 derbyniodd y Cyngor incwm o £640,367 (gan gynnwys dyledwyr diwedd y flwyddyn o £2,174) (£21,780 yn 2021/22 gan gynnwys dyledwyr diwedd y flwyddyn o £3,147) gan y cyrrff hyn.

### Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Chymdeithas Llywodraeth Leol (CLIL)

Mae'r Cyngor yn aelod o CLILC a CLIL, ac fe dalwyd £105,847 i danysgrifio yn 2022/23 (gan gynnwys credydwr diwedd y flwyddyn o £500) (£102,198 yn 2021/22, dim credydwr diwedd y flwyddyn), ac fe dderbyniodd y Cyngor incwm o £496,918 (gan gynnwys dyledwyr diwedd y flwyddyn o £1,000) (£1,260,820 yn 2021/22, dim dyledwyr diwedd y flwyddyn).

### Y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Strategol a Phenaeithiaid Gwasanaeth

Anfonwyd ffurflenni datgan cysylltiad â phartïon cysylltiedig at y Prif Weithredwr, Penaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr Strategol am y flwyddyn 2022/23.

Ni thalwyd dim dan drefniadau fel hyn (£6,360 (gan gynnwys credydwr diwedd y flwyddyn o £160) yn 2021/22), ac ni dderbyniwyd unrhyw incwm gan y Cyngor (dim yn 2021/22).

## **Aelodau**

Fe anfonwyd datganiad o gysylltiad i Aelodau gyda ffurflen partïon cysylltiedig ar gyfer blwyddyn 2022/23 ac yn bennaf fe wnaethant ddatgan cysylltiad mewn cwmnïau neu fusnesau y gallai'r Cyngor fod yn delio â nhw.

Talwyd cyfanswm o £3,325,774 (gan gynnwys credydwr diwedd y flwyddyn o £89,690) gan y Cyngor yn 2022/23 mewn perthynas â thrafodion o'r fath (2021/22: £627,667 gan gynnwys credydwr diwedd y flwyddyn o £10,143), a derbyniwyd cyfanswm o £8,108,625 gan y Cyngor (gan gynnwys dyledwyr diwedd y flwyddyn o £627,893) (£45,936 yn 2021/22, gan gynnwys dyledwyr diwedd y flwyddyn o £2,086). Mae'r cyfanswm a dalwyd yn cynnwys symiau i rai elusennau lle mae aelod o'r Pwyllgor Safonau'n Aelod o'r Bwrdd, neuadd lle mae Aelod yn ymddiriedolwr ac yn gyfarwyddwr, canolfan gymunedol lle mae gwraig i Aelod yn drysorydd er anrhydedd, a symiau a dalwyd i siop garpedi sy'n eiddo i frawd i Aelod.

Roedd dau Aelod Conwy yn cynrychioli'r Cyngor ar Brosiect Trin Gwastraff Gweddillol Gogledd Cymru ac un Aelod Conwy yn cynrychioli'r Cyngor ar Gydbwyllgor GwE. Oherwydd natur y partïon, mae'r trafodion yn digwydd yng nghwrs arferol gweithgarwch. Mae'r Cyngor wedi enwebu Aelod i eistedd ar fwrdd llywodraethwyr Coleg Derwen.

## **Arall**

Mae Conwy yn gweithredu fel asiant ar ran Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wrth ymdrin â materion rheoli trysorlys, fel rhan o'r gwasanaeth rheoli ariannol a ddarparwyd dan gytundeb lefel gwasanaeth.

Ar wahân i drafodion arferol fel taliadau Treth y Cyngor, trethi annomestig a rhenti tai, nid oes unrhyw drafodion sylweddol eraill gyda charfannau perthynol.

### 30. Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf

Dengys y tabl isod gyfanswm gwariant cyfalaf am y flwyddyn (yn cynnwys gwerth yr asedau hynny gafaelwyd drwy brydlesi cyllidol a chytundebau PFI, ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Os yw'n fwriad ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol trwy godi tâl ar y refeniw fel y defnyddir asedau gan yr Awdurdod, yna byddai'r gwariant yn arwain at gynnydd yn y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR), mesurydd gwariant cyfalaf hanesyddol yr Awdurdod sydd heb ei ariannu eto. Dadansoddir y symudiad yn y CFR yn yr ail ran o'r nodyn hwn.

	2022/23	2021/22
	£'000	£'000
Gofyniad Ariannu Cyfalaf Dechreuol	226,005	223,222
<b>Buddsoddiad Cyfalaf</b>		
Eiddo, Offer a Chyfarpar	47,909	40,499
Asedau a Ddelir i'w Gwerthu	-	-
Asedau anniriaethol	14	28
Gwariant refeniw a ariannwyd o gyfalaf dan statud	1,797	2,219
Gwrthdroi amseriad cylch bywyd y Cynllun Ariannu Preifat	-	-
<b>Ffynonellau Cyllid</b>		
Derbyniadau Cyfalaf	(153)	(131)
Grantiau Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill	(21,395)	(33,112)
Symiau wedi'i neilltuo gan refeniw:		
Cyfraniadau Refeniw Uniongyrchol	(534)	(195)
Isafswm Darpariaeth Refeniw	(5,299)	(6,387)
Perchnogaeth ased ariannol ar brydles	(141)	-
Addasiad grantiau 2020/21	-	(138)
<b>Gofyniad Ariannu Cyfalaf Terfynol</b>	<b>248,203</b>	<b>226,005</b>
<b>Eglurhad o symudiadau mewn blwyddyn</b>		
Cynnydd mewn angen sylfaenol i fenthyca	23,265	3,941
Prydlesau Cyllid (yn cynnwys Coed Pella a PFI)	(13)	(12)
Cytundebau PFI/Coed Pella	(887)	(881)
Costau gweithrediadau gwaredu yn CAA	(26)	(127)
Perchnogaeth ased ariannol ar brydles	(141)	-
Addasiad grantiau 2020/21	-	(138)
<b>Cynnydd / (Gostyngiad) yn y Gofyniad Ariannu Cyfalaf</b>	<b>22,198</b>	<b>2,783</b>

### 31. Prydlesau

#### Yr Awdurdod fel Daliwr Prydles

##### Prydlesau Ariannol

Mae gan y Cyngor nifer o adeiladau, cerbydau masnachol, peiriannau ffrancio, a TG ysgolion a chyfarpar arall dan brydlesi cyllidol.

Caiff yr asedau a gafaelwyd drwy'r prydlesau hyn eu dangos fel Eiddo, Offer a Chyfarpar yn y Fantolen gyda'r gwerth net canlynol:

	31 Mawrth 2023 £'000	31 Mawrth 2022 £'000
Tir & Adeiladau Eraill	37,235	33,645
Cerbydau, Offer, Dodrefn & Chyfarpar	-	-
<b>Cyfanswm</b>	<b>37,235</b>	<b>33,645</b>

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i dalu isafswm ar y prydlesau hyn sy'n cynnwys setliad o'r rhwymedigaeth tymor hir am y budd yn yr eiddo gafaelwyd gan yr Awdurdod a chostau cyllido a fydd yn daladwy gan yr Awdurdod yn y dyfodol tra mae'r rhwymedigaeth yn parhau'n ddyledus. Mae'r lleiafswm taliadau prydles fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2023 £'000	31 Mawrth 2022 £'000
Rhwymedigaethau prydlesau ariannol (gwerth presennol net o leiafswm y taliadau prydles):		
▪ Cyfredol	554	538
▪ Ddim yn gyfredol	31,701	32,395
Costau cyllido sy'n daladwy yn y dyfodol	19,394	21,198
<b>Lleiafswm y Taliadau Prydles</b>	<b>51,649</b>	<b>54,131</b>

Mae'r lleiafswm taliadau prydles yn daladwy dros y cyfnodau canlynol:

	Lleiafswm Taliadau Prydles		Ymrwymadau Prydlesau Cyllidol	
	31 Mawrth 2023 £'000	31 Mawrth 2022 £'000	31 Mawrth 2023 £'000	31 Mawrth 2022 £'000
Dim mwy na blwyddyn	1,471	1,479	554	538
Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd	5,882	5,916	2,381	2,313
Mwy na 5 mlynedd	44,296	46,736	29,320	30,082
<b>Cyfanswm</b>	<b>51,649</b>	<b>54,131</b>	<b>32,255</b>	<b>32,933</b>

### **Prydlesau Gweithredol**

Mae gan yr Awdurdod brydlesau yn ymwneud â thir ac adeiladau i wahanol bwrpasau yn cynnwys llety swyddfa, defnydd cymunedol ac i ddarparu llety i deuluoedd digartref.

Mae'r isafswm taliadau prydles i'r dyfodol o dan brydlesau na ellir eu diddymu mewn blynyddoedd i ddod yn:

	<b>31 Mawrth 2023</b> <b>£'000</b>	<b>31 Mawrth 2022</b> <b>£'000</b>
Dim mwy na blwyddyn	1,079	1,062
Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd	1,392	1,421
Mwy na 5 mlynedd	9,149	9,481
<b>Cyfanswm</b>	<b>11,620</b>	<b>11,964</b>

Mae'r isafswm taliadau i'r dyfodol y disgwylir i'r Awdurdod eu derbyn yng nghyswllt eiddo ble mae teuluoedd digartref yn byw yn cael eu pennu gan gymhwysedd am fudd-dal tai.

Y gwariant yn ystod y flwyddyn o ran pob prydles gweithredu, gan gynnwys y rhai yr oedd teuluoedd digartref yn eu defnyddio oedd:

	<b>2022/2023</b> <b>£'000</b>	<b>2021/2022</b> <b>£'000</b>
Isafswm taliadau prydles	1,062	931
Taliadau sy'n dderbyniadwy yng nghyswllt eiddo ble mae teuluoedd digartref yn byw	(681)	(656)
<b>Cyfanswm</b>	<b>381</b>	<b>275</b>

## Yr Awdurdod fel Prydleswr

### Prydlesau Ariannol

Mae'r Awdurdod wedi prydlesu sawl eiddo o dan brydlesi ariannol gyda thymor o hyd at 117 mlynedd. Mae gan yr Awdurdod buddsoddiad gros yn y brydles, gan gynnwys yr isafswm taliadau prydles y disgwylir iddynt gael eu derbyn dros y tymor sy'n weddill a'r gwerth gweddilliol a ddisgwylir i'r eiddo pan fo'r brydles yn dod i ben. Mae'r isafswm taliadau prydles yn cynnwys setliad y dyledwr tymor hir am y budd yn yr eiddo a gafaerir gan y prydleswr a'r incwm ariannol a enillir gan yr Awdurdod mewn blynyddoedd i ddod tra bo'r ddyled yn dal i sefyll. Mae'r buddsoddiad gros yn cynnwys y symiau canlynol:

	31 Mawrth 2023 £'000	31 Mawrth 2022 £'000
Dyledwr prydles ariannol (gwerth presennol net o leiafswm y taliadau prydles)		
▪ Cyfredol	117	116
▪ Ddim yn gyfredol	1,219	1,367
Incwm ariannol heb ei ennill	378	456
Gwerth gweddilliol eiddo heb ei warantu	(263)	(263)
<b>Buddsoddiad gros yn y brydles</b>	<b>1,451</b>	<b>1,676</b>

Mae'r buddsoddiad gros yn y brydles yn cynnwys dyledwr prydles ariannol ar gyfer Canolfan Crwst, trefniadau aml-asiantaeth gyda chymdeithas dai, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Awdurdod.

Derbynnir y buddsoddiad gros yn y brydles a'r isafswm taliadau prydles dros y cyfnodau canlynol:

	Buddsoddiad Gros yn y Brydles		Isafswm Taliadau Prydles	
	31 Mawrth 2023 £'000	31 Mawrth 2022 £'000	31 Mawrth 2023 £'000	31 Mawrth 2022 £'000
Dim mwy na blwyddyn	181	187	181	187
Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd	685	725	685	725
Mwy na 5 mlynedd	585	764	585	764
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,451</b>	<b>1,676</b>	<b>1,451</b>	<b>1,676</b>



## **Prydlesau Gweithredol**

Mae'r Awdurdod yn prydlesu eiddo i'r dibenion canlynol yn cynnwys:

- i ddarparu gwasanaethau yn y gymuned, megis cyfleusterau chwaraeon, gwasanaethau twristiaeth a chanolfannau cymuned
- i bwrpas datblygiad economaidd i ddarparu adeiladau addas a fforddiadwy i fusnesau lleol.

Y lleiafswm taliadau prydles gweithredol derbyniadwy na ellir eu diddymu i'r dyfodol yw:

	<b>31 Mawrth 2023 £'000</b>	<b>31 Mawrth 2022 £'000</b>
Dim mwy na blwyddyn	1,088	887
Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd	1,896	1,042
Mwy na 5 mlynedd	11,807	9,501
<b>Cyfanswm</b>	<b>14,791</b>	<b>11,430</b>

Nid yw'r lleiafswm taliadau derbyniadwy yn cynnwys rhent sydd yn amodol ar drosiant. Yn 2022/23 roedd gwerth rhenti wrth gefn a dderbyniwyd yn £521,096. Yn 2021/22 y ffigwr hwn oedd £476,415.

## **32. Mentrau Cyllid Preifat a chytundebau tebyg**

### **Prosiect Cynllun Ariannu Preifat y Dair Ysgol**

Mae'r prosiect yn cynnwys adeilad ysgol newydd ar safle newydd ar gyfer Ysgol John Bright Llandudno; adnewyddu ac estyn Ysgol Aberconwy, Conwy; ac adeiladu ystafelloedd o'r newydd ac adnewyddu Ysgol Dyffryn Conwy, Llanrwst, yn ogystal ag ad-drefnu'r ysgol fel ei bod wedi ei lleoli ar un safle.

Mae'r prosiect yn darparu'r Cyngor gyda 3 ysgol sy'n cael ei gwasanaethu'n llawn gan gynnwys gwasanaethau rheoli cyfleusterau, glanhau, gofalu, cynnal y tiroedd, NNDR a gwasanaethau.

Llofnodwyd contractau 12 Mawrth 2003, a dechreuodd y gwaith adeiladu ddiwedd mis Mawrth 2003. Roedd y Taliadau Unedol (y taliad misol a wneir gan y Cyngor i'r sector preifat ar gyfer y 3 ysgol sy'n cael eu gwasanaethu'n llawn) yn daladwy o 1 Awst 2004 am gyfnod contract o 25 mlynedd. Y Taliad Unedol yn y flwyddyn ariannol 2022/23 oedd £7.5m (didyniadau argaeledd a perfformiad o £284) am y cyfnod Ebrill 2022 i Fawrth 2023 yn gynwysedig. (Y Taliad Unedol yn y flwyddyn ariannol 2021/22 oedd £7.2m, dim didyniadau argaeledd a perfformiad). Amcangyfrifir fod y taliad blwyddyn lawn yn 2023/24 tua £7.9m ar sylfaen pris o 1 Ebrill 2023.

Mae'r rhwymedigaeth heb fod wedi ei chwblhau a gliriwyd o'r trafodyn PFI tua £52.1m (£57.2m yn 2021/22), sy'n cynrychioli cyfanswm y Taliadau Unedol amcanol sy'n daladwy am weddill cyfnod y contract 25 mlynedd.

Ym mis Awst 2004, talodd y Cyngor Gostau Unedol o £9m ymlaen llaw. Ar ddechrau'r Cytundeb PFI, trosglwyddwyd asedau presennol Ysgol Aberconwy ac Ysgol Dyffryn Conwy, a nodwyd yn y fantolen am £7.6m, i'r sector preifat heb unrhyw ystyriaeth.

Ar ddiwedd y contract gall y Cyngor ail-dendro darpariaeth y gwasanaethau, neu bydd y Contractwr yn trosglwyddo ei holl hawliau, teitl a budd (os o gwbl) yn yr asedau ac i'r Cyngor. Mae gan y Cyngor hawliau o dan y cytundeb PFI i derfynu'r cytundeb os bydd y Contractwr yn methu fel y nodir yn y cytundeb.

### **Gwerth Asedau dan PFI a Chytundebau Tebyg**

	<b>2022/23 £'000</b>	<b>2021/22 £'000</b>
Gwerth ar 1 Ebrill	64,357	63,581
Ychwanegiadau	714	669
Adbrisiadau	4,436	1,735
Ailddosbarthiadau	-	-
Dibrisiad	(1,695)	(1,628)
Gwerth ar 31 Mawrth	67,812	64,357

Mae'r ffigurau uchod ar gyfer 2021/22 wedi cael eu cywiro.

### **Gwerth Rhwymedigaeth o ganlyniad i PFI a Chytundebau Tebyg**

	<b>2022/23 £'000</b>	<b>2021/22 £'000</b>
Balans sy'n ddyledus ar 1 Ebrill	(14,015)	(15,934)
Taliadau yn ystod y flwyddyn	2,094	1,919
Balans sy'n ddyledus ar 31 Mawrth	(11,921)	(14,015)

### **Manylion taliadau sy'n ddyledus dan PFI a Chytundebau Tebyg**

	<b>Ffioedd Gwasanaeth £'000</b>	<b>Ad-daliad Rhwymedigaeth £'000</b>	<b>Llog £'000</b>	<b>Cyfanswm £'000</b>
O fewn blwyddyn	4,964	1,950	1,018	7,932
O fewn dwy i bum mlynedd	23,764	6,494	2,575	32,833
O fewn chwech i ddeng mlynedd	7,572	3,477	313	11,362

### **Coed Pella**

Adeiladwyd Gofod Swyddfa ym Mae Colwyn yn 2018 yr oedd galw mawr amdano, er mwyn cynnig darpariaeth swyddfa fodern i'n staff. Y datblygwr a dalodd am gost

yr adeiladu ac mae'r Cyngor wedi ymrwymo i drefniant tebyg i brydles gyda'r datblygwr. Bydd y Cyngor yn rhentu'r swyddfeydd am gyfnod o 40 mlynedd gan y datblygwr. Gosodwyd rhent blynyddol o £1.451m (i'w dalu bob chwarter ymlaen llaw) a bydd yn cael ei ymgodi bob blwyddyn trwy gyfeirio at y Mynegai Prisiau Manwerthu a gyhoeddir gan Swyddfa Ystadegau Gwladol. Roedd y rhent cychwynnol yn daladwy ar 30 Hydref 2018 pan oedd y swyddfeydd yn weithredol a chawsant eu trosglwyddo i'r Cyngor i'w defnyddio. Penderfynwyd bod y brydles yn brydles cyllid a chafodd y swyddfeydd eu prasio a'u cynnwys ym Mantolen y Cyngor yn £34.467m ar 30 Hydref 2018, ynghyd â dyled cyllid prydles o £34.467m.

Yn ystod cyfnod y brydles, ni fydd y datblygwr yn gyfrifol am gynnal a chadw'r adeilad. Nid oes gan y Cyngor yr opsiwn o derfynu'r prydles, ac ar ddiwedd cyfnod y brydles, bydd y teitl yn trosglwyddo i'r Cyngor ac ni wneir taliadau prydles pellach i'r datblygwr. Mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd y swyddfeydd yn weithredol am 60 mlynedd.

### **33. Cynlluniau Pensiwn y Cyfrifir Amdanynt Fel Cynlluniau Cyfraniadau Diffiniedig**

Mae athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o Gynllun Pensiwn Athrawon a weinyddir gan yr Adran Addysg. Mae'r cynllun yn rhoi buddiannau penodol i athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Awdurdod yn cyfrannu tuag at y costau drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar ganran o dâl pensiynadwy aelodau. Yn dechnegol, cynllun â buddion diffiniedig yw'r cynllun. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn cael ei ariannu ac mae'r Adran Addysg yn defnyddio cronfa ddamcaniaethol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w thalu gan awdurdodau lleol. Ni all yr Awdurdod adnabod ei ran o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. Ar ddiben y Datganiad Cyfrifon, caiff ei gyfrifo ar yr un sail â chynllun cyfraniadau diffiniedig. Yn 2022/23, talodd y Cyngor gyfraniad cyflogwr o £10.521m o Bensiwn Athrawon mewn perthynas â buddiannau ymddeol athrawon, a oedd yn cynrychioli 23.68% o dâl pensiynadwy. Roedd y ffigurau am 2021/22 yn £10.038m a 23.68% o dâl pensiynadwy. Nid oedd unrhyw gyfraniadau'n daladwy ar ddiwedd y flwyddyn (31 Mawrth 2022 – Dim).

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a ddyfernir ar ymddeoliad cynnar tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig.

### **34. Cynlluniau Pensiwn Buddiannau Diffiniedig**

#### **Cyfranogiad mewn Cynlluniau Pensiwn**

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Awdurdod yn gwneud cyfraniadau tuag at gost buddiannau ôl gyflogaeth. Er na fydd y buddiannau hyn yn daladwy hyd nes bo'r gweithwyr yn ymddeol, mae gan yr Awdurdod ymrwymiad i wneud y taliadau sydd angen eu datgelu ar yr adeg mae gweithwyr yn ennill eu hawl i'r dyfodol.

Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn dau gynllun ôl gyflogaeth:

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r Awdurdod yn cyfranogi mewn cynllun a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd – mae'n gynllun buddiant diffiniedig cyflog terfynol a ariennir, sy'n golygu bod yr Awdurdoda gweithwyr yn talu cyfraniadau i'r gronfa, a gyfrifir ar lefel y bwriedir iddi gydbwysu'r rhwymedigaethau pensiwn gydag asedau buddsoddi. Mae'r Awdurdod hefyd yn cyfranogi mewn cynllun a weinyddir yn lleol gan Gyngor Sir y Fflint, sy'n gynllun heb ei ariannu.
- Trefniadau ar gyfer dyfarnu buddiannau ar ôl ymddeol wrth ymddeol yn gynnar - mae hwn yn drefniant buddiant diffiniedig heb ei gyllido, y cydnabyddir rhwymedigaethau iddo pan fo'r dyfarniadau wedi eu gwneud. Fodd bynnag, ni

adeiladwyd unrhyw asedau buddsoddi i gwrdd â'r rhwymedigaethau pensiynau hyn, a rhaid cynhyrchu arian i gwrdd â'r taliadau pensiwn gwirioneddol fel y dônt yn ddyledus.

Cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer cynllun Gwynedd yn 2022/23 oedd 19.8% (2021/22 19.8%). Y gyfradd fydd 19.6% yn 2023/24. Y cyfanswm a dalwyd i mewn i gynllun Gwynedd yn 2022/23 oedd £15.876m o gyfraniadau pensiwn safonol (£14.815m yn 2021/22).

## Trafodion yn Gysylltiedig â Buddiannau Ôl Gyflogaeth

Cydnabyddir costau buddiannau ymddeol yn y gost gwasanaethau sy'n destun adroddiad pan y cânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan fo'r fath fuddiannau yn cael eu talu yn y pen draw fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r tâl y mae gofyn i ni ei godi yn erbyn y Dreth Gyngor wedi ei seilio ar yr arian sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly mae cost gwirioneddol ôl gyflogaeth /buddiannau ymddeol yn cael ei gwyrddroi allan o Gronfa'r Cyngor trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans Cronfa'r Cyngor trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.

## Gofynion Datgelu IAS 19 ar gyfer 2022/23

Mae sawl newid wedi ei wneud mewn perthynas â safon gyfrifo ryngwladol Buddiannau Cyflogaeth IAS 19, sy'n golygu bod y datganiad cyfrifon a'r polisi cyfrifo wedi newid. Mae'r newid hwn wedi cyflwyno dosbarthiadau newydd o elfennau cost buddiannau diffiniedig i'w cydnabod yn y datganiadau ariannol (h.y. llog net ar y dyledion buddiannau diffiniedig (ased) ac ail-fesuriadau'r ddyled buddiannau diffiniedig net (ased)), a, lle mae effaith materol, meini prawf diffinio neu gydnabod newydd ar gyfer costau gwasanaeth (e.e. costau gwasanaethau blaenorol) a meini prawf cydnabod newydd ar gyfer buddiannau terfynu cyflogaeth.

Mae'r ailddatganiadau angenrheidiol wedi eu hadlewyrchu yn y nodiadau sy'n dilyn. Trafodion yn ymwneud a buddion Ymddeol a gydnabyddir yn y Cyfrifon:

	Wedi'u Hariannu		Heb eu Hariannu	
	2022/23	2021/22	2022/23	2021/22
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>				
<b>Cost net y Gwasanaethau:</b>				
• Cost gwasanaeth cyfredol	37,240	38,336	-	-
• Cost gwasanaeth y gorffennol	220	163	3	2
• Taliadau Llawn			-	-
<b>Incwm a Gwariant Buddsoddi ac Ariannu</b>				
• Llog net	4,230	4,909	417	344
<b>Cyfanswm buddion diffiniedig a godwyd ar ddarparu gwasanaethau</b>	<b>41,690</b>	<b>43,408</b>	<b>420</b>	<b>346</b>
<b>Costau pensiwn eraill a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>				
• Adenillion ar asedau (heb gynnwys llog)	49,830	(47,129)		
• Ailfesuriadau ar rywmedigaethau	(326,573)	(69,420)	(2,964)	(740)
<b>Costau pensiwn a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>	<b>(235,053)</b>	<b>(73,141)</b>	<b>(2,544)</b>	<b>(394)</b>
<b>Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn</b>				
• Dileu ffioedd yn unol â'r Cod	41,690	43,408	420	346
<b>Symiau gwirioneddol a godwyd ar y Gronfa Gyffredinol yn ystod y flwyddyn:</b>				
• Cyfraniadau cyflogwr	16,857	15,746		
• Tynnu'r addasiad rhagdaliad			-	-
• Taliadau dewisol	16,857	15,746	1,207	1,291

Mae'r swm a gynhwyswyd yn y Fantolen yn codi o rwymedigaeth yr Awdurdod mewn perthynas â'i gynlluniau buddion wedi'u diffinio fel a ganlyn:

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Buddion yn ôl Disgresiwn	
	2022/23	2021/22	2022/23	2021/22
	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth presennol rhwymedigaeth buddion diffiniedig	(594,253)	(872,075)	(11,607)	(15,358)
Gwerth teg yr asedau	696,049	723,168	-	-
Addasiad Nenfwd Asedau	(34,482)	-	-	-
Is-gyfanswm	67,314	(148,907)	(11,607)	(15,358)
<b>Rhwymedigaeth net</b>	<b>67,314</b>	<b>(148,907)</b>	<b>(11,607)</b>	<b>(15,358)</b>

### Asedau a Rhwymedigaethau yng Nghyswllt Buddiannau Ôl Gyflogaeth

Cysoniad o werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun (rhwymedigaeth buddiant diffiniedig):

Rhwymedigaethau	Rhwymedigaethau a Ariennir: Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Rhwymedigaethau heb eu Hariannu: Buddiannau Disgresiwn	
	31 Mawrth 2023 £'000	31 Mawrth 2022 £'000	31 Mawrth 2023 £'000	31 Mawrth 2022 £'000
Balans agoriadol	872,075	896,491	15,358	17,043
Cost bresennol gwasanaeth	37,240	38,336	-	-
Cost llog	23,854	18,178	417	344
Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun	4,954	4,526	-	-
Ailfesuriadau	(326,573)	(69,420)	(2,964)	(740)
Buddiannau a dalwyd	(17,517)	(16,199)	(1,207)	(1,291)
Costau/(credyd) gwasanaethau blaenorol	220	163	3	2
<b>Balans Cau</b>	<b>594,253</b>	<b>872,075</b>	<b>11,607</b>	<b>15,358</b>

Penderfynir ar yr enillion a ddisgwylir ar asedau'r cynllun drwy ystyried yr enillion a ddisgwylir eu cael ar yr asedau sy'n tanlinellu'r polisi buddsoddi cyfredol. Mae'r cynnyrch a ddisgwylir ar y buddsoddiadau llog sefydlog yn seiliedig ar gynnyrch adbrynant gros fel ar ddyddiad y Fantolen.

Asedau	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	
	31 Mawrth 2023 £'000	31 Mawrth 2022 £'000
Balans agoriadol ar 1 Ebrill	723,168	659,989
Ailfesuriadau	(49,830)	47,129
Llog Asedau	19,624	13,269
Cyfraniadau'r cyflogwr	15,650	14,454
Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun	4,954	4,526
Buddiannau a dalwyd	(17,517)	(16,199)
Buddiannau heb eu Hariannu a dalwyd	(1,207)	(1,291)
Cyfraniadau Buddiannau heb eu Hariannu	1,207	1,291
<b>Balans Cau</b>	<b>696,049</b>	<b>723,168</b>

### Asedau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Categori Ased	2022-23				2021-22			
	Prisiau a Ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithgar	Prisiau na Ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithgar	Cyfanswm	%	Prisiau a Ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithgar	Prisiau na Ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithgar	Cyfanswm	%
	£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000	
<b>Gwarantau Ecwiti</b>								
Prynwr	-	-	-	0.0	-	-	-	-
Gweithgynhyrchu	-	-	-	0.0	-	-	-	-
Ynni a Chyfleustodau	-	-	-	0.0	-	-	-	-
Sefydliadau Ariannol	-	-	-	0.0	-	-	-	-
Iechyd a Gofal	-	-	-	0.0	-	-	-	-
Technoleg Gwybodaeth	-	-	-	0.0	-	-	-	-
Arall	-	-	-	0.0	-	-	-	-
<b>Gwarannau Dyled</b>								
Arall	-	-	-	0.0	-	-	-	-
<b>Ecwiti Preifat</b>								
Pob Un		43,978	43,978	6.3		40,887	40,887	5.6
<b>Eiddo tiriog</b>								
Eiddo yn y DU		57,571	57,571	8.2		62,226	62,226	8.6
Eiddo Tramor		-	-	0.0		-	-	-
<b>Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Uned</b>								
Ecwitiau		434,867	434,867	62.3		461,101	461,101	63.6
Bondiau		-	-	-		-	-	-
Isadeiledd		19,832	19,832	2.8		14,181	14,181	2.0
Arall		140,118	140,118	20.1		144,882	144,882	20.0
<b>Gwarannau Dyled</b>								
Arall		-	-	-		-	-	-
<b>Arian Parod a Chyferwerth Arian</b>								
Pob Un	2,181	-	2,181	0.3	2,263	-	2,263	0.3
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,181</b>	<b>696,366</b>	<b>698,547</b>	<b>100</b>	<b>2,263</b>	<b>723,277</b>	<b>725,540</b>	<b>100</b>

### Sail ar Gyfer Amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau

Aseswyd rhwymedigaethau ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanedig, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy mewn blynyddoedd i ddod gan ddibynnu ar ragdybiaethau ynghylch graddfeydd marwoldeb, lefelau cyflog, ayb. Mae rhwymedigaethau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Buddiannau Disgresiwn wedi eu hasesu gan Hymans Robertson, cwmni annibynnol o actwaryddion, gyda'r rhagamcanion i Gronfa'r Cyngor wedi ei seilio ar y gwerthusiad llawn olaf o'r cynllun ar 31 Mawrth 2022.

Y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari oedd :

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Buddiannau Disgresiwn	
	31 Mawrth 2023	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2023	31 Mawrth 2022
<b>Rhagdybiaethau Marwoldeb:</b>				
<b>Hirhoedledd yn 65 i bensiynwyr presennol:</b>				
• Dynion	21.0	21.3	21.0	21.3
• Merched	24.0	23.7	24.0	23.7
<b>Hirhoedledd yn 65 i bensiynwyr y dyfodol:</b>				
• Dynion	21.9	22.4	21.9	22.4
• Merched	25.7	25.7	25.7	25.7
Graddfa chwyddiant	3.20%	3.65%	3.20%	3.65%
Graddfa cynnydd mewn cyflogau	3.45%	3.50%	3.45%	3.50%
Graddfa cynnydd mewn pensiynau	2.95%	3.20%	2.95%	3.20%
Graddfa ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun Defnyddio'r opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeoliad	4.75%	2.7%	4.75%	2.7%
- pre April 2008 service	65%	50%	-	-
- post April 2008 service	65%	75%	-	-

### Dadansoddiad o Sensitifrwydd

Mae'r sensitifrwydd ynglŷn â phrif dybiaethau a ddefnyddir i fesur dyledion y cynllun ar gyfer Conwy wedi'u gosod isod:

Newid mewn tybiaethau ar 31 Mawrth 2023:	Amcangyfrif o % mewn cynnydd i Rwymedigaeth Budd-dal Diffiniedig	Amcangyfrif o swm ariannol (£000)
Gostyngiad o 0.5% yng Nghyfradd Gostyngiad Real	2%	10,928
Cynnydd un flwyddyn mewn disgwyliad oes aelod		
Cynnydd o 0.5% yng Nghyfradd Cynnydd mewn Cyflog	4%	23,500
Cynnydd o 0.5% yng Nghyfradd Cynnydd mewn Pensiwn	0%	1,407
	2%	9,681

Y brif dybiaeth ddemograffig ydi'r dybiaeth hirhoedledd (h.y. disgwyliad oes aelod). Am bwrpasau sensitifrwydd, rhagwelir y bydd cynnydd o un flwyddyn mewn disgwyliad oes yn cynyddu'r Rhwymedigaeth Budd-dal Diffiniedig Cyflogwr tua 3-5%. Yn ymarferol, bydd cost wirioneddol cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn

dibynnu ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os bydd gwelliannau i gyfraddau goroesi yn bennaf yn berthnasol i oedrannau iau neu hŷn.

Er mwyn mesur effaith newid yn y tybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd, mae gwerth y cynllun dyledion ar ddyddiad cyfrifyddu ar gyfraddau amrywiol wedi cael ei gyfrifo a'i gymharu. Mae'r dull a gymerwyd yn gyson â'r hyn a fabwysiadwyd i darddu'r ffigurau cyfrifyddu a ddarparwyd yn yr adroddiad actiwaraid, yn seiliedig ar broffil (oed cyfartalog yr aelodau, oed ymdeol ac ati) y Cyflogwr ar ddyddiad y prisiad diweddaraf.

## **Risgiau**

Prif risgiau'r cynllun i'r Awdurdod ydi'r tybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (h.y. llawer yn tynnu nôl o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, arenillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a gedwir gan y cynllun. Caiff y rhain eu lliniaru i raddau helaeth gan y gofyniad statudol i godi tâl ar Gronfa'r Cyngor y symiau sy'n ofynnol gan statud.

## **Effaith ar Lif Arian yr Awdurdod**

Amcanion cynllun Conwy ydi cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosibl. Mae'r cyfraniadau a delir gan y cyflogwr wedi'u gosod gan y Gronfa Actiwari yng ngwerthusiadau actiwariad bob tair blynedd (y mwyaf diweddar oedd 31 Mawrth 2022), neu unrhyw amser arall y mae'r Awdurdod Gweinyddu yn rhoi cyfarwyddyd i wneud hynny.

Amcangyfrifir y bydd cyfraniad y cyflogwr ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2024 tua £15.046m ar gyfer cynllun Conwy.

## **35. Trefniadau a Phwyllgorau ar y Cyd**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ymwneud â dau drefniant ar y cyd gydag Awdurdodau eraill gogledd Cymru.

- Mae yna un Gydbwyllgor ffurfiol lle mae Cyngor Sir y Fflint yn paratoi cyfrifon ar wahân. Partneriaeth Trin Gwastraff Gweddillol Gogledd Cymru (gyda Sir y Fflint (Awdurdod arweiniol), Ynys Môn, Sir Ddinbych a Gwynedd). Cyfraniad Conwy a oedd yn ddyledus i'r Bartneriaeth yn 2022/23 oedd £50 (£287 2021/22).
- Ail Gydbwyllgor ffurfiol, y mae Cyngor Gwynedd yn paratoi set o gyfrifon ar wahân ar ei gyfer, yw GwE, gwasanaeth gwella ar gyfer ysgolion Gogledd Cymru. Cyfraniad Conwy at Gydbwyllgor GwE yn 2022/23 oedd £671,000 (£645,000 yn 2021/22).
- Trydydd Cyd-bwyllgor ffurfiol, y mae Cyngor Gwynedd yn paratoi set o gyfrifon ar wahân ar ei gyfer, yw Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Roedd cyfraniad Conwy i Gyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn £123,770 yn 2022/23 (£168,000 yn 2021/22).

Gallwch weld cyfrifon y Cydbwyllgorau hyn drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

[www.nwrwtp.org](http://www.nwrwtp.org)

<https://www.gwynedd.gov.uk>



### 36. Natur a Maint y Risgiau a Ddaw o Offerynnau Ariannol

Mae gweithgareddau'r Awdurdod yn arwain at amryw o risgiau ariannol, a'r risgiau allweddol yw:

- Risg credyd – y posibilrwydd y bydd partion eraill yn methu â thalu'r symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod;
- Risg Hylifedd – y posibilrwydd na fydd cyllid ar gael gan yr Awdurdod i fodloni ei rhwymedigaethau i wneud taliadau;
- Risg Marchnad – y posibilrwydd y bydd colled ariannol i'r Awdurdod o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau, fel newidiadau mewn cyfraddau llog;

Mae rhaglen rheoli risg cyffredinol yr Awdurdod yn canolbwyntio ar natur anrhagweladwy'r marchnadoedd ariannol, ac yn ceisio lleihau'r effeithiau andwyol potensial ar yr adnoddau sydd ar gael i ariannu gwasanaethau. Cynhelir rheolaeth risg gan dîm trysorlys canolog, dan bolisiau a gymeradwywyd gan y Cyngor yn y Strategaeth Rheolaeth Trysorlys Flynyddol. Mae gan y Cyngor egwyddorion ysgrifenedig ar gyfer rheoli risgiau cyffredinol, yn ogystal â pholisiau ysgrifenedig yn ymwneud â meysydd penodol, fel risg graddfa llog, risg credyd a buddsoddi arian dros ben.

#### Risg Credyd

Mae risg credyd yn deillio o arian a dalwyd i fanciau a sefydliadau ariannol, yn ogystal â thrafodion credyd i gwsmeriaid y Cyngor.

Lleihawyd y risg trwy'r Strategaeth Buddsoddi Blynyddol, sy'n mynnu nad yw arian yn cael ei fuddsoddi mewn sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn ateb naill ai lleiafswm meini prawf credyd a nodwyd, yn unol â *Fitch, Moody's and Standard & Poor's Ratings Services*. Mae'r Strategaeth Buddsoddi Blynyddol, hefyd yn gosod uchafswm i fuddsoddi gyda sefydliad ariannol ym mhob categori.

Mae'r meini prawf credyd yng nghyswllt asedau ariannol sy'n cael eu dal gan yr awdurdod fel a ganlyn:

Bydd y Cyfarwyddwr Strategol - Cyllid ac Adnoddau yn cadw rhestr cyd-barti sy'n cydymffurfio a'r meini prawf canlynol ac yn adolygu'r meini prawf a'u cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo yn ôl yr angen. Mae'r meini prawf hyn ar wahân i'r rheini sy'n pennu buddsoddiadau Penodol ac Amhenodol, gan eu bod yn dethol y gwrth bartion hynny a ddewisir gan y Cyngor yn hytrach na diffinio beth yw ei fuddsoddiadau.

1. Swyddfa Rheoli Dyledion y Trysorlys – diderfyn
2. Awdurdodau Lleol (heblaw â threthi wedi'u capio) – terfyn £10m
3. Bob banc DU ac Iwerddon a'u his-gwmnïau sydd â graddau da (Fitch neu gyfatebol). Ar hyn o bryd caiff y rhain eu diffinio fel: Tymor Hir A-.

Terfyn - £5m

Defnyddir banciau y mae eu graddau wedi gostwng islaw'r rheini yn 3 uchod os yw'r adneuron cyfanwerth yn cael eu sicrhau gan warant llywodraeth, a bod yr adneuron yn dod o fewn telerau'r warant.

#### 4. Cymdeithasau adeiladu

- Cymdeithasau adeiladu gyda gradd (fel y sector bancio) i gyd gyda therfyn benthyca o £3m.
- Yr holl gymdeithasau adeiladu heb radd ond gydag asedau o £1bn neu fwy gyda therfyn benthyca o £3m ac amser terfyn o 9 mis.
- All cymdeithasau adeiladu heb radd ond gyda asedau o £500m neu fwy gyda therfyn benthyca o £2m ac amser terfyn o 6 mis.

Ni ellir asesu pa mor agored yw'r Awdurdod i risg credyd o £5m yng nghyswllt ei fuddsoddiadau mewn banciau a chymdeithasau adeiladu yn gyffredinol gan y bydd y risg bod unrhyw sefydliad yn methu â gwneud taliadau llog neu ad-dalu prifswm yn benodol i bob sefydliad unigol. Dangosodd profiad diweddar mai peth prin iawn yw i'r fath endidau fethu â chwrdd â'u hymrwymadau. Mae risg anadferadwyedd yn berthnasol i holl adneuoyn yr Awdurdod, ond nid oedd tystiolaeth ar 31 Mawrth 2022 fod hyn yn debygol o ddigwydd.

Mae'r crynodeb canlynol yn crynhoi pa mor agored yw'r Awdurdod i risg credyd potensial ar asedau ariannol eraill (dyledwyr amrywiol), wedi ei seilio ar y profiad o ddiffygdlu a methiant i gasglu dros y pum mlynedd ariannol ddiwethaf, wedi ei addasu i adlewyrchu amodau presennol y farchnad.

	<b>Swm ar 31 Mawrth 2023</b>	<b>Profiad Hanesyddol o Ddiffygdlu</b>	<b>Profiad Hanesyddol wedi ei Addasu ar gyfer Amodau'r Farchnad ar 31 Mawrth 2023</b>	<b>Uchafswm Amcangyfrif Datguddiad i Ddiffygdlu &amp; Methiant i Gasglu ar 31 Mawrth 2023</b>	<b>Uchafswm Amcangyfrif Datguddiad ar 31 Mawrth 2022</b>
	<b>£'000</b>	<b>%</b>	<b>%</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Cwsmeriaid	11,003	2.02	2.02	222	222

Nid yw'r Awdurdod yn caniatáu credyd i gwsmeriaid. Gellir dadansoddi'r swm dyledus ond heb amhariad yn ôl oed fel a ganlyn:

	<b>31 Mawrth 2023</b>	<b>31 Mawrth 2022</b>
	<b>£000</b>	<b>£000</b>
0-30 Diwrnod	4,885	4,303
31-60 Diwrnod	447	876
61-90 Diwrnod	367	506
90+ Diwrnod	5,304	5,214
<b>Cyfanswm</b>	<b>11,003</b>	<b>10,899</b>

Mae'r holl daladwyon masnach ac eraill yn ddyledus i'w talu mewn llai na blwyddyn.

Statws credyd y buddsoddiadau diwedd blwyddyn ydi:

	<b>31 March 2023</b> <b>£000</b>	<b>31 March 2022</b> <b>£000</b>
Banciau (A+)	8,700	5,920
Swyddfa Rheoli Dyled (AA-)	0	14,030
Awdurdodau Lleol (Heb eu graddio)	23,500	8,000
<b>Total</b>	<b>32,200</b>	<b>27,950</b>

### Risg Hylifedd

Mae gan yr Awdurdod system rheoli llif arian cynhwysfawr sy'n ceisio sicrhau fod arian parod ar gael fel bo angen. Os oes symudiadau annisgwyl yn digwydd, mae gan y Cyngor fynediad parod at fenthyciadau o'r marchnadoedd arian a'r Bwrdd Benthyciad Gwaith Cyhoeddus (PWLB). Nid oes risg sylweddol y bydd yn methu â chodi arian i gwrdd â'i ymrwymadau dan yr offerynnau ariannol. Yn hytrach, y risg yw y bydd yr Awdurdod yn rhwym o ailgyflenwi cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar amser o raddfeydd llog anffafriol. Mae'r Awdurdod yn gosod cyfyngiadau ar y gyfran o fenthycia graddfa sefydlog yn ystod cyfnodau penodol. Mae'r Cyngor yn rheoli ei bortffolio trwy ail-amserlennu dyledion pan fo'n economaidd gwneud hynny. Mae dadansoddiad aeddfedu'r PWLB a benthyciadau farchnad fel a ganlyn:

	<b>31 Mawrth 2023</b> <b>£'000</b>	<b>31 Mawrth 2022</b> <b>£'000</b>
Llai na blwyddyn	94,303	64,383
1 – 2 flynedd	2,455	3,062
2 – 5 mlynedd	7,648	2,282
5 – 10 mlynedd	14,267	5,939
10 – 25 mlynedd	7,586	476
Dros 25 mlynedd	79,655	100,655
<b>Cyfanswm</b>	<b>205,914</b>	<b>176,797</b>

Nid yw'r dadansoddiad uchod yn cynnwys benthyciadau Buddsoddi i Arbed.

### Risg Marchnad

#### Risg Cyfradd Llog

Mae'r Awdurdod yn agored i risg pan fo'n wynebu symudiadau yn y cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae unrhyw symudiad yn y cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y cyfraddau llog yn cael yr effaith a ganlyn:

- benthyc ar gyfraddau amrywiol – bydd y llog a godir ar yr Arian dros Ben neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn cynyddu
- benthyc ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg y benthyciad yn syrthio;
- buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol – bydd yr incwm llog sy'n cael ei dalu i'r Arian dros Ben neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn cynyddu
- buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg yr asedau yn syrthio.

Nid yw benthyciadau'n cael eu cario ar werth teg, felly ni fyddai enillion a cholledion nominal ar fenthyciadau graddfa sefydlog yn effeithio ar yr Arian dros Ben neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau neu Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall. Fodd bynnag, bydd newidiadau yn y llog sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy ar fenthyciadau a buddsoddiadau graddfa amrywiol yn cael eu postio i'r Arian dros Ben neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ac yn effeithio ar Falans Cronfa'r Cyngor. Bydd symudiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau graddfa sefydlog sydd â phris marchnad cyfyngedig yn cael ei adlewyrchu yn yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall.

Mae'r Cyngor wedi cymryd tri benthyciad Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol er mwyn manteisio ar ansefydlogrwydd cyfraddau ac i gynnig sicrwydd cyfraddau.

Mae gan dîm rheoli'r trysorlys strategaeth weithredol ar gyfer asesu pa mor agored yw'r awdurdod i raddfeydd llog, sy'n bwydo i mewn i osod y gyllideb flynyddol ac a ddefnyddir i ddiweddarau'r gyllideb yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn caniatáu cynnwys unrhyw newidiadau andwyol. Bydd y dadansoddiad hefyd yn cynghori p'un a yw benthyciadau newydd a gymerir yn sefydlog neu'n amrywiol. Yn ôl y strategaeth asesu hun, ar 31 Mawrth 2023, petai graddfeydd llog wedi bod 1% yn uwch a'r holl newidynnau eraill yn cael eu dal yn gyson, byddai'r effaith ariannol fel y gwelir yn y tabl canlynol:

	£'000
Cynnydd ar y llog a geir ar fuddsoddiadau cyfradd amrywiol	(87)
Effaith ar arian dros ben neu ddiffyg ariannol wrth ddarparu gwasanaethau	(87)
Lleihad mewn Gwerth Teg am asedau buddsoddiad cyfradd penodol	15
Effaith ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	15
Lleihad mewn Gwerth Teg atebolrwydd benthyciadau cyfradd penodol (effaith o £19k ar yr arian dros ben neu ddiffyg ariannol wrth ddarparu gwasanaethau neu Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall)	(18,410)

Byddai effaith gostyngiad o 1% mewn graddfeydd llog fel uchod ond gyda'r symudiadau wedi'u gwyrddroi.

### Risg Pris

Nid yw'r Cyngor yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau ecwiti neu fondiau y gellir eu marchnata felly nid oes risg y bydd buddsoddiadau yn colli gwerth oherwydd cwmp ym mhrisiau'r farchnad stoc.

### Risg Cyfnewidfa Dramor

Mae gan yr Awdurdod asedau ariannol minimal ond dim rhwymedigaeth mewn arian tramor, ac felly, dim ond perygl minimal o golli arian oherwydd newidiadau mewn cyfraddau newid arian tramor.

### **37. Cronfeydd Ymddiriedolaeth**

1. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn gweinyddu 24 o Gronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg. Nid asedau'r Cyngor yw'r cronfeydd hyn ac felly, nid ydynt wedi eu cynnwys yn y Fantolen.

Mae'r Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg yn gweithredu ar gyfer amrywiaeth o achosion o gronfeydd gwobrau ysgol i gynnal a chadw manau chwarae i blant. Mae pob un yn cynnwys swm gweddol fechan o arian a geir yn bennaf gan unigolion ac yn cael ei fuddsoddi er mwyn darparu incwm blynyddol.

Roedd balansau'r Gronfa ar 31 Mawrth 2023 yn £116,995 a'r incwm am y flwyddyn oedd £2,403. (Roedd balansau'r Gronfa ar 31 Mawrth 2022 yn £114,593 a'r incwm am y flwyddyn 2021/22 oedd £484).

2. Ar ben hynny, mae'r Cyngor yn gyfrifol am Gronfa'r Degwm. Mae'r cynllun hwn yn darparu incwm sydd i'w ddefnyddio i bwrpasau elusennol, addysgol, adloniadol a chymdeithasol yn ôl doethineb y Cyngor. Nid ased y Cyngor yw'r Gronfa ac felly ni chafodd ei chynnwys gyda'r Fantolen.
3. Sefydlwyd Cronfa Ymddiriedolaeth newydd er lles disgyblion ysgol Llanrwst ar gyfer addysg ategol.
4. Mae nifer fechan o Gronfeydd Ymddiriedolaeth eraill sydd wedi eu derbyn. Balansau'r Gronfa ar 31 Mawrth 2023 oedd cyfanswm o £224,971 (Balansau'r Gronfa ar 31 Mawrth 2022 oedd £220,612).

### 38. Treth y Cyngor

Mae incwm Treth y Cyngor yn deillio o daliadau a godir yn ôl gwerth eiddo preswyl, sydd wedi eu dosbarthu'n deg o fandiau priso, ar sail amcangyfrif o werth yr eiddo ar Ebrill 1af 2003, i'r pwrpas penodol hwn. Cyfrifi'r taliadau trwy gymryd swm yr incwm sydd ei angen ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru am y flwyddyn sydd i ddod, a rhannu'r swm â Sylfaen Treth y Cyngor. Sylfaen Treth y Cyngor yw cyfanswm yr eiddo ym mhob band, wedi ei gywiro trwy gyfran i newid y rhif yn ffigwr gyfwerth â Band D, ac wedi ei gywiro ymhellach i gymryd gostyngiad i ystyriaeth.

Bwriwyd cyfrif o Sylfaen Treth y Cyngor am 2022/23 fel a ganlyn:

Band	Swm Cyfwerth y Cartrefi ar ôl y Gostyngiadau	Addasiad Band D	Cyfwerth â Band D
A*	8	5/9	4.44
A	4,258	6/9	2,838.50
B	7,006	7/9	5,448.92
C	13,440	8/9	11,946.44
D	10,533	1	10,532.50
E	8,288	11/9	10,129.17
F	4,613	13/9	6,663.58
G	1,764	15/9	2,940.42
H	398	18/9	796.50
I	128	21/9	298.08
<b>Treth y Cyngor ar ôl darparu ar gyfer colledion wrth ei gasglu</b>			<b>51,598.55</b>

Band D Treth y Cyngor ar gyfer 2022/23 oedd £1,803.14.

Mae'r cyfanswm a godwyd gan Dreth y Cyngor (gan gynnwys y praeseptau) fel a ganlyn:

	2022/23 £'000	2021/22 £'000
Treth y Cyngor a godwyd	93,032	89,706

### 39. Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)

Mae'r Dreth Annomestig Genedlaethol yn cael ei phennu gan y Llywodraeth Cymru, ond yn cael ei chasglu'n lleol drwy drefniant asiantaeth cyn ei thalu i mewn i gronfa ganolog a weinyddir gan Llywodraeth Cymru. Wedyn gwneir penderfyniad, ar sail poblogaeth, ynglŷn â faint i'w aiddosbarthu i awdurdodau lleol.

Ar gyfer 2022/23, y dreth a osodwyd gan y Llywodraeth oedd 0.535 ceiniog am bob £1 o werth trethiannol yr eiddo annomestig (2021/22: 0.535 ceiniog). Ar 31 Mawrth 2023 roedd 6,057 o eiddo ar y rhestr brisio leol yng Nghonwy, gyda gwerth trethiannol o £86,947,656 (2021/22: £86,167,833). Mae'r incwm net sy'n dod i'r Cyngor o'r Treth Annomestig Cenedlaethol fel a ganlyn:

	<b>2022/23</b>	<b>2021/22</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Trethi Annomestig Cenedlaethol a godwyd	33,966	32,725
Llai: cost y Lwfans Casglu	(310)	(309)
Llai: y swm a dalwyd i'r Gronfa Genedlaethol	(33,656)	(32,416)
	-	-
Derbyniadau oddi wrth y Gronfa Genedlaethol	43,306	39,768
<b>Incwm net o Drethi Annomestig Cenedlaethol</b>	<b>43,306</b>	<b>39,768</b>

## **GEIRFA**

### **ADDASIAD BLWYDDYN FLAENOROL**

Addasiadau perthnasol sy'n ymwneud â'r flwyddyn flaenorol sy'n deillio o newidiadau mewn polisiau cyfrifo neu gywiriad camgymeriadau sylfaenol. Nid yw hyn yn cynnwys cywiriadau cylchol normal neu addasiadau o amcangyfrifon cyfrifo a wnaed mewn blwyddyn flaenorol.

### **ADNODDAU HYLIFOL**

Buddsoddiadau ased cyfredol sy'n rhwydd i'w gwaredu gan y Cyngor heb aflonyddu ar ei fusnes ac sydd naill ai:

- Yn drosglwyddadwy'n hawdd i symiau hysbys o arian parod ar neu'n agos at y swm a gludir; neu
- Yn cael eu masnachu mewn marchnad weithredol

### **AMHARIAD**

Lleihad mewn gwerth ased sefydlog dan ei swm a gludir yn y Fantolen.

### **AMORTEIDDIAD**

Dileu rhwymedigaeth yn raddol, fel benthyciad, drwy daliadau rheolaidd dros gyfnod penodol o amser. Rhaid i'r fath daliadau fod yn ddigon i gynnwys y prifswm a'r llog.

### **ARCHWILIO CYFRIFON**

Archwiliad annibynnol o faterion ariannol y Cyngor.

### **ARIAN**

Yn cynnwys arian parod mewn llaw ac mewn adneuon ar gais.

### **ARIANNU CYFALAF**

Arian a godir i dalu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd o gyllido gwariant cyfalaf yn cynnwys benthycia, prydlesu, cyllido refeniw uniongyrchol, derbynion cyfalaf defnyddiadwy, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, refeniw cronfeydd wrth gefn a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

### **ASED**

Eitem sydd â gwerth i'r Cyngor mewn termau ariannol. Mae eitemau'n cael eu categoreiddio fel rhai cyfredol neu sefydlog:

- Bydd ased cyfredol yn cael ei ddefnyddio neu'n peidio â bod â gwerth perthnasol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf (e.e. arian parod a stoc);
- Mae ased sefydlog yn rhoi buddiannau i'r Cyngor ac i'r gwasanaethau mae'n darparu ar eu cyfer am gyfnod o fwy na blwyddyn a gall fod yn ddiriaethol e.e. canolfan gymuned, neu anniriaethol, e.e., trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol.

### **ASED WRTH GEFN**

Mae ased wrth gefn yn ased posib sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond trwy ddigwyddiad o un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Cyngor.

### **ASEDAU ANNIRIAETHOL**

Gellir diffinio eitem anniriaethol (nid un ffisegol) fel ased pan fo'r mynediad at fuddiannau economaidd i'r dyfodol y mae'n ei gynrychioli'n cael ei reoli gan yr endid adrodd. Mae Asedau Anniriaethol y Cyngor hwn yn cynnwys trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol.



## **ASEDAU CYMUNEDOL**

Asedau mae'r Cyngor yn bwriadu eu dal am byth, nad oes iddynt oes ddefnyddiol benodadwy ac a all fod â chyfyngiadau ar eu gwaredu. Enghreifftiau o asedau cymunedol yw parciau ac adeiladau hanesyddol.

## **ASEDAU GWEITHREDOL**

Asedau sefydlog sy'n cael eu dal a'u meddiannu, defnyddio neu eu treulio gan y Cyngor wrth iddo ddilyn ei strategaeth ac wrth gyflenwi'n uniongyrchol y gwasanaethau hynny y mae ganddo gyfrifoldeb drostynt naill ai'n statudol neu â disgresiwn.

## **ASEDAU NAD YDYNT YN WEITHREDOL**

Asedau sefydlog a ddelir gan y Cyngor ond nad ydynt yn cael eu meddiannu, defnyddio neu eu treulio'n uniongyrchol wrth gyflenwi gwasanaethau. Enghreifftiau yw eiddo buddsoddiad, asedau yn cael eu hadeiladu neu asedau dros ben i anghenion tra'n disgwyl eu gwerthu neu ailddatblygu.

## **ASEDAU SEILWAITH**

Asedau sefydlog sy'n perthyn i'r Cyngor na ellir eu trosglwyddo na'u gwerthu, y mae eu gwerth yn adferadwy yn unig drwy ddefnydd parhaus a grëwyd gan yr ased. Enghreifftiau yw priffyrdd, llwybrau a phontydd.

## **ASEDAU TREFTADAETH**

Mae Ased Treftadaeth yn ased sydd â rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol sy'n cael ei dal a'i chynnal oherwydd ei chyfraniad at wybodaeth a diwylliant yn bennaf.

## **BENTHYCA DROS DRO**

Arian a fenthycir am gyfnod o lai na blwyddyn.

## **BENTHYCIAD MEDDAL**

Benthyciad a wnaed yn ddi-log neu ar raddfa llai na graddfa'r farchnad, fel arfer am resymau polisi. Yn aml gwneir y fath fenthyciadau i unigolion neu sefydliadau y mae'r Cyngor yn eu hystyried fel rhai sy'n dod â budd i'r boblogaeth leol.

## **BUDD-DALIADAU TAI**

System o gymorth ariannol i unigolion tuag at gostau tai penodol a weinyddir gan awdurdodau, gyda chymhorthdal gan lywodraeth ganolog.

## **BUDDIANNAU Â DISGRESIWN (PENSIYNAU)**

Buddiannau ymddeoliad, nad oes gan y cyflogwr unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, gytundebol neu adeiladol i'w dyfarnu, ac sy'n cael eu dyfarnu'n ôl pwerau disgresiwn y Cyngor fel y Rheoliadau Llywodraeth Leol (Taliadau Disgresiwn) 1996.

## **BUDDIANNAU GWEITHWYR**

Bob ffurf o ystyriaeth a roddir gan y cyngor fel cyfnewid am wasanaeth a roddir gan ei weithwyr.

## **BUDDIANNAU TERFYNU A PHECYNNAU YMADAEL**

Buddiannau terfynu yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i ddod â chyflogaeth swyddog i ben cyn y dyddiad ymddeol cyffredin neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddo gwirfoddol. Mae costau'r Buddiannau Terfynu yn cael eu hystyried yn Becynnau Ymadael.

## **BUDDIANNAU YMDDEOLIAD**

Bob ffurf o gydnabyddiaeth a roddir gan gyflogwr yn lle gwasanaethau a gyflenwyd gan weithwyr sy'n daladwy ar ôl terfyn y gyflogaeth.

### **BUDDSODDIADAU (CRONFA BENSIWN)**

Bydd buddsoddiadau'r gronfa bensiwn yn cael eu cyfrifo yn natganiadau'r gronfa honno. Fodd bynnag, mae'n ofynnol hefyd ar awdurdodau i ddatgelu, fel rhan o ofynion datgelu sy'n ymwneud â buddiannau ymddeoliad, siâr i'w briodoli o asedau'r cynllun pensiwn sy'n gysylltiedig â'u rhwymedigaethau gwaelodol.

### **BUSNES HYFYW**

Y cysyniad fod y Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi ar y dybiaeth y bydd y Cyngor yn parhau mewn bodolaeth weithredol am y dyfodol rhagweladwy.

### **BWRDD BENTHYCIADAU GWEITHIAU CYHOEDDUS (PWLB)**

Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n rhoi benthyciadau am flwyddyn a mwy i awdurdodau ar raddfeydd llog sydd ond ychydig yn uwch na'r rheiny y gall y llywodraeth fenthyca ei hun.

### **BWRDD YMGYNGHOROL ADRODD ARIANNOL (FRAB)**

Y corff annibynnol sy'n cynghori'r Llywodraeth ar faterion cyfrifo.

### **CIPFA**

Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifo

### **COST AMNEWID DIBRISIEDIG (DRC)**

Dull o brisio sy'n rhoi amcan cydnabyddedig i werth marchnad eiddo arbenigol. Mae'n amcangyfrif o werth y farchnad i ddefnydd presennol y tir, ynghyd â chostau amnewid gros presennol i'r adeilad llai lwfans ar gyfer dirywiad ffisegol yr ased oherwydd ei stad ffisegol gyfatebol bresennol.

### **COST GWASANAETH CYFREDOL (PENSIYNAU)**

Y cynnydd mewn gwerth cyfredol o rwymedigaethau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y disgwylir iddo ddeillio o wasanaeth gweithiwr yn y cyfnod presennol.

### **COST GWASANAETH YN Y GORFFENNOL (PENSIYNAU)**

Ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y cynnydd yng ngwerth cyfredol rhwymedigaethau'r Cynllun sy'n gysylltiedig â gwasanaeth gweithiwr mewn cyfnodau blaenorol sy'n deillio yn y cyfnod presennol o ganlyniad i gyflwyno neu wella buddiannau ymddeoliad.

### **COSTAU HEB EU DOSBARTHU**

Dyma orbenion nad yw unrhyw ddefnyddiwr yn cael budd ohonynt yn awr, ac fel y cyfryw nid dydynt yn cael eu dosrannu i Wasanaethau.

### **CONTRACT TYMOR HIR**

Contract a ffurfir ar gyfer dylunio, cynhyrchu neu adeiladu ased sylweddol unigol neu ddarpariaeth gwasanaeth (neu gyfuniad o asedau neu wasanaethau sydd gyda'i gilydd yn ffurfio prosiect unigol), ble bo'r amser a gymerir i gwblhau'n sylweddol y contract o'r fath fel ei fod yn disgyn i mewn i fwy nag un cyfnod cyfrifo.

### **COST LLOG (PENSIYNAU)**

Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig, y cynnydd disgwylid yn ystod y cyfnod o werth cyfredol rhwymedigaethau'r Cynllun oherwydd bod y buddiannau yn un cyfnod yn nes at setliad.

### **CRAIDD CORFFORAETHOL A DEMOCRATAIDD**

Mae'r Craidd Corfforaethol a Democritaidd yn cynnwys yr holl weithgareddau penodol y mae awdurdodau lleol yn ymgymryd â nhw, oherwydd eu bod yn awdurdodau etholedig, amlbwrpas. Felly mae cost y gweithgareddau hyn yn uwch na phe byddai cyfres o gyrff

annibynnol, un pwrpas, enwebedig yn rheoli'r un gwasanaethau. Felly, nid oes sail resymol dros ddyrannu'r costau hyn i wasanaethau.

### **CREDYDWR**

Swm sy'n ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd, neu wasanaethau a gyflenwyd yn ystod y cyfnod cyfrifo, ond na thalwyd amdanynt cyn diwedd y cyfnod cyfrifo hwnnw.

### **CRONFEYDD WRTH GEFN**

Croniad dros ben, diffyg a meddiannau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae cronfeydd wrth gefn o natur refeniw ar gael a gellir eu gwario neu eu clustnodi ar ddisgresiwn y Cyngor. Ni ellir defnyddio peth cyfalaf cronfeydd wrth gefn fel y cyfrif ailddatganiad asedau sefydlog i gwrdd â gwariant cyfredol.

### **CRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETH**

Cronfeydd a weinyddir gan y Cyngor i bwrpasau fel gwobrwyon, elusennau, prosiectau penodol ac ar ran plant dan oed.

### **CRONIADAU**

Symiau a gynhwysir yn y cyfrifon terfynol i gydnabod incwm refeniw a chyfalaf incwm a'r gwariant a enillwyd neu yr aethpwyd iddo yn y flwyddyn ariannol, ond nad oedd taliad gwirioneddol wedi ei dderbyn neu ei wneud ar ei gyfer ar 31 Mawrth.

### **CYDNABYDDIAETH ARIANNOL**

Mae'r holl symiau a delir i neu sy'n dderbyniadwy gan weithiwr a symiau sy'n ddyledus trwy lwfansau treuliau (cyn belled ag y mae'r symiau hynny'n daladwy yn nhreth incwm y DU) a gwerth ariannol unrhyw fuddiannau eraill a dderbyniwyd heblaw mewn arian parod. Mae cyfraniadau pensiwn sy'n daladwy gan y cyflogwr yn cael eu heithrio.

### **CYFNOD CYFRIFO**

Y cyfnod o amser a gynhwysir yn y cyfrifon, fel arfer cyfnod o ddeuddeng mis yn cychwyn ar 1 Ebrill. Diwedd y cyfnod cyfrifo yw dyddiad y Fantolen.

### **CYFRIF REFENIW TAI (CRT)**

Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys yr incwm a gwariant sy'n deillio o'r ddarpariaeth llety tai gan y Cyngor.

### **CYFRIF INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR**

Cyfrif refeniw'r Cyngor sy'n adrodd am gost net am y flwyddyn o'r swyddogaethau mae'n gyfrifol amdanynt ac yn dangos sut y cyllidwyd y gost honno o braeseptau, grantiau ac incwm arall.

### **CYFWERTH ARIAN**

Buddsoddiadau tymor byr, hylifol iawn sy'n hawdd i'w trosi i symiau hysbys o arian parod ac sy'n destun i risg fechan o newid mewn gwerth.

### **CYLLIDEB**

Rhagolygon o wariant refeniw a chyfalaf net dros y cyfnod cyfrifo.

### **CYNLLUN PENSIWN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG**

Cynlluniau pensiwn ble bo buddiannau a dderbynnir gan y cyfranogwyr yn annibynnol ar y cyfraniadau a dalwyd, ac nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â buddsoddiadau'r cynllun.

## **CYSONDEB**

Y cysyniad fod triniaeth gyfrifo o eitemau tebyg o fewn cyfnod cyfrifo ac o un cyfnod i'r nesaf yr un fath.

## **DARPARIAETH**

Swm a osodir o'r neilltu ar gyfer rhwymedigaethau neu golledion i'r dyfodol sy'n sicr neu'n debygol iawn o ddigwydd ond bod y symiau neu'r dyddiadau pryd y byddant yn digwydd yn ansicr.

## **DERBYNION CYFALAF**

Yr elw o waredu tir neu asedau sefydlog eraill. Gellir defnyddio cyfrannau o dderbynion cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd, o fewn y rheolau a osodir i lawr gan y llywodraeth ond ni ellir eu defnyddio i gyllido refeniw gwariant.

## **DIBRISIANT**

Mesur o'r gost o dreulio, defnyddio neu fel arall leihau oes economaidd ddefnyddiol asedau sefydlog y Cyngor yn ystod y cyfnod cyfrifo, p'un a yw hynny o ddefnydd, treuliad amser neu anarferiant trwy newidiadau technegol neu rai eraill.

## **DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN**

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol neu anffafriol, sy'n digwydd rhwng dyddiad y Fantolen a'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon.

## **DULL UNED RHAGAMCANEDIG**

Dull priso buddiannau cronus ble mae'r rhwymedigaethau cynllun pensiwn yn gwneud lwfans am gyflogau rhagamcanedig. Y buddiannau cronus yw'r buddiannau gwasanaeth hyd at bwynt penodol mewn amser, p'un a ydynt yn hawliau a roddwyd ai peidio.

## **DYCHWELIAD DISGWYLIEDIG AR ASED AU PENSIWN**

Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig a ariennir, a'r raddfa dychweliad ar gyfartaledd, yn cynnwys incwm a newidiadau mewn Gwerth Teg ond yn net o dreuliau cynllun, a ddisgwylir dros weddill oes y rhwymedigaeth gysylltiedig ar yr asedau gwirioneddol a ddelir gan y cynllun.

## **DYLED NET**

Benthyciadau'r Cyngor llai arian parod ac adnoddau hylifol.

## **DYLEDWR**

Swm sy'n ddyledus i'r Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd, neu wasanaethau a gyflenwyd yn ystod y cyfnod cyfrifo, ond na thalwyd amdanynt cyn diwedd y cyfnod cyfrifo hwnnw.

## **EITEMAU ANGHYFFREDIN**

Eitemau perthnasol, gyda graddfa uchel o annormalrwydd, sy'n deillio o ddigwyddiadau neu drafodion sy'n disgyn tu allan i weithgareddau cyffredin y Cyngor ac na ddisgwylir iddynt ailddigwydd. Nid ydynt yn cynnwys eitemau eithriadol, na chwaith yn cynnwys eitemau cyfnod blaenorol dim ond oherwydd eu bod yn gysylltiedig â chyfnod blaenorol.

## **EITEMAU EITHRIADOL**

Eitemau perthnasol sy'n deillio o ddigwyddiadau neu drafodion sy'n dod oddi mewn i weithgareddau cyffredin y Cyngor ac sydd angen eu datgelu ar wahân oherwydd eu maint neu ddigwyddiad i roi cynrychiolaeth deg o'r cyfrifon.

## **ENILLION A CHOLLEDION ACTIWARAIDD**

I gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y newidiadau mewn arian dros ben neu ddiffyg actiwaraidd sy'n codi oherwydd:

- Nad yw digwyddiadau wedi cyd-fynd â'r tybiaethau actiwaraidd a wnaethpwyd i'r prisiant diwethaf (enillion a cholledion profiad); neu
- Fod y tybiaethau actiwaraidd wedi newid.

## **GRADDFA LLOG EFFEITHIOL**

Dyma raddfa llog sydd ei hangen i ddisgowntio'r maes amcangyfrifedig o lif arian prifswm a llog drwy oes ddisgwyliedig offerynnau ariannol i gyfateb i'r swm ar yr adnabyddiaeth gychwynnol.

## **GRANT CEFNOGI REFENIW**

Grant a delir gan Lywodraeth Gymru i awdurdodau, yn cyfrannu tuag at gost gyffredinol eu gwasanaethau.

## **GRANTIAU LLYWODRAETH**

Grantiau a wneir gan y llywodraeth tuag at naill ai wariant refeniw neu gyfalaf gan ddisgwyl cydymffurfriad yn y gorffennol neu i'r dyfodol gyda rhai amodau penodol sy'n ymwneud â gweithgareddau'r Cyngor. Gall y grantiau hyn fod yn benodol i gynllun neilltuol neu gall gefnogi gwariant refeniw'r Cyngor yn gyffredinol.

## **GWAITH YN MYND YN EI FLAEN (WIP)**

Cost gwaith a berfformir ar brosiect heb ei orffen ar ddyddiad y Fantolen.

## **GWARIANT CYFALAF**

Gwariant ar gaffael ased sefydlog, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tu draw i'r cyfnod cyfrifo cyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at, ac nid cynnal yn unig, werth ased sefydlog presennol.

## **GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF O DAN STATUD (REFCUS)**

Gwariant y gellir ei ohirio'n gywir (h.y. ei drin fel cyfalaf o ran natur) ond nad yw'n arwain at, neu'n parhau i gydweddu ag, ased diriaethol. Enghreifftiau o daliadau gohiriedig yw grantiau o natur cyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

## **GWEITHGAREDDAU GWEITHREDOL**

Gweithgareddau'r Cyngor nad ydynt yn weithgareddau buddsoddi neu gyllido.

## **GWERTH DEFNYDD PRESENNOL (EUV)**

Y swm amcangyfrifedig y dylid cyfnewid eiddo amdano ar ddyddiad priso rhwng prynwr parod a gwerthwr parod mewn trafodyn hyd braich, ar ôl marchnata priodol pryd yr oedd y partiön yn gweithredu'n wybodus, darbodus a heb orfodaeth, gan gymryd fod y prynwr yn cael meddiant gwag ar bob rhan o'r eiddo sydd ei angen gan y busnes ac yn anwybyddu defnyddiau amgen posib ac unrhyw nodweddion eraill o'r eiddo a fyddai'n achosi i'w werth marchnad wahaniaethu o'r hyn oedd ei angen i gymryd lle'r potensial gwasanaeth dros ben ar y gost leiaf.

## **GWERTH GWEDDILLIOL**

Gwerth net ased y gellir ei wireddu ar ddiwedd ei oes ddefnyddiol.

## **GWERTH LLYFR NET**

Y swm y mae asedau sefydlog yn cael eu gosod arnynt yn y Fantolen, h.y. eu costau hanesyddol neu werth cyfredol llai'r symiau cronus ar gyfer dibrisiant.

## **GWERTH TEG**

Gwerth teg ased yw'r pris y gellid ei gyfnewid amdano mewn trafodion hyd braich, llai, ble bo'n berthnasol, unrhyw grantiau derbyniadwy tuag at brynu neu ddefnyddio'r ased.

## **GWERTH TRETHADWY**

Rhent tybiedig blynyddol hereditament, a ddefnyddir i bwrpasau TAC.

## **INCWM**

Symiau mae'r Cyngor yn eu derbyn neu mae'n disgwyl eu derbyn o unrhyw ffynhonnell, yn cynnwys ffioedd, gwerthiannau a grantiau.

## **ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW (IDR)**

Yr isafswm sydd raid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-daliad benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan y Cyngor.

## **LASAAC**

Pwyllgor Ymgynghorol Cyfrifon Awdurdodau Lleol (Yr Alban).

## **LLIF ARIAN**

Llif i mewn ac allan o arian parod a chyfwerth arian.

## **MATEROLIAETH**

Y cysyniad y dylai'r Datganiad Cyfrifon gynnwys yr holl symiau y gellid disgwyl iddynt, pe gadewid hwy allan, neu eu cam-gynrychioli, arwain at lurguniad o'r datganiadau ariannol ac yn y pen draw gamarwain defnyddiwr y cyfrifon.

## **MENTER CYLLID PREIFAT (PFI)**

Yn nodweddiadol mae trefniadau PFI yn cynnwys endid sector breifat yn adeiladu neu wella eiddo a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus, ac yn gweithredu a chynnal yr eiddo hwnnw am gyfnod penodol o amser ar ran y corff sector gyhoeddus. Yn ei le, mae'r corff sector gyhoeddus yn talu am ddefnydd yr asedau a gwasanaethau cysylltiedig dros gyfnod y trefniant trwy daliad unedol.

## **MYNEGAI PRISIAU DEFNYDDIWR (CPI)**

Mesur o chwyddiant y gellir ei gymharu'n rhyngwladol sy'n defnyddio methodolegau a strwythurau sy'n dilyn Deddfwriaeth a Chanllawiau Rhyngwladol.

## **MYNEGAI PRISIAU MANWERTHU (RPI)**

Datblygwyd yn wreiddiol fel mynegai gwneud iawn i ddiogelu gweithwyr, yn gysylltiedig â'r Rhyfel Byd Cyntaf. Ar ôl niferoedd datblygiadau sylweddol, daeth i gael ei ddefnyddio fel y prif fesur domestig o chwyddiant.

## **OES ECONOMAIDD DDEFNYDDIOL (UEL)**

Y cyfnod dros yr hwn y bydd y Cyngor yn cael buddiannau o ddefnydd ased sefydlog.

## **OFFERYNNAU ARIANNOL**

Unrhyw gontract sy'n arwain at ased ariannol i un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti un arall. Mae'r term yn cynnwys asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol, o dderbyniadwyon masnach syml (anfonebau sydd angen eu talu) a thaladwyon masnach (anfonebau sy'n ddyledus) i ddeilliadau cymhleth a deilliadau sefydlog.

## **PARTÏON CYSYLLTIEDIG**

Mae diffiniad manwl o Bartïon Cysylltiedig yn FRS 8. I bwrpasau'r Cyngor, tybir bod Partïon Cysylltiedig yn cynnwys aelodau'r Cyngor, y Prif Weithredwr ac aelodau agos o'u teulu a'u haelwyd.

## **PARTNERIAETHAU CYHOEDDUS PREIFAT (PPP)**

Menter ar y cyd pan fo partner sector breifat yn cytuno i ddarparu gwasanaethau i neu ar ran sefydliad sector gyhoeddus. Mae Menter Gyllid Preifat yn ffurf o PPP.

## **POLISI'AU CYFRIFO**

Yr egwyddorion, seiliau, confensiynau, rheolau ac arferion a ddefnyddir gan y Cyngor wrth baratoi a chyflwyno ei ddatganiadau ariannol.

## **PRAESEPT**

Yr ardoll a wneir gan awdurdodau praesept ar awdurdodau bilio, sy'n ei gwneud yn ofynnol ar i'r olaf gasglu incwm y Dreth Gyngor ar eu rhan.

## **PRYDLES**

Cytundeb ble bo'r prydleswr yn rhoi hawl i'r deilydd prydles ddefnyddio ased am gyfnod o amser, ar amod taliad neu gyfres o daliadau.

## **RHAGLEN GYFALAF**

Y cynlluniau cyfalaf mae'r Cyngor yn bwriadu eu cynnal dros gyfnod penodol o amser.

## **REFENIW GWARIANT**

Treuliau dydd i ddydd o ddarparu gwasanaethau.

## **RHESTRAU STOC**

Eitemau o ddeunyddiau crai a deunyddiau mae'r Cyngor wedi eu caffael ac sy'n cael eu dal gan ddisgwyl defnydd i'r dyfodol. Enghreifftiau yw deunyddiau defnyddiadwy, deunyddiau crai a gwaith sy'n mynd yn ei flaen.

## **RHWYMEDIGAETH**

Rhwymedigaeth yw pan fo gan y Cyngor ddyled i'w thalu i unigolyn neu sefydliad arall.

- Mae rhwymedigaeth gyfredol yn swm a fydd yn dod yn daladwy neu y gellid ei galw i mewn yn ystod y cyfnod cyfrifo nesaf, e.e. credydwr neu arian parod wedi'u gordynnu.
- Mae rhwymedigaeth ohiriedig yn swm sydd drwy drefniant yn daladwy tu draw i'r flwyddyn nesaf ar ryw bwynt yn y dyfodol neu i'w dalu i ffwrdd trwy swm blynyddol dros gyfnod o amser.

## **RHWYMEDIGAETH ADEILADOL**

Rhwymedigaeth sy'n deillio o weithredoedd yr Awdurdod pan:

- drwy batrwm sefydlog o arferion yn y gorffennol, polisiâu a gyhoeddwyd, neu ddatganiad cyfredol digon penodol, mae'r Awdurdod wedi rhoi arwydd i bartïon eraill y bydd yn derbyn cyfrifoldebau penodol; ac
- ganlyniad, mae'r Awdurdod wedi creu disgwyliad dilys ar ran partïon eraill y bydd yn cyflawni'r cyfrifoldebau hynny.

## **RHWYMEDIGAETH WRTH GEFN**

Mae rhwymedigaeth wrth gefn naill ai'n:

- Rhwymedigaeth bosib sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond trwy ddigwyddiad o un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Cyngor; neu'n
- Rhwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol ble nad yw'n debygol y bydd angen trosglwyddiad o fuddiannau economaidd, neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth gyda dibynadwyedd digonol.

## **RHWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN PENSIWN**

Rhwymedigaethau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig ar gyfer treuliau sy'n ddyledus ar ôl y dyddiad prisiant. Mae rhwymedigaethau'r cynllun a fesurir yn ystod y dull uned a ragamcanir yn adlewyrchu'r buddiannau mae'r cyflogwr wedi ymrwymo i'w darparu i'r Gwasanaeth hyd at y dyddiad prisiant.

### **SAFONAU ADRODD ARIANNOL RHYNGWLADOL (IFRS)**

Mae'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yn swît o safonau cyfrifo a ddefnyddir ar draws y byd. Yng Nghyllideb 2007, cyhoeddodd y canghellor-ar-y-pryd y byddai Sector Gyhoeddus y DU yn mabwysiadu'r IFRS, gan fod hwn yn cael ei ystyried fel arfer gorau ac y byddai'n caniatáu gwneud cymariaethau rhyngwladol. O ganlyniad mae CIPFA/LASAAC yn cynhyrchu Cod Ymarfer ar Gadw Cyfrifon Llywodraeth Leol ym Mhrydain wedi ei seilio ar IFRS, a oruchwylir gan y Bwrdd Ymgynghori Adrodd Ariannol (FRAB).

### **SAFONAU CYFRIFO RHYNGWLADOL Y SECTOR GYHOEDDUS (IPSAS)**

Y safonau cyfrifo sydd wedi'u datblygu'n arbennig ar gyfer y sector gyhoeddus gan Fwrdd Safonau Cyfrifo Rhyngwladol y Sector Gyhoeddus (IPSASB).

### **SOLACE**

Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol

### **TREFNIADAU ASIANTAETHAU**

Trefniant rhwng dau sefydliad ble y bydd un yn gweithredu fel asiant, yn casglu arian ar ran y parti arall, y telir yr arian iddo wedi hynny. Enghraifft yw casgliadau NNDR, ble mae'r Cyngor yn gweithredu fel asiant bilio i lywodraeth ganol, gan gasglu arian gan drethdalwyr ar ran y llywodraeth ganolog ac yna ei dalu iddynt.

### **TREFNIANT CONSESIWN GWASANAETH**

Mae trefniant consesiwn gwasanaeth yn gyffredinol yn cynnwys y grantwr (fel rheol corff sector gyhoeddus) yn rhoi i'r gweithredydd (fel rheol corff sector breifat), am gyfnod y consesiwn, yr hawl i ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi mynediad cyhoeddus at gyfleusterau economaidd a chymdeithasol.

### **TRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL (TAC)**

Mae graddfeydd trethi annomestig cenedlaethol yn ardoll ar fusnesau, wedi'i seilio ar raddfa genedlaethol yn y bunt a osodir gan y llywodraeth a'i luosi gan werth trethadwy asesedig yr eiddo dan sylw. Caiff ei gasglu gan y Cyngor ar ran llywodraeth ganolog ac yna ei ailddosbarthu'n ôl i gefnogi cost gwasanaethau.

### **TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG**

Mae'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir yn gwneud datgeliad o unrhyw drafodion perthnasol rhwng y Cyngor a Phartïon Cysylltiedig yn ofynnol er mwyn sicrhau fod rhanddeiliaid yn ymwybodol pryd mae'r trafodion hyn yn digwydd a goblygiadau hynny.

### **Y FANTOLEN**

Datganiad o'r asedau, rhwymedigaethau a balansau eraill cofnodedig ar ddiwedd y cyfnod cyfrifo.



## Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

### Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-2023

#### 1 Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, ei gyfrif a'i ddefnyddio'n briodol mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol. Mae ganddo ddyletswydd dan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus yn y modd y caiff swyddogaethau eu harfer, gan roi sylw i gyfuniad o faterion economaidd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth dderbyn y cyfrifoldeb hwn mae'r Cyngor yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i lywodraethu ei fusnes ac i hwyluso'r gwaith o arfer ei swyddogaethau yn effeithiol, ac mae hyn yn cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2021, yn diddymu'r dyletswyddau perfformiad a nodwyd ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae'r drefn perfformiad a llywodraethu newydd (heblaw am y darpariaethau'n ymwneud ag asesiadau perfformiad panel), yn berthnasol i gynghorau o flwyddyn ariannol 2021-22 ymlaen. Mae gofyn i gynghorau gynnal hunanasesiad blynyddol o'u perfformiad ac ateb y cwestiynau:

- 1) A yw'r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol?
- 2) A yw'r Cyngor yn defnyddio'i adnoddau yn economaidd, yn effeithiol ac yn effeithlon?
- 3) A oes gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod?

Mae'r hunanasesiad cyntaf ar gyfer 2021-2022 wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi ar wefan y cyngor ac mae ar gael [yma](#). Mae'r Cyngor rŵan yn paratoi ei ail hunanasesiad ar gyfer 2022-2023 a fydd yn cael ei adrodd i ddemocratiaeth yn yr hydref 2023.

Mae'r trydydd cwestiwn 'A oes gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol?' yn cael ei ateb gan yr hunanasesiad yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.

Mae gan y Cyngor **God Llywodraethu Corfforaethol Lleol** sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE, sef Darparu Trefniadau Llywodraethu Da Mewn Llywodraeth Leol a **Fframwaith Llywodraethu** sy'n cynnwys y polisiau, gweithdrefnau, ymddygiadau a'r gwerthoedd sy'n rheoli ac yn llywodraethu'r Cyngor. Mae'r datganiad hwn yn werthusiad o gydymffurfiaeth â'r Cod Lleol ac a yw'r trefniadau llywodraethu yn cefnogi darpariaeth yr amcanion corfforaethol yn effeithiol. Mae'r Datganiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sy'n gofyn bod cyrff perthnasol yn paratoi datganiad llywodraethu blynyddol.

#### 2 Beth yw Llywodraethu?

Llywodraethu Corfforaethol yw'r system a ddefnyddir i gyfarwyddo a rheoli sefydliad.

Bydd strwythur llywodraethu da yn cynnwys, fel isafswm:

- Safonau llywodraethu clir a fydd yn llywodraethu sefydliad
- Rolau a chyfrifoldebau llywodraethu
- Mekanwaith ar gyfer mesur perfformiad sefydliad yn erbyn ei safonau llywodraethu.

Er mwyn bod yn llwyddiannus mae'n rhaid i sefydliad fod â sail gadarn o lywodraethu a rheolaeth ariannol da.

### 3 Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ymrwymo i sicrhau bod arferion rheoli ac egwyddorion llywodraethu da yn cael eu mabwysiadu ym mhob gweithgaredd busnes er mwyn sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd.

#### 1) Y Cod Llywodraethu Lleol

Mae'r Cod Llywodraethu Lleol yn darparu datganiad cyhoeddus sy'n nodi'r ffordd y mae'r Cyngor yn bodloni ac yn cydymffurfio ag egwyddorion Llywodraethu CIPFA.

#### 2) Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Cod Lleol wedi'i danategu gan Fframwaith Llywodraethu sy'n cynnwys y polisiau, gweithdrefnau, ymddygiadau a'r gwerthoedd sy'n rheoli ac yn llywodraethu'r Cyngor.

#### 3) Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn darparu sicrwydd o ran trefniadau Llywodraethu'r Cyngor, ynghyd â nodi meysydd i ganolbwyntio arnynt a'u gwella yn y dyfodol. Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw adrodd yn gyhoeddus ar y graddau y mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'i god llywodraethu lleol. Mae'n nodi'r meysydd sydd angen eu gwella yn ôl yr hunanasesiad.

#### 4) Cynllun Gweithredu Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae'r Cyngor yn parhau i adolygu'r meysydd i'w gwella yn ôl yr hunanasesiad ac maent yn cael eu monitro drwy'r Cynllun Gweithredu DLIB.

### 4 Ffynonellau sicrwydd ar gyfer y gwerthusiad hwn:

Sicrwydd Gofynnol	Ffynonellau Sicrwydd	Sicrwydd a Dderbyniwyd
Cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol	Cynlluniau Corfforaethol a Gwasanaeth	Adroddiad Blynyddol
Darparu gwasanaethau yn economaidd, yn effeithlon ac effeithiol	Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth. Cynllun Cydraddoldeb Strategol Hunanasesiad Blynyddol	Adroddiad Perfformiad Corfforaethol Adroddiadau Blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol Adolygiad Blynyddol Craffu Adolygiad a her y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Asesiad Panel Perfformiad (unwaith bob gweinyddiaeth)
Rheoli risgiau a phroblemau	Fframwaith rheoli risg a phroblemau Cofrestr risg a phroblemau corfforaethol a gwasanaeth. Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth.	Her allanol gan Archwilio Cymru Adolygiad craffu a herio. Adolygiad a her y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Cynllunio a pherfformiad ariannol	Adroddiadau Monitro Perfformiad Ariannol Strategaeth Ariannol Tymor Canolig Gweithdrefnau ariannol Monitro dangosyddion economaidd a derbynebau ariannol cysylltiedig	Adrodd yn rheolaidd ar berfformiad a chyllid Datganiad Cyfrifon Blynyddol

Sicrwydd Gofynnol	Ffynonellau Sicrwydd	Sicrwydd a Dderbyniwyd
Effeithiolrwydd rheolaethau mewnol	Cyfansoddiad (yn cynnwys swyddogion statudol, cynllun dirprwyo, rheolaeth ariannol a rheolau caffael) Y Cyngor, y Cabinet, Pwyllgorau a Phaneli Tîm Arweinyddiaeth Strategol / Uwch Dîm Rheoli Rheoleiddio Allanol Archwilio Mewnol	Adroddiadau archwilio allanol Adroddiadau archwilio mewnol Cofnodion Sgwrs Conwy  Sicrwydd Penaethiaid Gwasanaeth wedi'i gofnodi fel rhan o gyfarfodydd ymgynghori sicrwydd blynyddol.
Ymgysylltu â'r gymuned ac atebolrwydd cyhoeddus	Strategaeth Cynnwys y Gymuned Rhaglen Waith Ymgysylltu Polisi Cwynion	Adborth Ymgysylltu â'r Gymuned Gwersi a Ddysgwyd Adroddiadau Ombwdsmon
Rheoli prosiectau a darpariaeth prosiectau	Fframwaith Rheoli Prosiectau a Rhaglenni	Cynllun gwireddu buddion Adroddiad ar y Gwersi a Ddysgwyd
Prosesau caffael	Rheolau'r Weithdrefn Contractau Rheoliadau Ariannol	Tystiolaethu gwerth am arian. Herio contractau a ddyfarnwyd
Rolau a chyfrifoldebau Aelodau a Swyddogion	Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig, Swyddog Monitro a Swyddog A151	Archwiliadau Allanol Adolygiad Blynyddol gyda'r Cabinet
Safonau Ymddygiad	Polisiâu a Gweithdrefnau AD Codau ymddygiad	Cwynion a dderbyniwyd
Hyfforddiant a Datblygu Aelodau a Swyddogion	Cynllun Dysgu a Datblygu Corfforaethol Cynllun Datblygu Aelodau	Arolygon Staff Cofnodion Sgwrs Conwy Cofnodion hyfforddiant Adroddiadau cwblhau hyfforddiant gorfodol Adroddiadau Blynyddol Cynghorwyr
Cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, polisiâu a gweithdrefnau mewnol	Fframwaith Polisi Strategaeth Rheoli Gwybodaeth Strategaeth Ddigidol Strategaeth Seibrgadernid Safonau'r Gymraeg Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Polisi Iechyd a Diogelwch Adroddiadau archwilio mewnol Rhannu Pryderon a threfniadau eraill i atal twyll	Arolygon Allanol Annibynnol Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch

### **Darperir dau ddarn allweddol o sicrwydd gan Archwilio Mewnol ac Allanol.**

Ym marn archwilio 2022/2023 datganodd y Pennaeth Archwilio Mewnol bod amgylchedd rheoli mewnol a systemau rheoli mewnol y Cyngor yn darparu sicrwydd digonol dros brosesau busnes allweddol a systemau ariannol. Mae cynllun archwilio ar sail risg trwy fap sicrwydd y Cyngor wedi'i ddefnyddio i wneud yn siŵr bod sicrwydd digonol ar gael i gefnogi'r farn flynyddol. Mae arferion gwaith wedi parhau i newid er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd archwiliadau mewnol, gyda ffocws cynyddol ar feysydd risg a nodwyd yn y map sicrwydd a symud i ffwrdd o brosesau archwilio cylchol. Mae'r cynllun archwilio mewnol yn parhau i ddarparu'r hyblygrwydd gofynnol ac ar y cyd â gwaith archwilio mewnol uniongyrchol, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd wedi tynnu ar ffynonellau sicrwydd ychwanegol, sydd wedi'u crynhoi isod:

- Canlyniadau'r holl archwiliadau yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023;
- Canlyniadau'r camau dilynol a gymerwyd mewn perthynas ag archwiliadau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol;
- A oes unrhyw argymhellion sylweddol neu gritigol heb eu derbyn gan y rheolwyr a'r risgiau cysylltiedig;
- Effeithiau unrhyw newidiadau yn amcanion neu weithgareddau'r sefydliad;
- Mae gan y Gwasanaeth fap sicrwydd cynhwysfawr i sicrhau bod y meysydd hynny â'r flaenoriaeth fwyaf yn derbyn sylw, bod bylchau sicrwydd yn cael eu llenwi ac nad oes unrhyw faes o 'or-sicrwydd';
- Y gwaith a wneir gan Archwilio Cymru a rheoleiddwyr allanol eraill;
- Materion yn codi o adroddiadau blaenorol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio;
- Gwaith y Grŵp Gwella ac Archwilio i fonitro risgiau corfforaethol i sicrhau bod holl risgiau critigol a mawr wedi eu nodi drwy'r Awdurdod;
- Derbyn sicrwydd bod llif cyllido allanol wedi cael ei reoli'n dda a bod trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd priodol ar gyfer y defnydd o arian cyhoeddus wedi eu sefydlu.

Cyflwynwyd yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2022/23 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 15 Mai 2023.

Casgliad yr adroddiad oedd bod gan yr Awdurdod brosesau rheoli mewnol, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol boddhaol i reoli'r gwaith o gyflawni amcanion yr Awdurdod ar gyfer y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2023. Cafodd 94% o'r archwiliadau cynlluniedig a gafodd eu cwblhau yn ystod y flwyddyn eu hasesu fel bod yn darparu lefelau cadarnhaol o sicrwydd. Cafodd canfyddiadau'r archwiliadau dilynol a gynhaliwyd yn ystod 2022/23 eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn chwarterol. O'r 2 gam dilynol a gyflawnodd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn, mae 1 o'r argymhellion wedi cael eu gweithredu'n llawn, ac mae'r 11 o argymhellion sy'n weddill yn datblygu. Mae'r 7 o argymhellion cymedrol a'r 4 mân argymhelliad sy'n parhau i ddatblygu yn ymwneud â chydymffurfiaeth â'r Cod Rheoli Ariannol ac archwiliadau Ffiniau Gofal.

Cyhoeddodd yr archwilwyr allanol, Archwilio Cymru farn ddiamedd wir a theg ar gyfrifon 2021/22. Rydym yn aros am farn Archwilio Cymru ar gyfer 2022/23 ond gellir gweld eu Crynodeb Archwilio Blynyddol ar gyfer 2022 drwy glicio [yma](#).

Bydd yr archwiliad o ddatganiadau ariannol wedi'i gwblhau ym mai Mai 2024 pan gaiff y farn archwilio ei chadarnhau.

## 5 Adolygiad o Effeithiolrwydd - sut fyddwn ni'n gwybod bod ein trefniadau'n gweithio?

Mae'r datganiad hwn yn adeiladu ar 'Trefniadau Llywodraethu Da Mewn Llywodraeth Leol 2020 – Diweddariad i Ymarferwyr' y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyfrifoldeb dros gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Caiff yr adolygiad o effeithiolrwydd ei lywio gan waith Uwch Dîm Rheoli'r Awdurdod sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, Adroddiad Blynyddol Pennaeth Gwasanaeth Archwilio Mewnol a gan sylwadau archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu ac arolygwyr eraill. Mae effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu wedi'i werthuso drwy adolygiad gan y Grŵp Gwella ac Archwilio a'r Uwch Dîm Rheoli.

### DIFFINIAD O SGORIAU SICRWYDD

Defnyddiwyd y sgoriau sicrwydd canlynol i hunanasesu ein rheolaethau llywodraethu.

LEFELAU SICRWYDD	RHEOLYDDION	RISGIAU
SICRWYDD UCHEL	Mae rheolaethau'n bodoli i sicrhau bod amcanion y gwasanaeth yn cael eu cyflawni ac i ddiogelu'r Awdurdod rhag risg yn y dyfodol, sy'n cael eu gweithredu yn gyson ac yn effeithiol. Ni ddaethpwyd o hyd i gamgymeriadau arwyddocaol na sylweddol.	Angen camau gweithredu blaenoriaeth isel sy'n hawdd eu rheoli.

SICRWYDD BODDHAOL	Mae rheolaethau allweddol ar waith i gyflawni amcanion y gwasanaeth a lliniaru risgiau sylweddol y gellir eu rhagweld yn y dyfodol. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o anghysondeb ac mae cyfleoedd yn dal i fodoli i liniaru risgiau posibl ymhellach.	Rhywfaint o gyfleoedd yn dal i fodoli i liniaru risgiau posibl ymhellach. Rhywfaint o risg o golled, twyll, amhriodoldeb neu niwed i enw da.
SICRWYDD CYFYNGEDIG	Mae rheolaethau allweddol ar waith a chydymffurfir â hwy i raddau amrywiol, ond mae bylchau yn y broses sy'n golygu fod y gwasanaeth yn agored i risg. Nid yw amcanion yn cael eu cyflawni neu maent yn cael eu cyflawni heb werth am arian.	Mae angen cyflwyno rheolaethau ychwanegol a/neu wella cydymffurfiaeth â'r rhai presennol er mwyn lleihau'r risg i'r Awdurdod. Risg uchel o golled, twyll, amhriodoldeb neu niwed i enw da.
DIM SICRWYDD	Ystyrir bod y rheolaethau allweddol yn annigonol gydag o leiaf un dull rheoli hanfodol ar goll. Mae hefyd angen gwella cydymffurfiaeth â rheolaethau presennol a chafwyd hyd i wallau a hepgoriadau.	Nid yw rheolaethau allweddol yn bodoli ac nid yw'r amcanion yn cael eu cyflawni, neu maent yn cael eu cyflawni heb sicrhau gwerth am arian. Mae'r Awdurdod yn agored i risg sylweddol iawn, a all arwain at golled ariannol fawr, embaras o risg i enw da neu fethu â chyflawni amcanion allweddol y gwasanaeth.

Mae'r **Model Sicrwydd Amddiffyniad Tair Llinell** yn ganolog i'r gwerthusiad o effeithiolrwydd.

Mae gan yr Awdurdod brosesau sydd wedi'u hen sefydlu i sicrhau ei fod yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol. Mae'r prosesau adolygu perfformiad gwasanaethau a hunanasesu yn effeithiol i fonitro a gwerthuso darpariaeth y Cyngor o'i ymrwymadau strategol a rheoleiddiol; pa mor dda y mae materion a risgiau'n cael eu rheoli ac a yw adnoddau ariannol a heb fod yn ariannol yn cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithiol ac yn effeithlon.

Tanategir y mecanweithiau gwerthuso hyn gan fframwaith rheoli perfformiad cadarn sydd wedi'i ymgorffori ar bob lefel o'r sefydliad, i sbarduno gwelliant a sicrhau cydymffurfiaeth. Mae'r prosesau ar gyfer cynllunio strategol a gwasanaeth yn sicrhau bod blaenoriaethau ar lefel gwasanaeth yn cyd-fynd yn uniongyrchol ag amcanion corfforaethol ac mae adnoddau'n cael eu nodi a'u dyrannu'n briodol; mae'r broses ar gyfer rheoli risg a phroblemau'n sicrhau eu bod yn cael eu rheoli ar lefel gwasanaeth ac ar lefel gorfforaethol; mae'r broses ar gyfer mesur perfformiad yn sicrhau bod cynnydd yn cael ei olrhain yn agos a bod ymyriadau amserol yn cael eu defnyddio pan fo'n briodol. Mae effeithiolrwydd y prosesau hyn yn cael ei brofi drwy archwilio, craffu a herio allanol a mewnol cadarn.

## 1. Y llinell amddiffyn gyntaf

O dan y llinell amddiffyn gyntaf, mae rheolwyr gweithredol yn gyfrifol am asesu, rheoli a lliniaru risgiau yn uniongyrchol. Mae gofyn i Benaethiaid Gwasanaeth gynorthwyo â pharatoi'r DLIB ar gyfer y Cyngor drwy ddarparu datganiad sicrwydd ar gyfer y fframwaith rheoli mewnol o fewn eu gwasanaeth. Mae pob Pennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol am gyflawni'r canlyniadau sydd wedi'u nodi yn eu cynllun gwasanaeth. Maent yn gyfrifol am nodi a rheoli'r risgiau a'r problemau a allent effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys monitro effeithiolrwydd y rheolaethau i liniaru'r risgiau a'r problemau a chymryd camau adferol pan fo rheolaethau'n wan neu os nad oes unrhyw rai yn eu lle.

Mae Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth ddwywaith y flwyddyn yn parhau. Maent yn rhoi sicrwydd bod gan wasanaethau drefniadau llywodraethu cadarn. Roedd adolygiadau perfformiad gwasanaeth canol blwyddyn 2022/23 yn darparu sicrwydd bod gwasanaethau'n gwneud cynnydd wrth ddarparu blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth, bod risgiau a phroblemau'n cael eu rheoli a bod cydymffurfiaeth reoleiddiol yn cael ei chyflawni. Fodd bynnag, yr heriau ariannol ac adnoddau sylweddol a wynebwyd gan bob gwasanaeth oedd prif ganolbwynt y trafodaethau adolygu. Mae gostyngiadau cyllidol, cynnydd mewn costau, heriau recriwtio a dal gafael ar, ac absenoldebau staff, yn erbyn cynnydd yn y galw am wasanaethau, yn parhau i roi pwysau sylweddol ar allu'r Cyngor i gynnal y lefel bresennol o gynnydd a pherfformiad. Mae cytundeb cyffredinol rhwng swyddogion ac aelodau na fydd yn bosibl cynnal y lefelau presennol o ddarpariaeth gwasanaeth gyda chymaint o anawsterau o ran adnoddau, a heb i hynny effeithio'n negyddol ar les staff.

Cafodd Adroddiad Perfformiad Corfforaethol canol blwyddyn 2022/23 ar y Cynllun Corfforaethol newydd 2022-2027 ei gyflwyno i ddemocratiaeth gyda chanlyniad cyffredinol fel a ganlyn:

*'Ar y cyfan mae cynnydd da wedi'i wneud yn ystod y chwe mis cyntaf i ddarparu amcanion lles y Cyngor,*

*er bod staff a Chynghorwyr wedi gweithio o fewn amgylchedd economaidd heriol ac yn dal i ddod dros effeithiau'r pandemig.'*

Mae'r Cyngor yn parhau i adfywio ac adfer ar ôl pandemig COVID-19. Ym mis Gorffennaf 2022, symudodd y Cyngor i'w fodel gweithio hybrid cynaliadwy, gan ddarparu'r cydbwysedd iawn rhwng gweithio yn y swyddfa a gweithio o bell er mwyn sicrhau fod darpariaeth gwasanaeth a chynhyrchiant yn effeithiol ac effeithlon i gefnogi llywodraethu a gwelliant.

Mae gan Gonwy hanes da o reoli ei gyllideb refeniw. Fodd bynnag, o ystyried y chwyddiant cyflogau a phrisiau sylweddol o ganlyniad i'r amodau economaidd byd-eang cyfnewidiol yn ogystal â'r cynnydd yn y galw am wasanaethau a waethygyd gan effeithiau hirdymor y pandemig a'r argyfwng costau byw, ni fu'n bosibl aros o fewn y gyllideb yn 2022/23. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y Cyngor wedi gorwario £2.75m, a ariannwyd o'r cronfeydd wrth gefn. Cymerwyd camau yn ystod y flwyddyn i gyfyngu ar y gorwariant a lleihau'r effaith ar gronfeydd wrth gefn a balansau. Yn 2022/23 llwyddodd gwasanaethau i gyflawni'r mwyafrif helaeth o'r arbedion a gynlluniwyd yn ystod y flwyddyn.

O ystyried y pwysau ariannol parhaus, mae'r Cyngor yn cymryd camau gweithredol i gynllunio a rheoli ei sefyllfa ariannol yn y blynyddoedd i ddod, gan gynnwys gweithgoreu cyllideb a arweinir gan Aelodau i ystyried ffurf y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol. Yn ogystal, y Cyngor yw'r cyngor cyntaf yng Nghymru i wahodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gynnal Adolygiad Ariannol gan Gymheiriaid i'w helpu i ddatblygu ei drefniadau ymhellach.

**Sgôr Sicrwydd :** Sicrwydd Boddhaol

## 2. Yr ail linell amddiffyn

Mae'r ail linell amddiffyn yn cynnwys goruchwyllo a monitro gweithgareddau sy'n ymwneud â sawl elfen o lywodraethu mewnol (cydymffurfiaeth archwilio, rheoli risg a phroblemau, perfformiad, rheoli ariannol ac ati). Mae'r llinell amddiffyn hon yn monitro ac yn hwyluso gweithrediad arferion llywodraethu effeithiol gan reolwyr gweithredol ac yn cynorthwyo ag adrodd gwybodaeth i bawb yn y sefydliad. Mae cyfres o adroddiadau'n cael eu hysgrifennu drwy gydol y flwyddyn, yn cynnwys perfformiad corfforaethol, adroddiad blynyddol, adroddiadau ariannol, adroddiadau cydraddoldeb, llywodraethu gwybodaeth, adroddiadau craffu, adroddiadau ar y Gymraeg – mae pob un o'r rhain wedi'u rhestru yn y Fframwaith Llywodraethu.

Mae Cod Rheolaeth Ariannol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn gosod safonau rheoli ariannol gyda'r nod o hybu arferion da a chynorthwyo awdurdodau lleol i arddangos eu cynladwyedd ariannol. Mae cyrff llywodraeth leol yn wynebu her barhaus i'w gwytnwch ariannol o ganlyniad i bwysau a galw sylweddol ar wasanaethau. Mae'r ansefydlogrwydd economaidd wedi ychwanegu at y pwysau hwn gan arwain at heriau ariannol newydd a sylweddol dros y blynyddoedd sydd i ddod. Yn Rhagfyr 2022, lluniodd y Cyngor ei gynllun ariannol tymor canolig, yn nodi'r gofynion cyllidol a ragwelir ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf ac yn cynllunio sut i reoli'r gofyniad o ran adnoddau o fewn yr arian sydd ar gael. Mae'r cynllun yn ymwneud â chyfnod o ddwy flynedd yn hytrach na thair i bum mlynedd, a hynny oherwydd yr ansicrwydd ariannol ac economaidd sylweddol mae'r Cyngor yn ei wynebu. Er gwaethaf cyfnod cymharol fyr y cynllun, ei nod yw helpu i greu sylfaen gynaliadwy ar gyfer cyllid y Cyngor yn y tymor hirach.

Mae'r holl adroddiadau sydd angen cymeradwyaeth wleidyddol wedi cael eu cyflwyno un ai i'r Cabinet neu'r Cyngor ar gyfer cymeradwyaeth, a lle bo'n briodol i un o'r pedwar Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer adolygu a herio. Mae'r adroddiadau'n gyffredinol yn nodi bod yr Awdurdod yn gwneud cynnydd da i gyflawni'r amcanion corfforaethol a strategaethau ategol eraill, ond mae heriau sylweddol yn ymwneud ag adnoddau a chapasiti. Mae'r adroddiadau'n gytbwys ac yn nodi meysydd i'w gwella lle bo angen. Mae rhaglen waith yn ei lle i sicrhau bod adroddiadau'n cael eu cyflwyno mewn modd amserol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan Gadeiryddion Craffu gyda swyddogion llywodraethu.

**Sgôr Sicrwydd:** Sicrwydd Uchel

## 3. Y drydedd linell amddiffyn



Archwilio mewnol yw trydedd linell amddiffyn y sefydliad. Mae swyddogaeth archwilio mewnol annibynnol gydag ymagwedd seiliedig ar risg tuag at waith yn darparu sicrwydd i uwch reolwyr. Mae'r sicrwydd hwn yn cynnwys pa mor effeithiol mae'r sefydliad yn asesu ac yn rheoli llywodraethu ac yn cynnwys sicrwydd ar effeithiolrwydd y llinell amddiffyn gyntaf a'r ail. Cyflwynwyd cyfanswm o 36 barn archwilio gan Archwilio Mewnol yn 2022/23, o'r barnau hynny roedd 12 yn sicrwydd boddhaol a 2 yn sicrwydd cyfyngedig. Ni chafwyd casgliadau archwilio o ddim sicrwydd.

Cynhaliwyd asesiad allanol o'r gwasanaeth archwilio mewnol yn ystod 2022, gan asesu cydymffurfiaeth y Cyngor â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS). Ar draws elfennau gorfodol y PSIAS, mae 56 o safonau neu feysydd o arfer gorau. Daeth yr asesiad allanol i'r casgliad bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â 55 o'r PSIAS ac yn cydymffurfio'n rhannol yn un maes. Nid oedd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio.

Mae Sefydliad yr Archwilydd Mewnol yn awgrymu graddfa o dair sgôr, 'Cydymffurfio'n Gyffredinol', 'Cydymffurfio'n Rhannol', a 'Ddim yn Cydymffurfio'. Barn cyffredinol yr aseswr allanol yw bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn **cydymffurfio'n gyffredinol** gyda'r PSIAS a'r Cod Moeseg ym mhob maes arwyddocaol ac mae'n gweithredu'n annibynnol ac yn amcanol.

Mae Archwilio Cymru yn rhoi barn ar ddatganiad cyfrifon a llywodraethiant yr awdurdod. Mae Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn rhoi barn ar lywodraethiant a rheolaeth Gofal Cymdeithasol ac Addysg. Mae'r adroddiadau archwilio gan y tri rheoleiddiwr ynghylch yr Awdurdod yn gyffredinol yn dod i'r casgliad bod trefniadau llywodraethu da wedi'u sefydlu.

Mae camau unioni yn deillio o argymhellion archwilio mewnol ac allanol yn cael eu monitro'n agos i sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith ac yn effeithiol o ran ymdrin â'r maes(meysydd) risg a ddynodwyd, gan wella trefniadau llywodraethu'r awdurdod ymhellach.

[Adroddiadau Archwilio Cymru](#)  
[Adroddiadau Archwilio Estyn](#)  
[Adroddiadau Archwilio AGC](#)  
[Asesiad Ansawdd Allanol Archwilio Mewnol CBSC](#)

**Sgôr Sicrwydd:** Sicrwydd Uchel

## **Cwestiynau I Hunanasesiad Llywodraethiant Allweddol**

### **1. A yw'r Trefniadau Llywodraethu yn effeithiol o ran cefnogi darpariaeth?**

Mae'r DLIB eleni yn cynnwys cyfnod o amser pan oedd yr Awdurdod yn ymateb i amgylchedd economaidd cyfnewidiol, chwyddiant cynyddol a chynnydd sylweddol mewn costau, gan arwain at heriau a phwysau ariannol sylweddol.

#### **Ymgysylltu â'r Gymuned:**

Mae ymgysylltiad cymunedol â budd-ddeiliaid yn parhau i fod yn rhan ganolog o brosesau llywodraethu'r Cyngor. Mae ceisio barn a mewnbwn y rhai sy'n defnyddio ei wasanaethau a'r rhai sy'n helpu i'w darparu yn hanfodol o hyd er mwyn iddo barhau i ddarparu ei swyddogaethau a defnyddio adnoddau mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Yn ystod 2022-2023 mae'r model gweithio hybrid wedi'i ymwreiddio ymhellach yn arferion ymgysylltu'r Cyngor. Mae cyfarfodydd hybrid wedi dod yn fusnes fel arfer ac yn gweithio'n dda, gan ddarparu hyblygrwydd gwych o ran mynychu a chynnyddu presenoldeb mewn cyfarfodydd democrataidd, sydd yn ei dro yn gwella cyfleoedd ar gyfer dadleuon a thrafodaethau democrataidd. Mae gweithgareddau ymgysylltu'n parhau i gael eu cynnig mewn fformat hybrid, gan wella effeithiolrwydd y broses ymgysylltu ehangach.

Mae ymgysylltiad helaeth wedi parhau gyda staff ac Undebau Llafur er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd y model gweithio hybrid a sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn gwella prosesau

llywodraethu a busnes.

Yn unol â'r weinyddiaeth wleidyddol 5 mlynedd, cynhaliwyd ymgysylltiad helaeth â'r gymuned ar Gynllun Lles drafft Conwy a Sir Ddinbych, er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu blaenoriaethau, pwysau a chyfleoedd cymunedol yn gywir. Hefyd cynhaliwyd ymgysylltiad helaeth ar y Cynllun Corfforaethol drafft ar gyfer 2022 - 2027, gydag adborth wedi'i gynnwys yn fersiwn terfynol y cynllun, a gafodd ei gymeradwyo a'i gyhoeddi yn Hydref 2022.

Mae canlyniad lles Cynllun Corfforaethol sy'n canolbwyntio ar hysbysu, cynnwys ein cymunedau a gwrando arnynt, ac addasu'r ffordd rydym yn gweithio i sicrhau ein bod yn darparu amrywiaeth o ffyrdd i bobl gyfathrebu, cydweithio ac ymgysylltu â'n gwasanaethau.

Lansiodd y Cyngor ei raglen waith ymgysylltu gan ddigideiddio'r broses ar gyfer cofnodi adborth a gweithgareddau ymgysylltu cymunedol. Nod y mecanweithiau ar gyfer cofnodi adborth a gweithgareddau ymgysylltu yw sicrhau bod ymgysylltiad cymunedol yn cael ei gydlynu a'i dargedu'n briodol, gan wneud y mwyaf o'i effeithiolrwydd.

Parhaodd menter Amser i Newid Cymru i fynd i'r afael â stigmas ynghylch iechedd meddwl. Darparwyd ystod o weithgareddau ymgysylltu yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys sesiynau ymgysylltu dyddiol yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl a digwyddiad ar draws y sefydliad i gydnabod Diwrnod Amser i Siarad ar 2 Chwefror 2023.

### **Cynllunio Strategol:**

Mae bod â chynlluniau strategol ar waith wedi'u halinio gydag amcanion lles y Cyngor yn hanfodol i sicrhau bod blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu darparu'n effeithiol a bod rhwymedigaethau statudol yn cael eu bodloni. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnal popeth y mae'r Cyngor yn ei wneud ac yn darparu rhaglenni mapio effeithiol i wella perfformiad ac effeithiolrwydd gweithredol ac ymateb yn effeithiol i risgiau a chyfleoedd macro-amgylcheddol.

Mae strategaethau corfforaethol, cyllid a chynlluniau gwasanaeth yn cyd-fynd ag amcanion lles y Cynllun Corfforaethol.

Mae diwylliant o gynllunio ar sail canlyniadau wedi'i sefydlu yn y prosesau cynllunio gwasanaeth a chynllunio corfforaethol.

Mae'r holl gynlluniau strategol allweddol a'r risgiau a phroblemau corfforaethol yn cyd-fynd â'r amcan lles perthnasol a rhaid i'r holl adroddiadau a gyflwynir i'w cymeradwyo'n ddemocrataidd ddangos sut maent yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac at ba un o amcanion lles a / neu risgiau'r Cynllun Corfforaethol y maent yn cyfrannu.

Mae pob cynllun strategol yn cael ei gynhyrchu ar ôl gweithredu prosesau ymgysylltu â'r gymuned ac yn cael ei gefnogi gyda materion rheoli adnoddau. Mae cysylltiadau positif rhwng cynllunio strategol ac ariannol, ac rydym yn parhau i adeiladu arnynt.

### **Penderfyniadau Allweddol:**

Mae'r Cyngor yn atebol yn gyhoeddus i'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu ac mae angen dangos gonestrwydd a thryloywder yn yr holl benderfyniadau y mae'n eu gwneud. Bydd darparu cyfleoedd i gymunedau gael mynediad at, archwilio a herio penderfyniadau'r Cyngor a bod â thrywydd archwilio clir o ran sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud yn datblygu ymddiriedaeth y gymuned ac yn rhoi sicrwydd bod adnoddau cyhoeddus yn cael eu defnyddio'n economaidd, yn effeithiol ac yn foesebol.

Mae penderfyniadau allweddol yn adlewyrchu'r effaith ar nifer o ffactorau, gan gynnwys cynaliadwyedd, ac mae'r Awdurdod yn parhau i ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy sicrhau bod y Ddeddf wedi cael ei hystyried ym mhob cynllun allweddol a phob penderfyniad allweddol a gyflwynir i ddemocratiaeth.

Trwy ein gweithdrefnau recriwtio mewnol cadarn a'r Uwch Bwyllgor Cyflogaeth, fe wnaethom reoli proses



recriwtio a phenodi mewnol nifer o swyddi uwch reoli yn llwyddiannus, gan gynnwys y Prif Weithredwr, Pennaeth Cyllid, Pennaeth Archwilio a Chaffael, Pennaeth Oedolion Integredig, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Phennaeth y Gyfraith a Llywodraethu, er mwyn gwella llywodraethu ac integreiddiad prosesau busnes.

## Rheoli Perfformiad:

Mae rheoli perfformiad effeithiol yn rhan hanfodol o sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei flaenoriaethau statudol, cenedlaethol a lleol, yn defnyddio ei adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon, yn rheoli risgiau a heriau ac yn cymhell gwelliant parhaus.

Gwerth am Arian: mae polisïau Caffael y Cyngor yn cynnwys buddion cymunedol. Maent yn rhan bwysig o'n meini prawf ar gyfer dyfarnu yn ogystal â gwerth am arian. Mae rheolau caffael contractau yn gofyn bod rheolwyr yn dangos gwerth am arian, ac felly nid yw bob amser yn golygu'r dewis rhataf.

Mae Bwrdd Cyfleoedd Conwy, Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth, Byrddau Prosiect a Rhaglenni i gyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer adolygiad, her a thrafodaethau ar gyfer gwella. Mae'r Cynllun Awgrymiadau Staff hefyd yn gwahodd Staff i gyflwyno syniadau ar gyfer gwelliannau.

Mae Adroddiadau Blynyddol ac adroddiadau prif bwyntiau yn dystiolaeth bod ein hamcanion, yn gyffredinol, yn cael eu cyflawni er gwaethaf heriau ariannol sylweddol. Dros y blynyddoedd diweddar rydym wedi gorfod addasu targedau ac mewn rhai meysydd, wedi penderfynu ar ostyngiad wedi'i reoli mewn gwasanaethau yn unol â gostyngiad mewn cyllidebau.

Pan fydd dystiolaeth o berfformiad sydd angen ei wella, mae cynlluniau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith a'u monitro.

Mae staff perthnasol sy'n gyfrifol am weithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi datblygu cynlluniau gweithredu a'u rhoi ar waith.

## 2. A oes rhwystrau rhag cyflawni?

Roedd y rhwystrau mwyaf arwyddocaol i gyflawniad yn 2022/23 yn cynnwys: cynaliadwyedd y sector gofal cymdeithasol; effaith statws mesurau arbennig y bwrdd iechyd; cynnydd mewn digartrefedd a diffyg tai fforddiadwy; ac anawsterau mewn recriwtio i swyddi gwag mewn meysydd gwasanaeth allweddol, yn ogystal â dileu rhai swyddi gwag er mwyn bodloni targedau lleihau'r gyllideb.

Yn ystod 2022/23, ein materion blaenoriaeth uchel oedd:

Cyfeirnod y Mater	Disgrifiad o'r Mater
CI 1	Mae newidiadau demograffig, fel y gyfradd enedigaethau'n gostwng, yn effeithio ar leoedd mewn ysgolion cynradd a bydd hyn yn effeithio ar ysgolion uwchradd yn y dyfodol.
CI 10	Mae cost lleoliadau addysg arbenigol / annibynnol wedi cynyddu'n sylweddol dros y 2 flynedd ddiwethaf, ac mae hyn yn rhoi pwysau ariannol ar y gwasanaeth.
CI 11	Dim capasiti i gynnal gorfodaeth amgylcheddol
CI 13	Methu â recriwtio i rai swyddi ar draws yr awdurdod
CI 15	Mae'r sector gofal yn anghynaladwy ac nid yw'n tyfu ar yr un cyflymder â'r galw.
CI 16	Ni all Gofal Cymdeithasol fodloni anghenion cynyddol poblogaeth Conwy gan fod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gofyn am ffocws mwy ataliol ac o ganlyniad i'r argyfwng yn y sector Gofal Cymdeithasol sydd wedi effeithio ar argaeledd staff a lleoliadau.
CI 17	Diffyg darpariaeth tai fforddiadwy addas.
CI 18	Mae lefelau digartrefedd wedi cynyddu.
CI 19	Nid oes adnoddau digonol i ddarparu pecynnau gofal hanfodol o fewn y sector gofal cartref o ganlyniad i staff yn gadael y sector a phroblemau recriwtio cyffredinol.

CI 21	Mae prosesau busnes a threfniadau cydweithredol yn cael eu heffeithio gan statws Mesurau Arbennig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
-------	---

Fodd bynnag, ar ôl dweud hynny, mae Adroddiad Perfformiad Corfforaethol Canol Blwyddyn 2022/23 yn dangos er gwaethaf pwysau ychwanegol digynsail, gwnaed cynnydd da i gyflawni amcanion y Cynllun Corfforaethol.

Mae caledi ariannol a chapasiti is staff sy'n ymgymryd â mwy o rolau gan nad yw aelodau newydd o staff yn cael eu cyflogi yn parhau'n rhwystr sylweddol. Rydym yn parhau i fodloni arbedion cyllideb ond mae hyn mynd yn fwy heriol bob blwyddyn, ac o ganlyniad, rydym wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd i gynyddu ffioedd neu leihau neu atal rhai darpariaethau gwasanaeth.

Rydym parhau i edrych ar ffyrdd o archwilio a manteisio ar gyfleoedd ariannu eraill sydd ar gael, megis Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Rydym wedi sicrhau £18 miliwn gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU i wella isadeiledd teithio llesol a chadernid rhag llifogydd yn y sir. Fodd bynnag, bydd y cyllid yn dod i ben yn 2024 a 2025.

Er bod gennym drosolwg o bob partneriaeth strategol ranbarthol ac yn bresennol ym mhob un, mae'n dirlun cymhleth ac mae angen rheolaeth ofalus i sicrhau nad yw'r byrddau yn dyblygu nac yn gwrthdaro.

### 3. A yw llywodraethu yn cefnogi darpariaeth yr amcanion?

- Mae'r Awdurdod yn parhau i adolygu rheolaethau mewnol a gwneud newidiadau lle bo angen yn ôl y ddeddfwriaeth. Mae Archwilio Mewnol yn adolygu eu Map Sicrwydd yn rheolaidd, sy'n cael ei ddefnyddio i lywio'r Cynllun Archwilio Mewnol.
- Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cwblhau hunanasesiad blynyddol o'i berfformiad er mwyn dangos ei fod yn derbyn ei gyfrifoldebau a bod ei drefniadau'n effeithiol. Mae cynllun gweithredu cywiro yn cael ei lunio lle nodir meysydd ar gyfer gwella.
- Mae Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael a'r Rheolwr Archwilio yn cyfarfod timau rheoli gwasanaethau'n rheolaidd i drafod eu risgiau, pryderon a gofynion diweddaraf. Mae hyn yn sicrhau bod Archwilio Mewnol wedi eu diweddarau'n llawn ac yn ymwybodol o faterion sy'n dod i'r amlwg a risgiau a bydd yn gallu canolbwyntio adnoddau yn y prif feysydd blaenoriaeth a risg ar y pryd.
- Mae adroddiadau perfformiad ddwywaith y flwyddyn i ddemocratiaeth ac uwch reolwyr a gall yr holl reolwyr gael mynediad at ddata perfformiad drwy CAMMS ar unrhyw adeg.
- Mae'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol yn cyd-fynd â'r amcanion lles ac mae mesurau a datganiadau dulliau mewn lle i gefnogi pob gweithred gorfforaethol.
- Mae sianeli i'r cyhoedd a staff allu rhoi eu barn drwy ymarferion ymgysylltu â'r gymuned, e-ddeisebau, gwerthusiadau staff a phorthol ar gyfer syniadau staff.
- Mae mecanweithiau adborth mewn lle drwy'r cyfryngau cymdeithasol, briffiau staff, digwyddiadau ymgysylltu i staff a fforwm rheolwyr.
- Mae gan bob prosiect a rhaglen gynllun gwireddu buddion mewn lle ac fe gedwir cofnodion o'r gwersi a ddysgwyd sydd yn cael eu rhannu drwy'r Fforwm Rheoli Prosiectau a Rhaglenni.
- Cynhaliwyd rhaglen foderneiddio barhaus ar draws yr Awdurdod cyfan i sicrhau ein bod yn bodloni'r gostyngiadau uchelgeisiol i'r gyllideb a sicrhau ein bod mor effeithlon â phosibl. Mae'r Prosiect Doethwaith yn parhau â'n gwaith moderneiddio ac adnewyddu ar ôl y pandemig.
- Mae adolygiad o'n prif ystâd swyddfeydd wedi'i gwblhau ac mae'r achos busnes amlinellol wedi'i gymeradwyo er mwyn ystyried yn fanylach yr achos busnes llawn ar gyfer datrysiad 1 swyddfa yng Nghoed Pella.

### 4. Beth ydym ni'n ei wneud yn dda?

- Mae swyddogaethau a dyletswyddau wedi'u diffinio'n glir er mwyn galluogi Aelodau a Swyddogion i gydweithio er mwyn cyflawni'r un diben, ac i benderfynu ar yr ymyriadau sydd eu hangen i fodloni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r canlyniadau corfforaethol. Mae cynllun cynefino cynhwysfawr yn ei le i sicrhau bod yr holl aelodau etholedig newydd yn cael eu cefnogi i ddeall eu rolau a chyfrifoldebau a sut mae'r cyngor yn gweithio - yn enwedig o ran llywodraethu.

- Mae cynllun sefydlu cynhwysfawr hefyd wedi'i sefydlu le ar gyfer uwch reolwyr newydd er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r gefnogaeth angenrheidiol i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol, gan gyfrannu at lywodraethiant effeithiol y sefydliad.
- Yn ogystal â dychwelyd at Gyflwyniadau Corfforaethol wyneb yn wyneb, mae tudalen gynefino newydd wedi'i datblygu ar gyfer pob aelod newydd o staff fel ffynhonnell o wybodaeth iddynt gyfeirio ati wrth iddynt ddatblygu yn eu rôl newydd.
- Pennir bob blaenoriaeth gorfforaethol a risgiau a phroblemau corfforaethol i Uwch Reolwyr ac Aelodau Cabinet fel bo modd eu dwyn i gyfrif ynghylch effeithiolrwydd y gweithredu.
- Mae trefniadau cadarn ar gyfer rheolaeth ariannol effeithiol trwy weithdrefnau cyfrifyddu a rheoliadau ariannol yr Awdurdod. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdrefnau cynllunio cyllideb sefydledig, sydd yn destun asesiad risg, ac adroddiadau rheolaidd i'r aelodau'n cymharu rhagolygon o wariant referniw a chyfalaf i gyllidebau blynyddol a phroses Fframwaith Cynllunio Busnes sy'n cefnogi proses dyrannu adnoddau'r Awdurdod.
- Er gwaethaf 15 mlynedd o galedi, mae gan yr Awdurdod hanes da o reoli ei gynlluniau gwario o fewn y gyllideb a gymeradwywyd. Mae Adroddiadau Gwella Blynyddol olynol gan Archwilio Cymru wedi dod i'r casgliad bod yna reolaeth fewnol dda.

Er gwaethaf y rhwystrau a'r heriau a nodir, mae'r Awdurdod wedi darparu nifer o gyflawniadau yn erbyn ei amcanion lles.

### **Canlyniad 1 – Mae pobl yng Nghonwy'n gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd**

1. Gosod isadeiledd gwefru cerbydau trydan yn un o'n depos i gefnogi ein fflyd drydanol.
2. Plannu 2,000 o goed sbesimen yn ein planhigfa newydd, a fydd yn cael eu plannu yn y sir ar ôl iddyn nhw aeddfedu.
3. Gosod 7,300 o oleuadau stryd LED – 3,000 kWh yn fwy na'r targed lleihau ynni.
4. Gosod goleuadau stryd solar, fel rhan o gynllun prawf, gyda'r bwriad o dreialu hyn ar safleoedd eraill.
5. Parhau i wella llwybrau teithio llesol gan ddatblygu 7 cynllun teithio llesol yn y sir, yn cynnwys: Cyswllt RSPB Glan Conwy; adeiladu Pont Dolgarrog, Towyn i Fae Cinmel a Marl Lane yng Nghyffordd Llandudno.
6. Dechrau'r 'Cynllun casglu Podback' gan gasglu podiau coffi ar gyfer eu hailgylchu ar ymyl palmant.
7. Sefydlu contract gyda Chyngor Sir Ddinbych ar gyfer gweithredu Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref, gan alluogi trigolion o'r ddwy sir i ddefnyddio'r Canolfannau ar draws y ddwy sir.
8. Parhau ar y trywydd iawn i gyflawni'r targed blynyddol ar gyfer aildefnyddio gwastraff, ailgylchu a chompostio, gyda chyfradd ailgylchu canol y flwyddyn o 70%.
9. Parhau ar y trywydd iawn i gyflawni'r targed blynyddol ar gyfer glanweithdra strydoedd, gyda holl strydoedd wedi cael statws B neu uwch ar gyfer eu lefel o lanweithdra yng nghanol y flwyddyn (100%);
10. Rydym wedi sicrhau £18 miliwn gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU i wella isadeiledd teithio llesol a chadernid rhag llifogydd yn y sir.

### **Canlyniad 2 – Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir sydd ag economi lewyrchus a diwylliant yn ganolog iddi**

11. Partneru â Syniadau Mawr Cymru i ddarparu digwyddiad yn Llandudno sef '*Syniadau Mawr Cymru ar Daith*', gan ddarparu gweithdai i entrepreneuriaid / busnesau newydd.
12. Denu cyllid i alluogi datblygiad cynlluniau adfywio / cynlluniau lleoedd ar gyfer ein trefi. Mae Cyngor Tref Tywyn a Bae Cinmel ar fin cwblhau eu Cynllun Lle.
13. Cefnogi Cynghorau Tref gwledig, yn bennaf, Llanfairfechan, Penmaenmawr, Conwy a Llanrwst, yn eu gwaith â Chymorth Cynllunio Cymru i lunio cynllun o restr blaenoriaethau wedi'u nodi gan y gymuned.
14. Cwblhau Cynllun Adfywio 10 Mlynedd Llandudno i wella / cynnal Llandudno ymhellach.
15. Lansio ymgyrch '*Dewch i Gonwy y Gaeaf Hwn*', a oedd yn cynnwys datblygu a chynhyrchu canllaw poced yn amlygu gweithgareddau, atyniadau a digwyddiadau sydd ar gael yng Nghonwy trwy gydol y flwyddyn.

16. Cyhoeddi ein Strategaeth Ddiwylliant Creu Conwy a Strategaeth Llyfrgell a Gwybodaeth.
17. Gwneud cynnydd da o ran defnyddio llyfrgelloedd fel canolbwynt cymunedol, gan gynnwys defnyddio Llyfrgell Llanrwst i gefnogi pobl sy'n byw yn ardal wledig Conwy a'n *'Rhaglen Drysau Agored'*, hyrwyddo llyfrgelloedd, adeiladau ffydd a dinesig, trwy ystod o weithgareddau chwareus ac anturus.
18. Sicrhau dros £391,000 o gyllid allanol ar gyfer y celfyddydau/treftadaeth.
19. Cynyddu lefel ymgysylltiad digidol yn sylweddol o ran ein celfyddydau creadigol, treftadaeth, amgueddfeydd, llyfrgelloedd a theatrau, gyda mwy na 11.5 miliwn o ymweliadau i'n cyfryngau cymdeithasol a gwefannau, o'i gymharu â 990,000 ar gyfer canol y flwyddyn flaenorol a 1.2 miliwn ar gyfer 2021/22.
20. Cefnogi 668 o fusnesau trwy ein canolbwynt busnes, fforymau busnes trefol a sesiynau galw heibio am y Grant Datblygu Busnes Gwledig.
21. Sicrhau cyllid o £250,000 ar gyfer prosiect 'Amdani Conwy', i ddatblygu cyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer cymunedau gwledig ac unigolion sydd ag anableddau.

### **Canlyniad 3 – Mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus**

22. Darparu cymorth i ysgolion i weithredu'r cwricwlwm newydd, gan gynnwys darparu deunyddiau cefnogi ar gyfer addysgu a dysgu a chynnig dysgu proffesiynol i ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm.
23. Ar y trywydd iawn i fod wedi trosglwyddo disgyblion o fewn pob grŵp blwyddyn gorfodol i'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar gyfer y plant hynny y mae'r ALI yn gyfrifol amdanynt o dan y Ddeddf ADY.
24. Cynnal Ffair Swyddi hynod lwyddiannus ym Mae Colwyn a ddenodd dros 170 o geiswyr gwaith, gan gynnwys pobl ifanc a 70 o fusnesau lleol a rhanbarthol a fynychodd i hyrwyddo ystod eang o gyfleoedd gan gynnwys swyddi gwag a phrentisiaethau. Cynigiwyd nifer o gyfleoedd swyddi i bobl ifanc o ganlyniad i hyn.
25. Canfod 24 o rolau yn gymwys ar gyfer pobl ifanc, gyda 10 o gynigion swyddi wedi'u gwneud a 7 o bobl ifanc yn derbyn swydd fel rhan o'r rhaglen Kickstart.
26. Recriwtio dau aelod o staff dynodedig i weithio ar y *'Prosiect Gwarant i Bobl Ifanc'*. Bydd y swyddogion hyn yn canfod ac ymgysylltu gyda phobl ifanc ac yn datblygu prosiectau effeithiol i gynnwys ac ysbrydoli pobl ifanc ar eu siwrnai tuag at hyfforddiant neu gyflogaeth.
27. Trefnu diwrnod cyflogadwyedd a sgiliau trwy Ganolbwynt Cyflogaeth Conwy, i hyrwyddo cyfleoedd i Adawyr Gofal Conwy, fel rhan o Wythnos Gadawyr Gofal Cenedlaethol. Cofrestrodd 7 o adawyr gofal i'r rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy.
28. Derbyn cyllid Ton 5 gan Lywodraeth Cymru i adnewyddu adnoddai sain a gweledol yn ein hysgolion.
29. Gwella'n sylweddol y cymarebau dyfeisiau digidol i ddisgyblion ac wedi uwchraddio'r perifferolion i alluogi ysgolion i addysgu gyda'r dechnoleg ddiweddaraf, fel rhan o'n Strategaeth Ddigidol.
30. Symud 68% o'n hysgolion cynradd, ysgolion arbennig a safleoedd unedau cyfeirio disgyblion i drefniadau cefnogaeth TG llawn a chefnogi 88% o'n hysgolion uwchradd gyda'u cysylltiad â'r rhwydwaith.
31. Recriwtio swyddog datblygu iechyd a lles newydd i gefnogi dysgwyr i reoli a gwella eu hiechyd meddwl a lles.
32. Creu Cynnydd ac Ymweliadau Stepen Drws, sef rhaglen gymorth wedi'i thargedu ar gyfer pobl ifanc 16+ NEET (Ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) i oresgyn rhwystrau cymhleth i Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant. Rydym wedi gweld canlyniadau cadarnhaol i gyfranogwyr, gan gynnwys dychwelyd i addysg a sicrhau cyflogaeth. Mae adroddiadau misol yn parhau i ddangos tuedd gadarnhaol ac mae Conwy ar hyn o bryd ar ganran NEET o 4%, sy'n is na'r targed cenedlaethol o 8%.

### **Canlyniad 4 – Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywyd**

33. Sefydlu grŵp strategol maint cywir, yn cynnwys partneriaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac awdurdodau lleol Gogledd Cymru, i gydlynu gweithgareddau sy'n annog symudedd o fewn tai cymdeithasol i wneud y defnydd gorau o'r stoc presennol. Mae datblygiad ym Mae Colwyn a fydd yn rhoi blaenoriaeth i ymgeiswyr sydd eisiau symud i dŷ llai, wedi cael ei gymeradwyo a bydd yn dechrau ar y safle cyn diwedd y flwyddyn ariannol.
34. Cyhoeddi ein Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym

35. Datblygu Fframwaith Datblygu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, gan symleiddio'r ffordd mae'r Cyngor yn rheoli ei dir ar gyfer dibenion cynlluniau tai fforddiadwy gan bartneriaid datblygu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.
36. Gweithredu dull wedi'i dargedu i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, trwy ddyrannu swyddogion i ardaloedd dynodedig er mwyn dadansoddi'r problemau a chanfod datrysiadau.
37. Creu 10 o unedau tai newydd a oedd yn gartrefi gwag cyn hynny.
38. Cefnogi 447 o bobl ifanc digartref trwy '*Rhaglen y Dderwen*'.

### **Canlyniad 5 – Mae pobl yng Nghonwy yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel**

39. Gwneud y 10 llyfrgell yn fannau diogel fel rhan o gynllun peilot a datblygu canllawiau ar hyn ar gyfer holl wasanaethau blaen CBSC.
40. Cyhoeddi ein Strategaeth Seibrgadernid a chyflwyno hyfforddiant gorfodol seibrgadernid i staff.
41. Cynnal y 4ydd cynhadledd diogelu gorfforaethol blynyddol gyda chanolbwynt eleni ar gam-drin/cam-fanteisio ar-lein a cham-drin domestig ymysg pobl hŷn.
42. Adolygu a diweddarau'r Polisi Diogelu Corfforaethol.
43. Sefydlu Fforwm Ymarfer Amlasiantaethol Camdrin Domestig, gan ddarparu cyfleoedd i asiantaethau perthnasol gydweithio i fodloni anghenion a rheoli'r risgiau ar gyfer unigolion sy'n profi camdriniaeth.
44. Ail-sefydlu'r Grŵp Lleisiau Uchel, lle gall blant a phobl ifanc dan ofal yr Awdurdod Lleol siarad am eu profiadau a rhannu eu barn. Mae hyn yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddysgu am yr hyn sy'n mynd yn dda ar gyfer y plant hyn a beth ellir ei wneud yn wahanol.
45. Aildrefnu'r prosesau cefnogi ac ymyrraeth i deuluoedd er mwyn gallu gweithio'n gynt gyda theuluoedd, fel ffordd o atal y symudiad i wasanaethau gofal a reolir.

### **Canlyniad 6 – Mae pobl yng Nghonwy yn iach**

46. Atgyfnerthu effaith cadarnhaol ein canolfannau i deuluoedd trwy barhau i ddarparu cymorth a chefnogaeth, megis rhaglen *Croeso Cynnes*, gan ddarparu gwasanaethau hawliau lles a sesiynau coginio a bwyta. Mae'r sesiynau hyn yn profi'n effeithiol i alluogi a grymuso teuluoedd i ddysgu sgiliau bywyd allweddol a gwella eu bywydau.
47. Datblygu 4 llwybr i helpu'r rhai sy'n gadael gofal i gadw'n iach yn y meysydd iechyd rhywiol, beichiogrwydd a rhianta.
48. Penodi Arweinydd Awtistiaeth ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych er mwyn sicrhau bod Conwy yn bodloni ei ddyletswyddau o dan y Cod Ymarfer ar gyfer darparu gwasanaethau awtistiaeth.
49. Cadw ein statws sefydliad sy'n deall dementia.
50. Cadw contractau gydag ystod o ddarparwyr i sicrhau bod gofalcwyr di-dâl yn gallu cael mynediad at gymorth a seibiant priodol. Mae strategaeth yn cael ei datblygu er mwyn sicrhau bod gofalcwyr di-dâl yn gallu osgoi argyfwng a diffyg o ran darpariaeth gofal.
51. Buddsoddi mewn gwelliannau i'n canolfannau hamdden, gan gynnwys adnewyddu campfa ac offer newydd ym Mae Colwyn a Chyffordd Llandudno, a chae 3G newydd yn Abergele.
52. Cynyddu nifer y bobl ifanc 11-16 oed gydag Aelodau Ffit lau i 329 yng nghanol y flwyddyn, o'i gymharu â 56 ar ddiwedd 2021/22.
53. Sicrhau'r lefel aelodaeth uchaf erioed ar gyfer Ffit Conwy, gyda chyfanswm o 5,204 o aelodaeth yng nghanol y flwyddyn.
54. Cyflawni 100% ar gyfer cleientiaid Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) lle mae eu hiechyd wedi gwella ar ôl cwblhau'r rhaglen ymarfer corff.
55. Recriwtio 5 o weithwyr cefnogi dementia i helpu cefnogi unigolion sy'n byw gyda dementia i barhau'n iach.
56. Cyflawni 98% o becynnau ail-alluogi sydd wedi lleihau'r angen am gefnogaeth, cynnal yr un lefel o gefnogaeth neu liniaru'r angen am gefnogaeth. Mae hyn yn ganlyniad cadarnhaol iawn o ystyried y galw parhaus ar y gwasanaeth.
57. Gwella capasiti ceginau ysgolion sydd wedi arwain at holl ddysgwyr y cyfnod sylfaen yn cael cynnig pryd ysgol am ddim. CBSC yw un o'r unig 8 o Gynghorau yng Nghymru sydd wedi cyflawni hyn.
58. Parhau ar y trywydd iawn i gynnig prydau ysgol am ddim i holl ddysgwyr cynradd erbyn Medi 2023. Mae hyn yn arwain at sawl mantais, yn cynnwys: helpu teuluoedd gyda chostau byw, hyrwyddo bwyta'n iach, a gwella sgiliau cymdeithasol, ymddygiad a chyrhaeddiad.

## **Canlyniad 7 – Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir ble mae'r Gymraeg yn ffynnu, a gall pobl gymryd rhan mewn pob agwedd ar fywyd cymunedol yn Gymraeg**

59. Cyhoeddi Cynllun Strategol 10 mlynedd Cymraeg mewn Addysg
60. Cefnogi 14 o aelodau staff i basio eu harholiadau Cymraeg.
61. Parhau i wneud cynnydd da gyda'r Cynllun 'Cymraeg Gwaith', gyda 36 aelod o staff a 9 Cynghorydd yn cymryd rhan.
62. Cynnal sesiynau Paned a Sgwrs 3 gwaith yr wythnos yng Nghoed Pella er mwyn i staff ymarfer eu sgiliau sgwrsio Cymraeg dros baned.
63. Parhau i wneud cynnydd da gyda'r Cynllun Sgwrsio, gan ymestyn y cynllun i Gynghorwyr, gyda 15 pâr o ddysgwyr/unigolion rhugl sy'n cwrdd yn rheolaidd i sgwrsio yn Gymraeg.
64. Dylunio cwrs newydd i ddatblygu sgiliau ysgrifennu Cymraeg siaradwyr rhugl, sydd eisoes yn llawn.
65. Darparu 386 o weithgareddau hyrwyddo'r Gymraeg yn ein llyfrgelloedd, gan gynnwys: amser stori ddwyieithog wythnosol; digwyddiadau i gefnogi *Merched y Wawr*; cefnogi dysgwyr Cymraeg trwy raglen '*Ffrindiau Darllen*', helpu pobl gyda'u hyder i ddysgu a siarad Cymraeg.

## **Canlyniad 8 – Mae pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais a gallant gyfrannu at gymuned ble mae eu cefndir a'u hunaniaeth yn cael ei werthfawrogi a'i barchu**

66. Penodi aelod o staff newydd i ddarparu cydymffurfiaeth y Cyngor â safonau hygyrchedd y we.
67. Gweithio gyda 4 Cyngor Tref ac ymgysylltu gyda'u cymunedau i gynhyrchu cynlluniau creu lleoedd a fydd yn creu ein tystiolaeth llawr gwlad o'r angen i ddatblygu lleoedd lle mae pobl eisiau byw.
68. Dechrau datblygu ein cynllun gweithredu Cymru Wrth-hiliol, yn dilyn lansiad cynllun cenedlaethol Llywodraeth Cymru.
69. Adolygu a diweddarau ein Strategaeth Ymgysylltu â'r Gymuned i gynnwys ein dyletswyddau statudol mewn perthynas â chyfranogiad y cyhoedd yn unol â Deddf Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru) 2021.

## **Canlyniad 9 – Mae CBSC yn wydn**

70. Cyhoeddi ein Cynllun Corfforaethol 2022-2027.
71. Cyhoeddi ein hunanasesiad blynyddol gyntaf ar gyfer 2021-2022 yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
72. Cyhoeddi ein Fframwaith Doethwaith a gweithredu ein model gweithio hybrid.
73. Gosod monitorau CO2 yn ein swyddfeydd i fonitro ansawdd yr aer a sicrhau awyru digonol, gan ddiogelu lles staff a chwsmeriaid a pharhad y gwasanaeth.
74. Datblygu Sgwrs Conwy gyda lansiad ffurfiol wedi'i gynllunio ar gyfer dechrau 2023.
75. Sefydlu Prosiect Recriwtio ac wedi gwneud cynnydd da. Mae'r gwelliannau hyd yn hyn yn cynnwys: ymgyrch farchnata gweithredol i hyrwyddol buddion allweddol o weithio i CBSC, prosesau gwneud cais a rheoli swyddi gwag gwell; hyfforddiant ar gyfer staff ar hysbysebu swyddi; fformat gwell ar gyfer disgrifiadau swyddi a tudalen gwe cynefino newydd.
76. Sicrhau cytundeb nawdd Stadiwm CSM a thrafod cytundeb 2 flynedd gyda URC.
77. Datblygu llwybr hyfforddiant i reolaeth anffurfiol yng Ngofal Cymdeithasol fel dull *Meithrin eich staff eich hun* i gefnogi datblygiad staff a chynllunio olyniaeth.
78. Parhau i weinyddu nifer o grantiau Llywodraeth Cymru ar ran ein preswylwyr a'n busnesau, yn gynnwys:
  - 1,408 o daliadau grant cymorth i ofalwyr di-dâl – cyfanswm o £704,000;
  - 10,829 taliad cymorth tanwydd gaeaf – cyfanswm o £2.2 miliwn;
  - Taliadau prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau i 3,000 o aelwydydd yn ystod pob gwyliau ysgol.
79. Cyflawni'r perfformiad gorau yng Nghymru o ran nifer y cwsmeriaid sydd wedi dewis cael eu biliau'n electronig (50%) a thalu drwy ddebyd uniongyrchol (87.5%).

80. Gwneud cynnydd da wrth weithredu prosiect y System Ariannol Graidd Newydd, i sicrhau cadernid hirdymor ein systemau ariannol, gyda dyddiad 'mynd yn fyw' yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd.
81. Ymgorffori'r hawliadau TAW 4 ysgol sefydledig yn uniongyrchol i hawliadau TAW misol y Cyngor, gan wella cydymffurfiaeth.

## 5. Beth allem ni ei wneud yn well? Ar beth sydd angen i ni gadw'r pwyslais?

1. Gwella cynaliadwyedd y sector gofal cymdeithasol yn wyneb heriau recriwtio ac economaidd ar gyfer yr awdurdod lleol a'r darparwyr gofal.
2. Rheoli'r galw cynyddol am ein gwasanaethau gofal cymdeithasol, galw nad ydym erioed wedi'i weld o'r blaen.
3. Gwella dewisiadau llety gofal cymdeithasol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghonwy, gan leihau'r angen am leoliadau preswyl y tu allan i'r sir.
4. Gweithredu'r Rhaglen Tai newydd er mwyn mynd i'r afael â'r galw sylweddol am wasanaethau tai.

Bydd hyn yn cynnwys:

- Rheoli'r lefelau digartrefedd uchel a digynsail. Roedd 34% o'r achosion o ddigartrefedd wedi'u hatal ar ganol y flwyddyn, mae'r gyfradd atal wedi gostwng i lefel sy'n is o lawer na'r cyfraddau sydd wedi'u hadrodd ar gyfer y mesur hwn. Fodd bynnag, roedd hyn i'w ddisgwyl oherwydd effaith y polisi 'pawb i mewn'.
  - Rheoli'r galw cynyddol am dai fforddiadwy er gwaethaf bod llai o drosiant yn y stoc dai bresennol a'r cyflenwad yn brin.
  - Rheoli nifer cynyddol yr aelwydydd mewn llety dros dro
5. Rheoli ein hisadeiledd ffisegol er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel, yn gynaliadwy ac yn gadarn rhag yr hinsawdd.
  6. Lliniaru effeithiau Newid Hinsawdd ac addasu yn eu sgil, a gweithio at ein targed carbon sero-net.
  7. Cynnwys Carbon Sero-Net yn ein dulliau caffael a diweddarau ein strategaeth gaffael.
  8. Derbyn eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch y cyllid sydd ar gael i ddarparu prosiectau dan y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.
  9. Diweddarau ein Cynllun Rheoli Asedau i gynnal dull strategol i reoli ein hasedau.
  10. Dal i gefnogi ein trigolion a'n busnesau wrth ymateb i'r heriau economaidd.
  11. Gwella ein dulliau recriwtio a chadw staff er mwyn sicrhau gweithlu cynaliadwy.
  12. Gwella'r gyfradd sy'n cwblhau ein hyfforddiant diogelu ar gyfer staff newydd drwy adnabod rhwystrau rhag cwblhau'r hyfforddiant, yn enwedig i weithwyr achlysurol.
  13. Gwella ein seibergadernid a pharhad gwasanaethau yn sgil cynnydd yn y galw am wasanaethau digidol a mwy o fygythiadau seiber o'r tu allan, megis y rhyfel yn Wcráin.
  14. Cael datrysiaid i warchod dogfennau digidol yn yr hirdymor.
  15. Datblygu dulliau cydweithredol o weithredu mesurau ataliol i hybu iechyd a lles er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
  16. Gwella cyfleoedd cyflogaeth i bobl ag anableddau.
  17. Gwella presenoldeb dysgwyr yn y cyfnod ar ôl y pandemig, sydd ar hyn o bryd yn 89.4%. Rhagwelir y bydd y grant gan Lywodraeth Cymru i ariannu ein 4 aelod o staff cefnogi presenoldeb yn dod i ben fis Mawrth 2023.
  18. Monitro effaith ein dull gweithio hybrid ar ansawdd gwasanaethau, diwylliant timau a lles staff.
  19. Parhau i gynnig cymaint â phosib o gyfleoedd i'n staff ddysgu a defnyddio'r Gymraeg, ac i blant a phobl ifanc gael mynediad at yr iaith drwy eu haddysg.
  20. Parhau i gyfrannu at y targed cenedlaethol o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel y pennir yn strategaeth 'Cymraeg 2050' y llywodraeth.

## 6 Materion Llywodraethu

Rydym wedi cael cyngor ar oblygiadau canlyniad yr **adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Cabinet ac mae'r trefniadau yn **parhau i fod yn addas i'r diben ac yn cadw at y fframwaith llywodraethu**. Mae'r meysydd y dylid eu datrys gyda chamau gweithredu newydd wedi'u hamlinellu isod.

Nid oes problemau llywodraethu sylweddol, ond drwy ein gweithdrefnau llywodraethu rydym yn ymwybodol o'n risgiau a'n materion ac yn eu rheoli, ond yn dilyn proses o hunan-arfarnu i adolygu ein heffeithiolrwydd, rydym wedi nodi'r camau canlynol:

- A1 Rhoi camau gweithredu'r MTFP ar waith, gan gynnwys gwella aliniad prosesau cynllunio busnes ac ariannol, i helpu i wireddu gweledigaeth y Cyngor.**
- A2 Adeiladu ar y rhaglen sefydlu aelodau a datblygu cynllun hyfforddi a datblygu aelodau parhaus.**
- A3 Sicrhau bod mecanweithiau yn eu lle i fonitro'r modd y cyflwynir strategaethau allweddol.**
- A4 Sicrhau bod pob agwedd ar hyfforddiant llywodraethu yn cael eu cynnwys yng nghynllun dysgu a datblygu'r Cyngor.**
- A5 Adolygu a gwella dull y Cyngor o reoli risg.**
- A6 Rhoi cynllun gweithredu hunanasesu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar waith.**

Ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, cynigir cymryd camau i ddatrys y materion uchod i wella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Byddwn yn cyfuno'r cynllun gweithredu hwn gyda'r camau a ddynodwyd yn yr hunanasesiad o berfformiad i ffurfio un cynllun gweithredu.

Mae ein trefniadau llywodraethu corfforaethol wedi parhau i fod yn effeithiol i gefnogi'r Cyngor i addasu a darparu gwasanaethau heb unrhyw broblemau â pharhad. Byddwn yn sicrhau bod y dull cadarn hwn ar gyfer llywodraethu yn parhau yn 2023-2024 ac yn y dyfodol wrth i ni barhau i fodloni'n heriau. Mae ein trefniadau llywodraethu wedi gweithio'n dda i addasu i bwysau anferthol, ac er nad ydym eto'n gwybod beth fydd yr effeithiau hirdymor o ran cyllid cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus, fe allai'r newid fod yn ddwys, ond hefyd darparu cyfleoedd newydd ac mae angen i ni barhau i sicrhau bod ein Fframwaith Llywodraethu yn addas i'r diben.

## Casgliad

Mae gan yr Awdurdod fynediad at wybodaeth gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn modd tryloyw mewn cyfarfodydd cyhoeddus a gofnodir. Mae'r trefniadau llywodraethu wedi cefnogi'r awdurdod yn effeithiol drwy gyfnod anodd parhaus. Drwy raglen gynefino, mae pob aelod etholedig wedi cael gwybod am eu cyfrifoldebau cyfansoddiadol. Mae penderfyniadau yn destun craffu allanol a mewnol effeithiol a lle y canfyddir gwendidau, mae cynlluniau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ar unwaith a'u monitro. Yn seiliedig ar yr hunanasesiad hwn, y casgliad cyffredinol yw bod ein trefniadau llywodraethu ar gyfer y cyfnod 2022/2023 yn addas i'r diben ac yn cefnogi cyflawni ein hamcanion yn effeithiol.

## Llofnodwyd



**Dyddiad 20 Mai 2024**

**Rhun Ap Gareth  
Prif Weithredwr**

## Llofnodwyd



**Dyddiad 20 Mai 2024**

**Y Cyngorydd Charlie McCoubrey  
Arweinydd y Cyngor**